(4) Yn is-baragraff (2), mae cyfeiriad at gostau yn gyfeiriad at unrhyw gostau sy'n ymwneud â llunio a rhoi hysbysiad cydymffurfio, hysbysiad adfer, cosb ariannol amrywiadwy neu hysbysiad stop, yn ôl y digwydd, ac mae'n cynnwys cyfeiriad at gostau unrhyw ymchwiliad cysylltiedig neu gyngor arbenigol (gan gynnwys cyngor cyfreithiol).

(5) Rhaid i'r hysbysiad adennill cost gynnwys gwybodaeth o ran—

- (a) swm y costau y mae rhaid eu talu,
- (b) o fewn pa gyfnod y mae rhaid talu, ni chaiff y cyfnod hwnnw fod yn llai na 28 o ddiwrnodau gan ddechrau â'r diwrnod y cyflwynir yr hysbysiad,
- (c) sut y mae rhaid talu,
- (d) canlyniadau methu â thalu o fewn y cyfnod talu a bennir, ac
- (e) hawliau i apelio.

(6) Ar ôl i'r cyfnod talu penodedig ddod i ben, caiff yr awdurdod priodol adennill y costau y cyfeirir atynt yn yr hysbysiad adennill cost fel pe baent yn daladwy o dan orchymyn gan y llys.

(7) Caiff y person y cyflwynwyd yr hysbysiad adennill cost iddo apelio yn ei erbyn.

- (8) Y seiliau dros apelio yw—
- (a) bod y penderfyniad i gyflwyno'r hysbysiad yn seiliedig ar wall ffeithiol;
  - (b) bod y penderfyniad yn anghywir mewn cyfraith;
  - (c) bod y penderfyniad yn annheg neu'n afresymol am unrhyw reswm;
  - (d) bod swm y gosb yn afresymol;
  - (e) bod y penderfyniad yn anghywir am unrhyw reswm arall.

## RHAN 7

### Apelau

#### Apelau

**33.**—(1) Rhaid i unrhyw apêl o dan yr Atodlen hon gael ei gwneud i'r Tribiwnlys Haen Gyntaf.

(2) Mewn unrhyw apêl rhaid i'r Tribiwnlys benderfynu ar y safon profi.

(3) Mae apêl yn erbyn hysbysiad a gyflwynir o dan yr Atodlen hon (ac eithrio hysbysiad stop) yn atal dros dro effaith yr hysbysiad yr apelir yn ei erbyn hyd nes y caiff yr apêl ei phenderfynu neu ei thynnu yn ôl.

(4) Caiff y Tribiwnlys, mewn perthynas â gosod gofyniad neu gyflwyno hysbysiad—

- (a) tynnu yn ôl y gofyniad neu'r hysbysiad;
- (b) cadarnhau'r gofyniad neu'r hysbysiad;
- (c) amrywio'r gofyniad neu'r hysbysiad;
- (d) cymryd unrhyw gamau y gallai'r awdurdod priodol eu cymryd mewn perthynas â'r weithred neu'r anweithred sy'n arwain at y gofyniad neu'r hysbysiad;
- (e) anfon y penderfyniad o ran pa un ai i gadarnhau'r gofyniad neu'r hysbysiad ai peidio, neu unrhyw fater sy'n ymwneud â'r penderfyniad hwnnw, at yr awdurdod priodol.

## RHAN 8

### Canllawiau a chyhoeddusrwydd

#### Canllawiau o ran defnyddio sancsiynau sifil

**34.**—(1) Rhaid i'r awdurdod priodol gyhoeddi canllawiau ynghylch ei ddefnydd o sancsiynau sifil.

(2) Rhaid i'r awdurdod priodol adolygu a diweddarau canllawiau pan fo'n briodol.

(3) Rhaid i'r awdurdod priodol roi sylw i'r canllawiau neu'r canllawiau a adolygwyd ac a ddiweddarwyd wrth arfer ei swyddogaethau.

(4) Yn achos canllawiau ynghylch hysbysiadau cydymffurfio, hysbysiadau adfer, cosbau ariannol penodedig, cosbau ariannol amrywiadwy, hysbysiadau stop a chosbau am beidio â chydymffurfio, rhaid i'r canllawiau gynnwys gwybodaeth o ran—

- (a) o dan ba amgylchiadau y mae sancsiwn sifil yn debygol o gael ei osod,
- (b) o dan ba amgylchiadau nad yw'n debygol o gael ei osod,
- (c) pan fo'n berthnasol, hawliau i wneud sylwadau a gwrthwynebiadau,
- (d) hawliau i apelio, ac
- (e) yn achos canllawiau ynghylch cosbau ariannol amrywiadwy a chosbau am beidio â chydymffurfio, y materion y mae'r awdurdod priodol yn debygol o'u hystyried wrth bennu swm y gosb (gan gynnwys adrodd yn wirfoddol am beidio â chydymffurfio gan unrhyw berson amdano ei hun).

(5) Yn achos canllawiau ynghylch ymgymeriadau gorfodi, rhaid i'r canllawiau gynnwys gwybodaeth o ran—

- (a) o dan ba amgylchiadau y mae'r awdurdod priodol yn debygol o dderbyn ymgymeriad gorfodi, a
- (b) o dan ba amgylchiadau nad yw'r awdurdod priodol yn debygol o dderbyn ymgymeriad gorfodi.

#### Ymgynghori ar ganllawiau

**35.** Rhaid i'r awdurdod priodol ymgynghori ag unrhyw bersonau y mae'r awdurdod priodol yn ystyried ei bod yn briodol ymgynghori â hwy cyn cyhoeddi—

- (a) unrhyw ganllawiau, neu

- (b) unrhyw ddiwygiadau neu ddiweddariadau sylweddol i ganllawiau sydd eisoes wedi eu cyhoeddi.

### **Cyhoeddi camau gorfodi**

**36.**—(1) Rhaid i'r awdurdod priodol gyhoeddi yn flynyddol—

- (a) yr achosion y gosodwyd sancsiynau sifil ynddynt;
- (b) pan fo sancsiwn sifil yn hysbysiad cydymffurfio, hysbysiad adfer neu gosb ariannol amrywiadwy, yr achosion y derbyniwyd ymgymeriad trydydd parti ynddynt;
- (c) yr achosion y derbyniwyd ymgymeriad gorfodi ynddynt.

(2) Yn is-baragraff (1)(a), nid yw'r cyfeiriad at achosion y gosodwyd sancsiynau sifil ynddynt yn cynnwys achosion pan osodwyd sancsiwn ond a gafodd ei wrthdroi ar apêl.

(3) Nid yw'r paragraff hwn yn gymwys mewn achosion pan fo'r awdurdod priodol o'r farn y byddai cyhoeddi yn amhriodol.”

**Explanatory Memorandum to the Official Controls (Plant Health and Genetically Modified Organisms) (Wales) (Amendment) (No. 2) Regulations 2020**

This Explanatory Memorandum has been prepared by the Economy, Skills and Natural Resources Department of the Welsh Government and is laid before the Senedd in conjunction with the above subordinate legislation and in accordance with Standing Order 27.1.

**Minister's Declaration**

In my view, this Explanatory Memorandum gives a fair and reasonable view of the expected impact of the Official Controls (Plant Health and Genetically Modified Organisms) (Wales) (Amendment) (No. 2) Regulations 2020.

**Lesley Griffiths,**

**Minister for Environment, Energy and Rural Affairs**

**18 November 2020**

## **PART 1**

### **1. Description**

1.1. The Official Controls (Plant Health and Genetically Modified Organisms) (Wales) (Amendment) (No. 2) Regulations 2020 (“this instrument”) amends the Official Controls (Plant Health and Genetically Modified Organisms) (Wales) Regulations 2020 (S.I. 2020/206) (W. 48) (“the 2020 Regulations”). It provides for rules on penalties in relation to infringements of Regulation (EU) 2016/2031 on protective measures against pests of plants (“the EU Plant Health Regulation”) and Regulation (EU) 2017/625 on official controls and other official activities performed to ensure the application of food and feed law, rules on animal health and welfare, plant health and plant protection products (“the EU Official Controls Regulation”), by making provision for civil sanctions in relation to the offences set out in Part 11 of the 2020 Regulations.

1.2. This instrument introduces a more targeted sanctioning regime for offences set out in Part 11 of the 2020 Regulations, which will help to increase compliance with the EU Plant Health Regulation and the EU Official Controls Regulation (“the EU Regulations”) and the 2020 Regulations and, in so doing, strengthen our biosecurity framework. The new regime will sit alongside the existing criminal sanctions regime, with criminal prosecution remaining as an option as a last resort for habitual/serious cases of non-compliance.

### **2. Matters of special interest to the Legislation, Justice and Constitution Committee**

2.1. Section 2(2) of the European Communities Act 1972 offers a choice between negative and affirmative procedures. The negative procedure will be used in this case as this instrument amends Regulations that were subject to the negative procedure.

### **3. Legislative Background**

3.1. The EU Plant Health Regulation establishes controls and restrictions which apply to the import (from third countries), and movement within and between EU Member States, of certain plants, plant pests and other material (such as soil). The EU Official Controls Regulation provides for official controls and other official activities to ensure the application of rules in relation to various areas, including plant health.

3.2. The EU Regulations and the implementing legislation made under them are directly applicable in the United Kingdom. Domestic legislation is not needed to implement the substantive provisions in this EU legislation. However, supplementary domestic provisions are necessary to enable the plant health authorities to carry out their obligations under the EU Regulations, enforce those Regulations and

implement derogations to various provisions in the EU legislation that are available to Member States. The 2020 Regulations contain these supplementary domestic provisions. Separate but parallel legislation is in place in England, Northern Ireland, and Scotland.

3.3. This instrument amends the 2020 Regulations to make provision for civil sanctions in respect of offences set out in Part 11 of those Regulations.

#### **4. Purpose and intended effect of the legislation**

4.1. The EU Official Controls Regulation sets out the general obligations of the plant health and other authorities as regards enforcement action and identifies actions in the event of non-compliance. The EU Regulations require Member States to lay down the rules on penalties applicable to infringements and take measures necessary to ensure that they are implemented to provide effective, proportionate and dissuasive sanctions.

4.2. The 2020 Regulations, which replaced the Plant Health (Wales) Order 2018 and the Plant Health (Forestry) Order 2005 (as applicable in Wales) in January 2020, give effect to the EU Regulations. As a review of alternative sanctions was not possible at the time the 2020 Regulations were made, it was decided to maintain the previous approach to enforcement and include the same mechanisms and penalties for non-compliance that were set out in the Plant Health (Wales) Order 2018 and the Plant Health (Forestry) Order 2005 (as applicable to Wales) and to review this approach in 2020. In practice, the Animal and Plant Health Agency's ("APHA") Plant Health and Seeds Inspectors take action to prevent the import of pests and diseases and to ensure compliance by serving statutory plant health notices on consignments that do not comply with the 2020 Regulations. Serious breaches can lead to prosecution.

4.3. The historic lack of prosecutions in the plant health regime suggests that the current enforcement tools are inadequate for targeted and proportionate enforcement. Many offences have historically been dealt with by way of a statutory plant health notice where criminal prosecution is not pursued, whereas a broader range of options would allow a flexible and proportionate enforcement response and help create a level-playing field between those who routinely comply with regulatory requirements and those who do not.

4.4. The suite of civil sanctions introduced by this instrument consist of compliance, restoration and stop notices, fixed and variable monetary penalties, as well as the ability to accept third party undertakings and enforcement undertakings. There are provisions that will enable APHA to recover its costs when imposing civil sanctions, in order to facilitate effective action. This instrument creates, as part of the civil sanctions regime, an offence in relation to a failure to comply with a stop notice. Failure to comply with a restoration or compliance notice may result in the person being criminally prosecuted for the original offence, set out in Part 11 of the 2020 Regulations, provided a variable monetary penalty was not also imposed.



Alternatively, APHA may, irrespective of whether a variable monetary penalty was also imposed, serve a notice on that person imposing a non-compliance penalty.

4.5. During the transition period following the UK's exit from the EU, the Welsh Ministers are under a duty to implement and apply EU legislation. Introducing these sanctions strengthens our biosecurity framework.

4.6. Although a civil sanctions regime will be introduced by this instrument, it will not be immediately employed. Work will begin on developing detailed guidance on how the sanctions will be applied and the Welsh Government will seek wider views from industry on draft guidance in 2021. Following this, and consideration of the responses received, the guidance will be published so that APHA are able to begin applying civil sanctions by the end of 2021.

4.7. In addition to allowing Welsh Government officials the time to draft detailed guidance and to consult upon it, this approach will also allow industry time to familiarise themselves with the civil sanctions regime before it is employed.

## **5. Consultation**

5.1. The UK Government carried out an initial engagement with stakeholders, representing interests in England and Wales, on the introduction of a civil sanctions regime and the range of sanctions, as well as the proposed thresholds for fixed and variable monetary penalties. The UK Government shared the responses they received with the Welsh Government. Stakeholders were in favour of the introduction of civil sanctions and the proposed phased implementation plan. Further engagement with stakeholders was conducted by the Welsh Government to, in part, ascertain whether there were any Wales-specific issues the stakeholders wished to raise. No further responses have been received.

5.2. As set out above, in 2021 the Welsh Government will consult on draft guidance regarding how the civil sanctions will be applied.

## **6. Regulatory Impact Assessment (RIA)**

6.1. The Welsh Ministers' Code of Practice on the carrying out of Regulatory Impact Assessments was considered in relation to these Regulations. As a result, it was not considered necessary to carry out a regulatory impact assessment as to the likely costs and benefits of complying with these Regulations.

6.2. There are no significant financial implications. The legislation applies equally to all businesses. The new measures apply to activities that are already subject to APHA inspection and surveillance programmes.

6.3. There is no, or no significant, impact on business, charities or voluntary bodies.

6.4. With regard to the Government of Wales Act 2006 this legislation has no impact on statutory partners (sections 72-75) or the statutory duties (sections 77-79).

6.5. A Justice System Impact Identification has been completed and no significant impacts were identified.

# Eitem 4.2

## **SL(5)663 – Rheoliadau Addysg (Cyllid Myfyrwyr) (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2020**

### **Cefndir a Diben**

Mae Rheoliadau Addysg (Cyllid Myfyrwyr) (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2020 ("Rheoliadau 2020") yn dirymu ac yn disodli'r Rheoliadau Addysg (Cyllid Myfyrwyr) (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2019 a Rheoliadau Addysg (Cymorth i Fyfyrwyr) (Graddau Meistr Ôl-raddedig) (Cymru) (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2019 ("Rheoliadau 2019" gyda'i gilydd).

Diben y Rheoliadau yw sicrhau bod y polisi cyllid myfyrwyr presennol yn parhau am y flwyddyn academaidd 2020/21 ac nad yw'n cael ei effeithio'n andwyol erbyn diwedd y cyfnod pontio. Bydd y Rheoliadau, felly, yn dyblygu'r darpariaethau yn Rheoliadau 2019. At hynny, bydd y Rheoliadau yn sicrhau bod gwladolion yr UE, a grwpiau eraill sydd wedi setlo o dan y Cynllun Preswyllo'n Sefydlog i Ddinasyddion yr UE, neu sydd i'w trin felly o dan ddarpariaethau'r Cytundeb Ymadael, cytundeb gwahanu'r Ardal Economaidd Ewropeaidd a Chytundeb Hawliau Dinasyddion y Swistir, yn gallu cael mynediad at yr un cymorth a statws ffioedd cartref ag y byddent wedi gallu ei gael cyn diwedd y cyfnod pontio.

Bydd y Rheoliadau hefyd yn diwygio'r darpariaethau sy'n ymwneud â chymhwysra ar gyfer cymorth i fyfyrwyr i'r rheini sydd wedi setlo yn y DU, ond sy'n arfer hawl i breswyllo mewn man arall yn yr UE ar ôl diwrnod cwblhau'r cyfnod gweithredu, ac yna'n dychwelyd i'r DU a dechrau cwrs cyn 1 Awst 2021. Gan na fydd gwladolion y DU bellach yn gallu arfer yr hawl i breswyllo ar ôl diwrnod cwblhau'r cyfnod gweithredu, pe na bai'r darpariaethau'n cael eu diwygio, byddai gwladolion yr UE yn cael triniaeth fwy ffafriol na gwladolion y DU. Bydd gwelliant yn sicrhau eu bod yn cael triniaeth gyfartal.

### **Gweithdrefn**

Negyddol.

### **Materion technegol: craffu**

Ni nodwyd unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

### **Rhinweddau: craffu**

Nodir y pwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arno o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn:



## **1. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd.**

Mae'r Pwyllgor yn nodi bod y Rheoliadau hyn yn cael eu gwneud gan ddefnyddio pwerau galluogi mewn cyfraith addysg, yn hytrach nag o dan Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018, fel sy'n digwydd fel arfer ar gyfer offerynnau statudol sy'n ymwneud ag ymadawiad y Deyrnas Unedig o'r Undeb Ewropeaidd. Fodd bynnag, mae'r Pwyllgor yn nodi bod y Gweinidog Addysg wedi ysgrifennu at y Pwyllgor yn flaenorol ar 15 Chwefror 2019 mewn perthynas â Rheoliadau Addysg (Cyllid Myfyrwyr) (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2019, gan nodi fel a ganlyn:

*"Mae Paragraff 1(1) o Atodlen 2 i'r Ddeddf Ymadael yn cynnwys pŵer i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau i atal, unioni neu liniaru unrhyw achos o fethiant cyfraith UE a gedwir i weithredu'n effeithiol yn sgil ymadawiad y Deyrnas Unedig â'r Undeb Ewropeaidd. Gellir dadlau y dylid gwneud y rheoliadau diwygio arfaethedig o dan y pŵer hwn. Fodd bynnag, credaf fod y pwerau deddfwriaeth addysg arferol a nodwyd uchod yn fwy priodol at y dibenion hyn."*

Aeth llythyr y Gweinidog yn ei flaen i nodi fel a ganlyn:

*"Mae hygyrchedd y gyfraith yn ystyriaeth bwysig yn y penderfyniad hwn.*

*Nododd y Pwyllgor bwysigrwydd cynnal hygyrchedd y gyfraith yn rhaglen Offerynnau Statudol Ymadael â'r UE yn ei adroddiad diweddar ar graffu ar ddeddfwriaeth ymadael â'r UE.*

*Mae deddfwriaeth cymorth i fyfyrwyr yn gymhleth iawn a chaiff ei ddiwygio'n aml.*

*Ni fydd rheoliadau a wneir o dan y Ddeddf Ymadael yn gysylltiedig yn uniongyrchol â deddfwriaeth addysg, a byddai hynny'n gwneud darganfod y deddfwriaeth briodol yn anoddach nag sydd raid i'r cyhoedd.*

*Yn yr un modd, o ran hygyrchedd, bydd teitl y rheoliadau'n cynnwys "Ymadael â'r UE" gan wneud y cysylltiad ag ymadawiad y DU â'r UE yn glir."*

Gofynnir i Lywodraeth Cymru gadarnhau a yw'r rhesmeg uchod hefyd yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn ac os nad ydyw, pam mae'r Rheoliadau hyn yn cael eu gwneud gan ddefnyddio pwerau galluogi mewn cyfraith addysg, yn hytrach nag o dan Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018, fel sy'n digwydd fel arfer ar gyfer offerynnau statudol sy'n ymwneud ag ymadawiad y Deyrnas Unedig o'r Undeb Ewropeaidd.

## **Y goblygiadau yn sgîl ymadael â'r Undeb Ewropeaidd**

Bydd y Rheoliadau hyn yn rhan o gyfraith yr UE a ddargedwir er nad ydynt yn cael eu gwneud o dan Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018. Mae'r weithdrefn yn negyddol yn unol â'r pwerau galluogi.



## Ymateb Llywodraeth Cymru

Mae'r Rheoliadau hyn yn dirymu ac yn disodli (gydag ychwanegiadau a diwygiadau) Reoliadau Addysg (Cyllid Myfyrwyr) (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2019. Felly, mae'r un rhesymu ynghylch y pwerau galluogi fel y'u hamlinellir uchod yn gymwys i'r Rheoliadau hyn.

### **Cynghorwyr Cyfreithiol**

### **Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**

**30 Tachwedd 2020**



Senedd Cymru

**Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**

—

Welsh Parliament

Tudalen y pecyn 72

**Legislation, Justice and Constitution Committee**

---

OFFERYNNAU STATUDOL  
CYMRU

---

**2020 Rhif 1302 (Cy. 287)**

**YMADAEL Â'R UNDEB  
EWROPEAIDD, CYMRU**

**ADDYSG, CYMRU**

**Rheoliadau Addysg (Cyllid  
Myfyrwyr) (Diwygiadau  
Amrywiol) (Cymru) (Ymadael â'r  
UE) 2020**

**NODYN ESBONIADOL**

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud diwygiadau i—

- (a) Rheoliadau Addysg (Ffioedd a Dyfarniadau) (Cymru) 2007,
- (b) Rheoliadau Addysg (Athrofa Brifysgol Ewropeaidd) (Cymru) 2014,
- (c) Rheoliadau Addysg Uwch (Cyrsiau Cymhwysol, Personau Cymhwysol a Darpariaeth Atodol) (Cymru) 2015,
- (d) Rheoliadau Addysg (Cymorth i Fyfywrwyr) (Cymru) 2017,
- (e) Rheoliadau Addysg (Benthyciadau at Radd Feistr Ôl-raddedig) (Cymru) 2017,
- (f) Rheoliadau Addysg (Cymorth i Fyfywrwyr) (Cymru) 2018 (“y Rheoliadau Cymorth i Fyfywrwyr”),
- (g) Rheoliadau Addysg (Benthyciadau at Radd Ddoethurol Ôl-raddedig) (Cymru) 2018, ac
- (h) Rheoliadau Addysg (Cymorth i Fyfywrwyr) (Graddau Meistr Ôl-raddedig) (Cymru) 2019.

Mae rheoliad 2 yn dirymu Rheoliadau Addysg (Cyllid Myfyrwyr) (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2019 a Rheoliadau Addysg (Cymorth i Fyfywrwyr) (Graddau Meistr Ôl-raddedig) (Cymru) (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2019 a luniwyd ar gyfer Brexit “heb gytundeb” ac nad ydynt yn adlewyrchu diwygiadau sy'n ofynnol i weithredu y cytundeb ymadael â'r UE, cytundeb gwahanu

Cymdeithas Masnach Rydd Ewrop (EFTA) yr AEE a'r cytundeb ar hawliau dinasyddion Swisaidd.

Y prif ddiwygiadau y mae'r Rheoliadau hyn yn eu gwneud i'r Rheoliadau Cymorth i Fyfyrrwyr yn sicrhau bod y darpariaethau yn parhau i weithredu'n effeithiol yn dilyn ymadawriad y Deyrnas Unedig â'r Undeb Ewropeaidd ac maent fel a ganlyn.

Mae rheoliadau 31 ac 32 yn diwygio diffiniadau a chyfeiriadau sy'n ymwneud â'r Ardal Economaidd Ewropeaidd a'r Undeb Ewropeaidd a ddefnyddir yn Atodlenni 2 a 3 i'r Rheoliadau Cymorth i Fyfyrrwyr.

Mae rheoliad 32 hefyd yn diwygio cyfeiriadau at "Aelod-wladwriaeth" yn Atodlen 3.

Mae rheoliad 31(9) yn diwygio'r diffiniad o "hawl i breswyllo'n barhaol" ym mharagraff 11 o Atodlen 2 i'r Rheoliadau Cymorth i Fyfyrrwyr. Bydd y diffiniad diwygiedig yn cwmpasu'r rheini y byddai wedi bod ganddynt hawl i breswyllo'n barhaol o dan Gyfarwyddeb 2004/38/EC fel yr oedd yn cael effaith yn union cyn diwrnod cwblhau'r cyfnod gweithredu ond y bydd ganddynt yn lle hynny, ar ôl diwrnod cwblhau'r cyfnod gweithredu, yr hawliau hynny o dan y cytundeb ymadael â'r UE, cytundeb gwahanu EFTA yr AEE a'r cytundeb ar hawliau dinasyddion Swisaidd, fel y'u gweithredir gan reolau mewnfudo'r cynllun preswyllo (y diffinnir yr ymadrodd Saesneg cyfatebol, "residence scheme immigration rules" yn adran 17(1) o Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Y Cytundeb Ymadael) 2020).

Mae rheoliad 31(2)(a) yn diwygio paragraff 1(2) o Atodlen 2 i'r Rheoliadau Cymorth i Fyfyrrwyr i sicrhau bod myfyrrwyr y byddai wedi bod ganddynt hawl i breswyllo'n barhaol o dan Gyfarwyddeb 2004/38/EC ond sydd bellach yn bodloni'r gofynion yn Erthygl 18(2) neu (3) o'r cytundeb ymadael â'r UE, Erthygl 17(2) neu (3) o gytundeb gwahanu EFTA yr AEE neu Erthygl 16(2) neu (3) o'r cytundeb ar hawliau dinasyddion Swisaidd yn gymwys i gael cymorth i fyfyrrwyr ar yr un sail ag fel pe bai ganddynt hawl i breswyllo'n barhaol.

Mae rheoliad 31(3)(b) yn diwygio paragraff 4 o Atodlen 2 i sicrhau y bydd person a fyddai wedi bod yn gymwys i gael cymorth o dan y paragraff hwn cyn diwrnod cwblhau'r cyfnod gweithredu yn parhau i fod yn gymwys ar ac ar ôl diwrnod cwblhau'r cyfnod gweithredu. Mae rheoliad 31(5) yn gwneud diwygiadau cyfatebol i baragraff 6 o Atodlen 2 ac mae rheoliad 31(6) yn gwneud diwygiadau cyfatebol i baragraff 7 o Atodlen 2.

Mae rheoliadau 29(a) a 33(2)(a) yn ganlyniadol i rheoliad 31(5)(c) ac yn diwygio rheoliad 80 o'r Rheoliadau Cymorth i Fyfyrrwyr a pharagraff 4 o Atodlen 5 iddynt yn y drefn honno. Mae rheoliad

80(2)(a)(iii) a pharagraff 4(2)(c) o Atodlen 5 yn darparu y caiff myfyriwr sy'n dod yn aelod o deulu gwladolyn UE yn ystod blwyddyn academaidd gymhwysu i gael cymorth mewn cysylltiad â'r flwyddyn academaidd honno. Mae'r diwygiadau a wneir gan reoliadau 29 a 33 yn estyn y ddarpariaeth hon i fyfyrwr sy'n dod yn aelod o deulu person sy'n gymwys yn rhinwedd paragraff newydd 6(1A) o Atodlen 2.

Mae rheoliadau 29(b), 30 a 33(2)(b) yn ganlyniadol i reoliad 31(2)(a) ac yn diwygio rheoliadau 80 ac 81 o'r Rheoliadau Cymorth i Fyfyrrwyr a pharagraff 4 o Atodlen 2 iddynt. Pan fo'r darpariaethau hynny yn cyfeirio ar hyn o bryd at berson sy'n ennill yr hawl i breswyllo'n barhaol, byddant yn cyfeirio, yn lle hynny, at fyfyrwr yn dod yn berson a ddisgrifir ym mharagraff 1(2)(a) o Atodlen 2.

Mae rheoliad 31(4) yn gwneud diwygiadau i baragraff 5 o Atodlen 2 i'r Rheoliadau Cymorth i Fyfyrrwyr i adlewyrchu'r ffaith na fydd gan Gyfarwyddeb 2004/38/EC rym yn y Deyrnas Unedig mwyach ar ac ar ôl diwrnod cwblhau'r cyfnod gweithredu.

Mae rheoliadau 3 i 5 yn gwneud diwygiadau cyfatebol i Reoliadau Addysg (Ffioedd a Dyfarniadau) (Cymru) 2007.

Mae rheoliadau 6 i 8 yn gwneud diwygiadau cyfatebol i Reoliadau Addysg (Athrofa Brifysgol Ewropeaidd) (Cymru) 2014.

Mae rheoliad 9 yn gwneud diwygiadau cyfatebol i Reoliadau Addysg Uwch (Cyrsiau Cymhwysol, Personau Cymhwysol a Darpariaeth Atodol) (Cymru) 2015.

Mae rheoliadau 10 i 23 yn gwneud diwygiadau cyfatebol i Reoliadau Addysg (Cymorth i Fyfyrrwyr) (Cymru) 2017.

Mae rheoliadau 24 i 27 yn gwneud diwygiadau cyfatebol i Reoliadau Addysg (Benthyciadau at Radd Feistr Ôl-raddedig) (Cymru) 2017.

Mae rheoliadau 34 i 37 yn gwneud diwygiadau cyfatebol i Reoliadau Addysg (Benthyciadau at Radd Ddoethurol Ôl-raddedig) (Cymru) 2018.

Mae rheoliadau 38 i 41 yn gwneud diwygiadau cyfatebol i Reoliadau Addysg (Cymorth i Fyfyrrwyr) (Graddau Meistr Ôl-raddedig) (Cymru) 2019.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, ystyriwyd nad oedd yn angenrheidiol cynnal asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn



---

OFFERYNNAU STATUDOL  
CYMRU

---

**2020 Rhif 1302 (Cy. 287)**

**YMADAEL Â'R UNDEB  
EWROPEAIDD, CYMRU**

**ADDYSG, CYMRU**

Rheoliadau Addysg (Cyllid  
Myfyrwyr) (Diwygiadau  
Amrywiol) (Cymru) (Ymadael â'r  
UE) 2020

*Gwnaed* 17 Tachwedd 2020

*Gosodwyd* gerbron *Senedd*  
*Cymru* 18 Tachwedd 2020

*Yn dod i rym yn unol â rheoliad 1(2) a (3)*

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddir i'r Ysgrifennydd Gwladol o dan adrannau 1 a 2 o Ddeddf Addysg (Ffioedd a Dyfarniadau) 1983(1) ac adrannau 22, 42(6) a 43(1) o Ddeddf Addysgu ac Addysg Uwch 1998(2)

- 
- (1) 1983 p. 40; diwygiwyd adran 1 gan Ddeddf Diwygio Addysg 1988 (p. 40), Atodlen 12, paragraff 91; Deddf Addysg Bellach ac Uwch 1992 (p. 13), Atodlen 8, paragraff 19; Deddf Addysg 1994 (p. 30), Atodlen 2, paragraff 7; Deddf Addysg 1996 (p. 56), Atodlen 37, paragraff 57; Deddf Dysgu a Sgiliau 2000 (p. 21), Atodlen 9, paragraffau 1 ac 11; Deddf Addysg 2002 (p. 32), Atodlen 21, paragraff 5 ac Atodlen 22; Deddf Addysg 2005 (p. 18), Atodlen 14, paragraff 9; O.S. 2005/3238, Atodlen 1, paragraff 9; O.S. 2010/1158, Atodlen 2, paragraff 1; Deddf Addysg 2011 (p. 21), Atodlen 5, paragraff 5 ac Atodlen 16, paragraff 5; a Deddf Dadreoleiddio 2015 (p. 20), Atodlen 14, paragraff 33. Diwygiwyd adran 2 gan Ddeddf Addysgu ac Addysg Uwch 1998 (p. 30), adran 44 ac Atodlen 4.
- (2) 1998 p. 30; diwygiwyd adran 22 gan Ddeddf Dysgu a Sgiliau 2000 (p. 21), adran 146 ac Atodlen 11; Deddf Treth Incwm (Enillion a Phensiynau) 2003 (p. 1), Atodlen 6; Deddf Cyllid 2003 (p. 14), adran 147, Deddf Addysg Uwch 2004 (p. 8), adrannau 42 a 43 ac Atodlen 7; Deddf Prentisiaethau, Sgiliau, Plant a Dysgu 2009 (p. 22), adran 257; Deddf Addysg 2011 (p. 21), adran 76; O.S. 2013/1181 a Deddf Addysg Uwch ac Ymchwil 2017 (p. 29), adran 88. *Gweler* adran 43(1) o Ddeddf Addysgu ac Addysg Uwch 1998 am y diffiniad o "prescribed" a "regulations".

sydd bellach yn arferadwy ganddynt hwy(1) a'r pwerau a roddir iddynt o dan adrannau 5(5)(b) a 55(2) o Ddeddf Addysg Uwch (Cymru) 2015(2) yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn.

## RHAN 1

### ENWI, CYCHWYN A CHYMHWYSO

#### Enwi, cychwyn a chymhwysu

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Addysg (Cyllid Myfyrwyr) (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2020.

(2) Daw'r rheoliad hwn a rheoliad 2 i rym yn union cyn diwrnod cwblhau'r cyfnod gweithredu.

(3) Daw gweddill y Rheoliadau hyn i rym ar ddiwrnod cwblhau'r cyfnod gweithredu.

(4) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

## RHAN 2

### DIRYMU RHEOLIADAU

2. Mae Rheoliadau Addysg (Cyllid Myfyrwyr) (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2019(3) a Rheoliadau Addysg (Cymorth i Fyfirwyr) (Graddau Meistr Ôl-raddedig) (Cymru) (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2019(4) wedi eu dirymu.

---

(1) Trosglwyddwyd swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol yn adran 1 o Ddeddf 1983 i Gynulliad Cenedlaethol Cymru i'r graddau y maent yn arferadwy o ran Cymru gan O.S. 2006/1458 gydag effaith o 8 Mehefin 2006. Trosglwyddwyd swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol yn adran 2 o Ddeddf 1983 i Gynulliad Cenedlaethol Cymru i'r graddau y maent yn arferadwy o ran Cymru gan O.S. 1999/672. Trosglwyddwyd swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol yn adran 22(2)(a) i (i) a (k) o Ddeddf 1998 i Gynulliad Cenedlaethol Cymru i'r graddau y maent yn ymwneud â gwneud darpariaeth o ran Cymru gan adran 44 o Ddeddf Addysg Uwch 2004 (p. 8), ac mae swyddogaethau o dan is-adran (2)(a), (c) a (k) yn arferadwy yn gydredol â'r Ysgrifennydd Gwladol. Trosglwyddwyd swyddogaeth yr Ysgrifennydd Gwladol yn adran 42, i'r graddau y mae'n arferadwy o ran Cymru, i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan O.S. 1999/672. Trosglwyddwyd holl swyddogaethau Cynulliad Cenedlaethol Cymru uchod i Weinidogion Cymru yn rhinwedd paragraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32).

(2) 2015 dccc 1.

(3) O.S. 2019/424 (Cy. 98).

(4) O.S. 2019/1039 (Cy. 182).

## RHAN 3

### DIWYGIADAU I REOLIADAU

#### **Diwygiadau i Reoliadau Addysg (Ffioedd a Dyfarniadau) (Cymru) 2007**

3. Mae Rheoliadau Addysg (Ffioedd a Dyfarniadau) (Cymru) 2007(1) wedi eu diwygio fel a ganlyn.

#### **Diwygiadau i reoliad 2**

4. Yn rheoliad 2 (dehongli)—

- (a) ym mharagraff (1), yn y diffiniad o “tiriogaethau tramor”, ar ôl “Tiriogaethau Deheuol ac Antarcig Ffrainc;” mewnosoder “Gibraltar;”;
- (b) ym mharagraff (4)—
  - (i) yn lle “y diriogaeth a ffurfir gan yr Ardal Economaidd Ewropeaidd a’r Swistir” rhodder “y diriogaeth a ffurfir gan y Deyrnas Unedig, Gibraltar, yr Ardal Economaidd Ewropeaidd a’r Swistir”;
  - (ii) yn lle “y diriogaeth a ffurfir gan yr Ardal Economaidd Ewropeaidd, y Swistir a’r tiriogaethau tramor” rhodder “y diriogaeth a ffurfir gan y Deyrnas Unedig, yr Ardal Economaidd Ewropeaidd, y Swistir a’r tiriogaethau tramor”;
  - (iii) yn lle “y diriogaeth a ffurfir gan yr Ardal Economaidd Ewropeaidd, y Swistir, Twrci a’r tiriogaethau tramor” rhodder “y diriogaeth a ffurfir gan y Deyrnas Unedig, yr Ardal Economaidd Ewropeaidd, y Swistir, Twrci a’r tiriogaethau tramor”;
- (c) ym mharagraff (5)(b) ac (c), ar ôl “y tu allan i’r diriogaeth a ffurfir gan” mewnosoder “y Deyrnas Unedig, Gibraltar;”;
- (d) ym mharagraff (6)—
  - (i) yn lle “y diriogaeth a ffurfir gan yr Ardal Economaidd Ewropeaidd a’r Swistir” rhodder “y diriogaeth a ffurfir gan y Deyrnas Unedig, Gibraltar, yr Ardal Economaidd Ewropeaidd a’r Swistir”;
  - (ii) yn lle “y diriogaeth a ffurfir gan yr Ardal Economaidd Ewropeaidd, y Swistir a’r

---

(1) O.S. 2007/2310 (Cy. 181), a ddiwygiwyd gan O.S. 2008/1259 (Cy. 126), O.S. 2010/1142 (Cy. 101), O.S. 2011/1978 (Cy. 218), O.S. 2013/1792 (Cy. 179), O.S. 2018/814 (Cy. 165), O.S. 2019/235 (Cy. 54) ac O.S. 2019/1192 (Cy. 209); mae offerynnau diwygio eraill ond nid yw’r un ohonynt yn berthnasol.

tiriogaethau tramor” rhodder “y diriogaeth a ffurfir gan y Deyrnas Unedig, yr Ardal Economaidd Ewropeaidd, y Swistir a’r tiriogaethau tramor”;

- (iii) yn lle “y diriogaeth a ffurfir gan yr Ardal Economaidd Ewropeaidd, y Swistir a Thwrci” rhodder “y diriogaeth a ffurfir gan y Deyrnas Unedig, Gibraltar, yr Ardal Economaidd Ewropeaidd, y Swistir a Thwrci”;
- (e) ym mharagraff (7), ar ôl “mae ardal” mewnosoder “ac eithrio’r Deyrnas Unedig neu Gibraltar”.

### Diwygiadau i’r Atodlen

5.—(1) Mae’r Atodlen wedi ei diwygio fel a ganlyn.

(2) Ym mharagraff 1—

(a) yn y lle priodol mewnosoder—

“mae i “cytundeb ar hawliau dinasyddion Swisaidd” yr ystyr a roddir i “Swiss citizens’ rights agreement” gan adran 39(1) o Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Y Cytundeb Ymadael) 2020;”;

“mae i “cytundeb gwahanu EFTA yr AEE” yr ystyr a roddir i “EEA EFTA separation agreement” gan adran 39(1) o Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Y Cytundeb Ymadael) 2020(1);”;

“ystyr “gwladolyn o’r UE” (“*EU national*”) yw gwladolyn o Aelod-wladwriaeth o’r Undeb Ewropeaidd;”;

“mae i “rheolau mewnfudo’r cynllun preswyllo” yr ystyr a roddir i “residence scheme immigration rules” gan adran 17(1) o Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Y Cytundeb Ymadael) 2020;”;

- (b) hepgorer y diffiniad o “gwladolyn o’r GE”;
- (c) hepgorer “ac eithrio’r Deyrnas Unedig” ym mhob lle y mae’n digwydd;
- (d) yn y diffiniad o “aelod o’r teulu”, yn lle “gwladolyn o’r GE” rhodder “gwladolyn o’r UE” ym mhob lle y mae’n digwydd;
- (e) yn lle’r diffiniad o “hawl i breswyllo’n barhaol” rhodder—

“ystyr “hawl i breswyllo’n barhaol” (“*right of permanent residence*”) yw, mewn perthynas â pherson (“A”), hawl i breswyllo yn y Deyrnas Unedig yn barhaol heb

---

(1) 2020 p. 1.

gyfyngiad sy'n codi o dan reolau mewnfudo'r cynllun preswyllo, ond dim ond pan fyddai A, pe bai'r ffeithiau a oedd yn ymwneud â phenderfynu hawl A i breswyllo yn dod i'w hystyried yn union cyn diwrnod cwblhau'r cyfnod gweithredu, wedi caffael hawl o'r fath o dan Gyfarwyddeb 2004/38 fel yr oedd yn cael effaith yn union cyn diwrnod cwblhau'r cyfnod gweithredu;"

(3) Ym mharagraff 3 (personau sydd wedi setlo yn y Deyrnas Unedig)—

(a) yn lle is-baragraff (a) rhodder—

“(a) sydd, ar ddiwrnod cyntaf blwyddyn academiaidd y cwrs, naill ai—

(i) wedi setlo yn y Deyrnas Unedig yn rhinwedd caffael yr hawl i breswyllo'n barhaol, neu

(ii) yn dod o fewn Erthygl 18(2) neu (3) o'r cytundeb ymadael â'r UE, Erthygl 17(2) neu (3) o gytundeb gwahanu EFTA yr AEE neu Erthygl 16(2) neu (3) o'r cytundeb ar hawliau dinasyddion Swisaidd, ond dim ond pan fyddai'r person hwnnw wedi caffael yr hawl i breswyllo'n barhaol yn y Deyrnas Unedig heb gyfyngiad o dan Gyfarwyddeb 2004/38 fel yr oedd yn cael effaith yn union cyn diwrnod cwblhau'r cyfnod gweithredu pe bai'r ffeithiau a oedd yn ymwneud â hawl y person hwnnw i breswyllo yn dod i'w hystyried yn union cyn diwrnod cwblhau'r cyfnod gweithredu;"

(b) yn is-baragraff (ch), ar ôl “y diriogaeth a ffurfir gan” mewnosoder “y Deyrnas Unedig,”.

(4) Ym mharagraff 6(1)(c) (gweithwyr, personau cyflogedig, personau hunan-gyflogedig ac aelodau o'u teulu), ar ôl “y diriogaeth a ffurfir gan” mewnosoder “y Deyrnas Unedig,”.

(5) Ym mharagraff 7 (gweithwyr, personau cyflogedig, personau hunan-gyflogedig ac aelodau o'u teulu)—

(a) ailrifer is-baragraffau (a), (b) ac (c) yn is-baragraff (1)(a), (b) ac (c);

(b) yn is-baragraff (1)(b) fel y'i hailrifwyd felly, yn lle “y diriogaeth sy'n ffurfio'r Ardal Economaidd Ewropeaidd” rhodder “y diriogaeth a ffurfir gan y Deyrnas Unedig, yr Ardal Economaidd Ewropeaidd”;

- (c) ar ôl is-baragraff (1) fel y'i hailrifwyd felly mewnosoder—

“(2) Mae unrhyw ddisgrifiad o berson a fyddai wedi dod o fewn y paragraff hwn yn union cyn diwrnod cwblhau'r cyfnod gweithredu i'w drin fel pe bai'n dod o fewn y paragraff hwn ar ac ar ôl diwrnod cwblhau'r cyfnod gweithredu.”

- (6) Ym mharagraff 8 (personau sydd wedi setlo yn y Deyrnas Unedig ac sydd wedi arfer hawl i breswyllo mewn man arall)—

- (a) yn is-baragraff (1)—

- (i) ym mharagraff (b), ar ôl “hawl i breswyllo” mewnosoder “cyn diwrnod cwblhau'r cyfnod gweithredu”;
- (ii) ym mharagraff (ch), ar ôl “y diriogaeth a ffurfir gan” mewnosoder “y Deyrnas Unedig,”;
- (iii) ym mharagraff (d), ar ôl “y diriogaeth a ffurfir gan” mewnosoder “y Deyrnas Unedig, Gibraltar,”;

- (b) yn is-baragraff (2)—

- (i) yn lle “sydd a chanddo hawl i breswyllo'n barhaol ymhob achos” rhodder “yr oedd ganddo'r hawl i breswyllo'n barhaol ac sydd ymhob achos” ac yn lle “sydd â hawl” rhodder “yr oedd ganddo'r hawl”;
- (ii) yn lle “os yw'n mynd” rhodder “os yw wedi mynd”;

- (c) ar ôl is-baragraff (2) mewnosoder—

“(3) At ddibenion y paragraff hwn, roedd gan berson yr hawl i breswyllo'n barhaol os oedd ganddo hawl a gododd o dan Gyfarwyddeb 2004/38 i breswyllo'n barhaol yn y Deyrnas Unedig heb gyfyngiad.”

- (7) Ym mharagraff 9 (gwladolion o'r GE)—

- (a) yn y pennawd, yn lle “Gwladolion o'r GE” rhodder “Gwladolion o'r UE”;

- (b) yn is-baragraff (1)—

- (i) ym mharagraff (a)(i), yn lle “yn wladolyn o'r GE” rhodder “yn wladolyn o'r UE”;
- (ii) ym mharagraff (c), ar ôl “y diriogaeth a ffurfir gan” mewnosoder “y Deyrnas Unedig,”;

- (c) yn lle is-baragraff (1A) rhodder—

“(1A) Nid yw paragraff (c) o is-baragraff (1) yn gymwys i aelod o deulu person—

- (a) sydd—

- (i) yn wladolyn o'r Deyrnas Unedig sydd wedi arfer hawl i breswyllo

yn nhiriogaeth Aelod-wladwriaeth  
o dan Erthygl 7(1) o Gyfarwyddeb  
2004/38; neu

(ii) yn wladolyn o'r UE; a

(b) sydd wedi bod yn preswyllo fel arfer yn y diriogaeth a ffurfir gan y Deyrnas Unedig, yr Ardal Economaidd Ewropeaidd, y Swistir a'r tiriogaethau tramor drwy gydol y cyfnod o dair blynedd cyn diwrnod cyntaf blwyddyn academaidd gyntaf y cwrs.”;

(d) ar ôl is-baragraff (2) mewnosoder—

“(3) Mae unrhyw ddisgrifiad o berson a fyddai wedi dod o fewn y paragraff hwn yn union cyn diwrnod cwblhau'r cyfnod gweithredu i'w drin fel pe bai'n dod o fewn y paragraff hwn ar ac ar ôl diwrnod cwblhau'r cyfnod gweithredu.”

(8) Ym mharagraff 10 (gwladolion o'r GE)—

(a) yn is-baragraff (1)(a), yn lle “sy'n wladolyn o'r GE ac eithrio gwladolyn o'r Deyrnas Unedig” rhodder “sy'n wladolyn o'r UE”;

(b) yn is-baragraff (1)(ch), ar ôl “y diriogaeth a ffurfir gan” mewnosoder “y Deyrnas Unedig,”;

(c) yn is-baragraff (2), yn lle “yn wladolyn o'r GE ac eithrio gwladolyn o'r Deyrnas Unedig” rhodder “yn wladolyn o'r UE”.

(9) Yn lle paragraff 11 (plant gwladolion o'r Swistir) rhodder—

“11.—(1) Person—

(a) sy'n blentyn i wladolyn o'r Swistir y mae ganddo hawl i gael cymorth yn y Deyrnas Unedig yn rhinwedd Erthygl 3(6) o Atodiad 1 i Gytundeb y Swistir;

(b) sy'n preswyllo fel arfer yn y Deyrnas Unedig ar ddiwrnod cyntaf blwyddyn academaidd gyntaf y cwrs;

(c) sydd wedi bod yn preswyllo fel arfer yn y diriogaeth a ffurfir gan y Deyrnas Unedig, yr Ardal Economaidd Ewropeaidd, y Swistir a'r tiriogaethau tramor drwy gydol y cyfnod o dair blynedd cyn diwrnod cyntaf blwyddyn academaidd gyntaf y cwrs; ac

(ch) mewn achos pan oedd preswyliaid arferol y person y cyfeirir ato ym mharagraff (c) yn gyfan gwbl neu'n bennaf er mwyn cael addysg lawnamser, a oedd yn preswyllo fel arfer yn y diriogaeth a ffurfir gan y Deyrnas Unedig, Gibraltar, yr Ardal

Economaidd Ewropeaidd a'r Swistir yn union cyn y cyfnod o breswylad arferol y cyfeirir ato ym mharagraff (c).

(2) Mae unrhyw ddisgrifiad o berson a fyddai wedi dod o fewn y paragraff hwn yn union cyn diwrnod cwblhau'r cyfnod gweithredu i'w drin fel pe bai'n dod o fewn y paragraff hwn ar ac ar ôl diwrnod cwblhau'r cyfnod gweithredu."

(10) Ym mharagraff 12(c) (plant gweithwyr o Dwrci), ar ôl "y diriogaeth a ffurfir gan" mewnosoder "y Deyrnas Unedig,".

### **Diwygiadau i Reoliadau Addysg (Athrofa Brifysgol Ewropeaidd) (Cymru) 2014**

6. Mae Rheoliadau Addysg (Athrofa Brifysgol Ewropeaidd) (Cymru) 2014(1) wedi eu diwygio fel a ganlyn.

#### **Diwygiadau i Atodlen 1**

7.—(1) Mae Atodlen 1 (myfyrwyr cymwys) wedi ei diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn Rhan 1 (dehongli), paragraff 1—

(a) yn is-baragraff (1)—

(i) yn y lle priodol mewnosoder—

"mae i "cytundeb ar hawliau dinasyddion Swisaidd" yr ystyr a roddir i "Swiss citizens' rights agreement" gan adran 39(1) o Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Y Cytundeb Ymadael) 2020;"

"mae i "cytundeb gwahanu EFTA yr AEE" yr ystyr a roddir i "EEA EFTA separation agreement" gan adran 39(1) o Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Y Cytundeb Ymadael) 2020;"

"mae i "rheolau mewnfudo'r cynllun preswyllo" yr ystyr a roddir i "residence scheme immigration rules" gan adran 17(1) o Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Y Cytundeb Ymadael) 2020;"

(ii) yn y diffiniad o "gwladolyn o'r AEE", hepgorer "ac eithrio'r Deyrnas Unedig";

(iii) yn lle'r diffiniad o "hawl i breswyllo'n barhaol" rhodder—

"ystyr "hawl i breswyllo'n barhaol" (*"right of permanent residence"*) yw, mewn perthynas â pherson ("A"), hawl i breswyllo yn y Deyrnas Unedig yn barhaol heb

---

(1) O.S. 2014/3037 (Cy. 303), a ddiwygiwyd gan O.S. 2016/211 (Cy. 84), O.S. 2018/814 (Cy. 165) ac O.S. 2019/235 (Cy. 54).



gyfyngiad sy'n codi o dan reolau mewnfudo'r cynllun preswyllo, ond dim ond pan fyddai A, pe bai'r ffeithiau a oedd yn ymwneud â phenderfynu hawl A i breswyllo yn dod i'w hystyried yn union cyn diwrnod cwblhau'r cyfnod gweithredu, wedi caffael hawl o'r fath o dan Gyfarwyddeb 2004/38 fel yr oedd yn cael effaith yn union cyn diwrnod cwblhau'r cyfnod gweithredu;";

(b) yn yr is-baragraffau a ganlyn, hepgorer "ac eithrio'r Deyrnas Unedig" ym mhob lle y mae'n digwydd—

(i) is-baragraff (2)(b);

(ii) is-baragraff (3)(b);

(iii) is-baragraff (4)(b);

(iv) is-baragraff (5)(b);

(c) yn is-baragraffau (7) ac (8), ar ôl "diriogaeth y mae'r" mewnosoder "Deyrnas Unedig, Gibraltar, yr" ym mhob lle y mae'n digwydd.

(3) Yn Rhan 2 (categoriâu)—

(a) ym mharagraff 3 (personau sydd wedi setlo yn y Deyrnas Unedig)—

(i) yn lle is-baragraff (a) rhodder—

"(a) sydd, ar y dyddiad perthnasol, naill ai—

(i) wedi setlo yn y Deyrnas Unedig yn rhinwedd caffael yr hawl i breswyllo'n barhaol; neu

(ii) yn dod o fewn Erthygl 18(2) neu (3) o'r cytundeb ymadael â'r UE, Erthygl 17(2) neu (3) o gytundeb gwahanu EFTA yr AEE neu Erthygl 16(2) neu (3) o'r cytundeb ar hawliau dinasyddion Swisaidd, ond dim ond pan fyddai'r person hwnnw wedi caffael yr hawl i breswyllo'n barhaol yn y Deyrnas Unedig heb gyfyngiad o dan Gyfarwyddeb 2004/38 fel yr oedd yn cael effaith yn union cyn diwrnod cwblhau'r cyfnod gweithredu pe bai'r ffeithiau a oedd yn ymwneud â hawl y person hwnnw i breswyllo yn dod i'w hystyried yn union cyn diwrnod cwblhau'r cyfnod gweithredu;";

(ii) yn is-baragraff (d), ar ôl "y diriogaeth y mae'r" mewnosoder "Deyrnas Unedig, Gibraltar, yr";

(b) ym mharagraff 6(1)(c), (gweithwyr, personau cyflogedig, personau hunangyflogedig ac aelodau o'u teuluoedd), ar ôl "y diriogaeth y

mae'r" mewnosoder "Deyrnas Unedig, Gibraltar, yr";

(c) ym mharagraff 7 (gweithwyr, personau cyflogedig, personau hunangyflogedig ac aelodau o'u teuluoedd)—

(i) ailrifer is-baragraffau (a), (b) ac (c) yn is-baragraff (1)(a), (b) ac (c);

(ii) yn is-baragraff (1)(b) fel y'i hailrifwyd felly, ar ôl "y diriogaeth y mae'r" mewnosoder "Deyrnas Unedig, Gibraltar, yr";

(iii) ar ôl is-baragraff (1) fel y'i hailrifwyd felly mewnosoder—

"(2) Mae unrhyw ddisgrifiad o berson a fyddai wedi bod yn gymwys o dan y paragraff hwn yn union cyn diwrnod cwblhau'r cyfnod gweithredu i fod yn gymwys ar ac ar ôl diwrnod cwblhau'r cyfnod gweithredu.";

(d) ym mharagraff 8 (personau sydd wedi setlo yn y Deyrnas Unedig ac sydd wedi arfer hawl i breswyllo mewn man arall)—

(i) yn is-baragraff (1)(b), ar ôl "hawl i breswyllo" mewnosoder "cyn diwrnod cwblhau'r cyfnod gweithredu";

(ii) yn is-baragraff (1)(d) ac (e), ar ôl "y diriogaeth y mae'r" mewnosoder "Deyrnas Unedig, Gibraltar, yr";

(iii) yn is-baragraff (2)—

(aa) yn lle "a chanddo hawl" rhodder "yr oedd ganddo'r hawl";

(bb) yn lle "sydd â hawl" rhodder "yr oedd ganddo'r hawl";

(cc) yn lle "yn mynd" rhodder "wedi mynd";

(iv) ar ôl is-baragraff (2) mewnosoder—

"(3) At ddibenion y paragraff hwn, roedd gan berson yr hawl i breswyllo'n barhaol os oedd ganddo hawl a gododd o dan Gyfarwyddeb 2004/38 i breswyllo'n barhaol yn y Deyrnas Unedig heb gyfyngiad.";

(e) ym mharagraff 9 (gwladolion o'r UE)—

(i) yn lle is-baragraff (1)(a) rhodder—

"(a) sydd, ar y dyddiad perthnasol—

(i) yn wladolyn o'r UE;

(ii) yn wladolyn o'r Deyrnas Unedig sydd wedi arfer hawl i breswyllo; neu

(iii) yn aelod o deulu person yn is-baragraff (i) neu (ii);";

- (ii) yn is-baragraffau (1)(c) a (d) a (2), ar ôl “y diriogaeth y mae’r” mewnosoder “Deyrnas Unedig, Gibraltar, yr”;
- (iii) yn is-baragraff (4), yn lle “os yw’r person hwnnw” rhodder “os oedd y person hwnnw yn preswyllo yn Gibraltar neu os yw’r person hwnnw”;
- (iv) ar ôl is-baragraff (4) mewnosoder—  
 “(5) Mae unrhyw ddisgrifiad o berson a fyddai wedi bod yn gymwys o dan y paragraff hwn yn union cyn diwrnod cwblhau’r cyfnod gweithredu i fod yn gymwys ar ac ar ôl diwrnod cwblhau’r cyfnod gweithredu.”;
- (f) ym mharagraff 10 (gwladolion o’r UE)—
  - (i) yn is-baragraff (a), hepgorer “ac eithrio gwladolyn o’r Deyrnas Unedig”;
  - (ii) yn is-baragraff (d), ar ôl “yn y diriogaeth y mae’r” mewnosoder “Deyrnas Unedig, Gibraltar, yr”;
- (g) yn lle paragraff 11 (plant gwladolion Swisaidd) rhodder—

**“11.—(1) Person—**

- (a) sydd, ar y dyddiad perthnasol, yn blentyn i wladolyn Swisaidd â hawlogaeth i gael cymorth gan yr Ysgrifennydd Gwladol yn rhinwedd Erthygl 3(6) o Atodiad 1 i Gytundeb y Swistir;
- (b) sy’n preswyllo fel arfer yng Nghymru ar y dyddiad perthnasol;
- (c) sydd wedi bod yn preswyllo fel arfer yn y diriogaeth y mae’r Deyrnas Unedig, Gibraltar, yr Ardal Economaidd Ewropeaidd a’r Swistir yn ei ffurfio drwy gydol y cyfnod o dair blynedd cyn diwrnod cyntaf blwyddyn academiaidd gyntaf y cwrs; a
- (d) mewn achos pan oedd preswyllo arferol y person y cyfeirir ato ym mharagraff (c) yn gyfan gwbl neu’n bennaf at y diben o dderbyn addysg lawnamser, a oedd yn preswyllo fel arfer yn y diriogaeth y mae’r Deyrnas Unedig, Gibraltar, yr Ardal Economaidd Ewropeaidd a’r Swistir yn ei ffurfio yn union cyn y cyfnod o breswyllo arferol y cyfeirir ato ym mharagraff (c).

(2) Mae unrhyw ddisgrifiad o berson a fyddai wedi bod yn gymwys o dan y paragraff hwn yn union cyn diwrnod cwblhau’r cyfnod gweithredu i fod yn gymwys ar ac ar ôl diwrnod cwblhau’r cyfnod gweithredu.”;

- (h) ym mharagraff 12(c) (plant gweithwyr Twrcaidd), ar ôl “y diriogaeth y mae’r” mewnosoder “Deyrnas Unedig, Gibraltar, yr”.

### **Diwygiadau i Atodlen 2**

8.—(1) Mae Atodlen 2 (cyfraniad y myfyriwr) wedi ei diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn Rhan 1 (dehongli), paragraff 1(1), yn y diffiniad o “incwm trethadwy”—

- (a) ym mharagraff (b), yn lle “un o Aelod-wladwriaethau eraill yr AEE” rhodder “un o Wladwriaethau’r AEE”;
- (b) yn lle paragraff (c) rhodder—
  - “(c) pan fo deddfwriaeth—
    - (i) y Deyrnas Unedig ac un neu ragor o Wladwriaethau’r AEE neu’r Swistir;
    - (ii) mwy nag un o Wladwriaethau’r AEE; neu
    - (iii) un o Wladwriaethau’r AEE a’r Swistir,

yn gymwys i’r cyfnod, y ddeddfwriaeth y mae Gweinidogion Cymru o’r farn y bydd y person yn talu’r swm mwyaf o dreth oddi tani yn y cyfnod hwnnw (ac eithrio fel y darperir fel arall ym mharagraff 4),”.

(3) Yn Rhan 2 (cyfrifo cyfraniad)—

- (a) ym mharagraff 3(1)(b) (cyfrifo incwm gweddilliol y myfyriwr), yn lle “Aelod-wladwriaeth arall” rhodder “Aelod-wladwriaeth”;
- (b) ym mharagraff 4 (cyfrifo incwm gweddilliol partner y myfyriwr cymwys), yn lle “un o Wladwriaethau eraill yr AEE” rhodder “un o Wladwriaethau’r AEE” ym mhob lle y mae’n digwydd.

### **Diwygiadau i Reoliadau Addysg Uwch (Cyrsgiau Cymhwysol, Personau Cymhwysol a Darpariaeth Atodol) (Cymru) 2015**

9.—(1) Mae’r Atodlen i Reoliadau Addysg Uwch (Cyrsgiau Cymhwysol, Personau Cymhwysol a Darpariaeth Atodol) (Cymru) 2015(1) wedi ei diwygio fel a ganlyn.

(2) Ym mharagraff 1—

- (a) yn is-baragraff (1)—

---

(1) O.S. 2015/1484 (Cy. 163), a ddiwygiwyd gan O.S. 2016/276 (Cy. 100), O.S. 2018/814 (Cy. 165), O.S. 2019/235 (Cy. 54) ac O.S. 2019/1192 (Cy. 209).

- (i) hepgorer “ac eithrio’r Deyrnas Unedig” ym mhob lle y mae’n digwydd;
- (ii) yn y lle priodol mewnosoder—
  - “mae i “cytundeb ar hawliau dinasyddion Swisaidd” yr ystyr a roddir i “Swiss citizens’ rights agreement” gan adran 39(1) o Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Y Cytundeb Ymadael) 2020;”;
  - “mae i “cytundeb gwahanu EFTA yr AEE” yr ystyr a roddir i “EEA EFTA separation agreement” gan adran 39(1) o Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Y Cytundeb Ymadael) 2020;”;
  - “mae i “rheolau mewnfudo’r cynllun preswyllo” yr ystyr a roddir i “residence scheme immigration rules” gan adran 17(1) o Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Y Cytundeb Ymadael) 2020;”;
- (iii) yn y diffiniad o “tiriogaethau tramor”, ar ôl “Tiriogaethau Deheuol ac Antarcctig Ffrainc;” mewnosoder “Gibraltar;”;
- (iv) yn lle’r diffiniad o “hawl i breswyllo’n barhaol” rhodder—
  - “ystyr “hawl i breswyllo’n barhaol” (*“right of permanent residence”*) yw, mewn perthynas â pherson (“A”), hawl i breswyllo yn y Deyrnas Unedig yn barhaol heb gyfyngiad sy’n codi o dan reolau mewnfudo’r cynllun preswyllo, ond dim ond pan fyddai A, pe bai’r ffeithiau a oedd yn ymwneud â phenderfynu hawl A i breswyllo yn dod i’w hystyried yn union cyn diwrnod cwblhau’r cyfnod gweithredu, wedi caffael hawl o’r fath o dan Gyfarwyddeb 2004/38 fel yr oedd yn cael effaith yn union cyn diwrnod cwblhau’r cyfnod gweithredu;”;
- (b) yn is-baragraff (3)—
  - (i) yn lle “y diriogaeth sy’n ffurfio’r Ardal Economaidd Ewropeaidd a’r Swistir” rhodder “y diriogaeth sy’n ffurfio’r Deyrnas Unedig, Gibraltar, yr Ardal Economaidd Ewropeaidd a’r Swistir”;
  - (ii) yn lle “y diriogaeth sy’n ffurfio’r Ardal Economaidd Ewropeaidd, y Swistir a’r tiriogaethau tramor” rhodder “y diriogaeth sy’n ffurfio’r Deyrnas Unedig, yr Ardal Economaidd Ewropeaidd, y Swistir a’r tiriogaethau tramor”;
  - (iii) yn lle “y diriogaeth sy’n ffurfio’r Ardal Economaidd Ewropeaidd, y Swistir, Twrci a’r tiriogaethau tramor” rhodder “y diriogaeth sy’n ffurfio’r Deyrnas Unedig,

yr Ardal Economaidd Ewropeaidd, y Swistir, Twrci a'r tiriogaethau tramor”;

- (c) yn is-baragraff (4)(b) ac (c), ar ôl “i'r diriogaeth sy'n ffurfio'r” mewnosoder “Deyrnas Unedig, Gibraltar, yr”;
- (d) yn is-baragraff (5), ar ôl “ardal” mewnosoder “ac eithrio'r Deyrnas Unedig neu Gibraltar”.

(3) Ym mharagraff 3 (personau sydd wedi setlo yn y Deyrnas Unedig)—

- (a) yn lle is-baragraff (a) rhodder—

“(a) sydd, ar ddiwrnod cyntaf blwyddyn academaidd y cwrs, naill ai—

- (i) wedi setlo yn y Deyrnas Unedig yn rhinwedd caffael yr hawl i breswyllo'n barhaol; neu
- (ii) yn dod o fewn Erthygl 18(2) neu (3) o'r cytundeb ymadael â'r UE, Erthygl 17(2) neu (3) o gytundeb gwahanu EFTA yr AEE neu Erthygl 16(2) neu (3) o'r cytundeb ar hawliau dinasyddion Swisaidd, ond dim ond pan fyddai'r person hwnnw wedi caffael yr hawl i breswyllo'n barhaol yn y Deyrnas Unedig heb gyfyngiad o dan Gyfarwyddeb 2004/38 fel yr oedd yn cael effaith yn union cyn diwrnod cwblhau'r cyfnod gweithredu pe bai'r ffeithiau a oedd yn ymwneud â hawl y person hwnnw i breswyllo yn dod i'w hystyried yn union cyn diwrnod cwblhau'r cyfnod gweithredu;”;

- (b) yn is-baragraff (d), ar ôl “y diriogaeth sy'n ffurfio'r” mewnosoder “Deyrnas Unedig, yr”.

(4) Ym mharagraff 6(1)(c) (gweithwyr, personau cyflogedig, personau hunangyflogedig ac aelodau o'u teulu), ar ôl “y diriogaeth sy'n ffurfio'r” mewnosoder “Deyrnas Unedig, yr”.

(5) Ym mharagraff 7 (gweithwyr, personau cyflogedig, personau hunangyflogedig ac aelodau o'u teulu)—

- (a) ailrifer is-baragraffau (a), (b) ac (c) yn is-baragraff (1)(a), (b) ac (c);
- (b) yn is-baragraff (1)(b) fel y'i hailrifwyd felly, ar ôl “y diriogaeth sy'n ffurfio'r” mewnosoder “Deyrnas Unedig, yr”;
- (c) ar ôl is-baragraff (1) fel y'i hailrifwyd felly mewnosoder—

“(2) Mae unrhyw ddisgrifiad o berson a fyddai wedi dod o fewn y paragraff hwn yn union cyn diwrnod cwblhau'r cyfnod gweithredu i'w drin fel pe bai'n dod o fewn y

paragraff hwn ar ac ar ôl diwrnod cwblhau'r cyfnod gweithredu.”

(6) Ym mharagraff 8 (personau sydd wedi setlo yn y Deyrnas Unedig ac sydd wedi arfer hawl i breswyllo mewn man arall)—

- (a) yn is-baragraff (1)(b), ar ôl “hawl i breswyllo” mewnosoder “cyn diwrnod cwblhau'r cyfnod gweithredu”;
- (b) yn is-baragraff (1)(d), ar ôl “y diriogaeth sy'n ffurfio'r” mewnosoder “Deyrnas Unedig, yr”;
- (c) yn is-baragraff (1)(e), ar ôl “y diriogaeth sy'n ffurfio'r” mewnosoder “Deyrnas Unedig, Gibraltar, yr”;
- (d) yn is-baragraff (2)—
  - (i) ym mharagraff (a), yn lle “sydd â hawl” rhodder “yr oedd ganddo'r hawl”;
  - (ii) ym mharagraff (b)—
    - (aa) yn lle “a'i fod â hawl” rhodder “ac yr oedd ganddo'r hawl”;
    - (bb) yn lle “yn mynd” rhodder “wedi mynd”;

(e) ar ôl is-baragraff (2) mewnosoder—

“(3) At ddibenion y paragraff hwn, roedd gan berson yr hawl i breswyllo'n barhaol os oedd ganddo hawl a gododd o dan Gyfarwyddeb 2004/38 i breswyllo'n barhaol yn y Deyrnas Unedig heb gyfyngiad.”

(7) Ym mharagraff 9 (gwladolion o'r UE)—

- (a) yn is-baragraff (1)(c), ar ôl “y diriogaeth sy'n ffurfio'r” mewnosoder “Deyrnas Unedig, yr”;
- (b) yn lle is-baragraff (2) rhodder—
 

“(2) Nid yw paragraff (c) o is-baragraff (1) yn gymwys i aelod o deulu person—

  - (a) sydd—
    - (i) yn wladolyn o'r Deyrnas Unedig sydd wedi arfer hawl i breswyllo yn nhiriogaeth Aelod-wladwriaeth o dan Erthygl 7(1) o Gyfarwyddeb 2004/38; neu
    - (ii) yn wladolyn o'r UE; a
  - (b) sydd wedi bod yn preswyllo fel arfer yn y diriogaeth sy'n ffurfio'r Deyrnas Unedig, yr Ardal Economaidd Ewropeaidd, y Swistir a'r tiriogaethau tramor drwy gydol y cyfnod o dair blynedd cyn diwrnod cyntaf blwyddyn academiaidd gyntaf y cwrs.”;

(c) ar ôl is-baragraff (3) mewnosoder—

“(4) Mae unrhyw ddisgrifiad o berson a fyddai wedi dod o fewn y paragraff hwn yn

union cyn diwrnod cwblhau'r cyfnod gweithredu i'w drin fel pe bai'n dod o fewn y paragraff hwn ar ac ar ôl diwrnod cwblhau'r cyfnod gweithredu.”

(8) Ym mharagraff 10 (gwladolion o'r UE)—

- (a) yn is-baragraff (1)(a), hepgorer “ac eithrio gwladolyn o'r Deyrnas Unedig”;
- (b) yn is-baragraff (1)(d), ar ôl “y diriogaeth sy'n ffurfio'r” mewnosoder “Deyrnas Unedig, yr”;
- (c) yn is-baragraff (2), hepgorer “ac eithrio gwladolyn o'r Deyrnas Unedig”.

(9) Yn lle paragraff 11 (plant gwladolion Swisaidd), rhodder—

“11.—(1) Person—

- (a) sy'n blentyn i wladolyn Swisaidd ac sydd â hawlogaeth i gael cymorth yn y Deyrnas Unedig yn rhinwedd Erthygl 3(6) o Atodiad 1 i Gytundeb y Swistir;
- (b) sy'n preswyllo fel arfer yn y Deyrnas Unedig ar ddiwrnod cyntaf blwyddyn academiaidd gyntaf y cwrs;
- (c) sydd wedi bod yn preswyllo fel arfer yn y diriogaeth sy'n ffurfio'r Deyrnas Unedig, yr Ardal Economaidd Ewropeaidd, y Swistir a'r tiriogaethau tramor drwy gydol y cyfnod o dair blynedd cyn diwrnod cyntaf blwyddyn academiaidd gyntaf y cwrs; a
- (d) mewn achos pan oedd y preswyliaid arferol y cyfeirir ato ym mharagraff (c) yn gyfan gwbl neu'n bennaf at ddiben cael addysg lawnamser, a oedd yn preswyllo fel arfer yn y diriogaeth sy'n ffurfio'r Deyrnas Unedig, Gibraltar, yr Ardal Economaidd Ewropeaidd a'r Swistir yn union cyn y cyfnod o breswyllo fel arfer y cyfeirir ato ym mharagraff (c).

(2) Mae unrhyw ddisgrifiad o berson a fyddai wedi dod o fewn y paragraff hwn yn union cyn diwrnod cwblhau'r cyfnod gweithredu i'w drin fel pe bai'n dod o fewn y paragraff hwn ar ac ar ôl diwrnod cwblhau'r cyfnod gweithredu.”

(10) Ym mharagraff 12(c) (plant gweithwyr Twrcaidd), ar ôl “y diriogaeth sy'n ffurfio'r” mewnosoder “Deyrnas Unedig, yr”.



## **Diwygiadau i Reoliadau Addysg (Cymorth i Fyfyrrwyr) (Cymru) 2017**

**10.** Mae Rheoliadau Addysg (Cymorth i Fyfyrrwyr) (Cymru) 2017(1) wedi eu diwygio fel a ganlyn.

### **Diwygiad i reoliad 2**

**11.** Yn rheoliad 2(1) (dehongli), hepgorer y diffiniad o “hawl i breswyllo’n barhaol”.

### **Diwygiadau i reoliad 15**

**12.** Yn rheoliad 15 (digwyddiadau)—

- (a) ym mharagraff (d), ar ôl “gwladolyn o’r UE” mewnosoder “neu berson sy’n gymwys o dan baragraff 9 o Atodlen 1 yn rhinwedd paragraff 9(5) o’r Atodlen honno ac eithrio fel aelod o’r teulu”;
- (b) yn lle paragraff (e) rhodder—

“(e) bod y myfyriwr yn dod yn berson a ddisgrifir ym mharagraff 3(a) o Atodlen 1;”.

### **Diwygiad i reoliad 23**

**13.** Yn lle rheoliad 23(12)(d) (amodau cyffredinol yr hawl i gael grantiau at gostau byw) rhodder—

- “(d) bod y myfyriwr yn dod yn berson a ddisgrifir ym mharagraff 3(a) o Atodlen 1;”.

### **Diwygiadau i reoliad 30**

**14.** Yn rheoliad 30(1) (grantiau ar gyfer dibynyddion – dehongli), yn is-baragraff (o)—

- (a) ym mharagraff (ii), yn lle “Aelod-wladwriaeth arall” rhodder “Aelod-wladwriaeth”;
- (b) yn lle paragraff (iii) rhodder—

“(iii) pan fo deddfwriaeth—

  - (aa) y Deyrnas Unedig ac un neu ragor o Aelod-wladwriaethau; neu
  - (bb) mwy nag un Aelod-wladwriaeth,

yn gymwys i’r cyfnod, cyfanswm incwm person o bob ffynhonnell fel y’i pennir at ddibenion y ddeddfwriaeth treth incwm y mae Gweinidogion Cymru yn ystyried bod cyfanswm

---

(1) O.S. 2017/47 (Cy. 21), a ddiwygiwyd gan O.S. 2018/191 (Cy. 42), O.S. 2018/814 (Cy. 165), O.S. 2019/235 (Cy. 54), O.S. 2019/1192 (Cy. 209) ac O.S. 2020/142 (Cy. 25).

incwm person yn y cyfnod hwnnw ar ei fwyaf odani,”.

#### **Diwygiad i reoliad 49**

**15.** Yn lle rheoliad 49(2)(d) (myfyrwyr sy'n dod yn gymwys yn ystod blwyddyn academaidd) rhodder—

“(d) bod y myfyriwr yn dod yn berson a ddisgrifir ym mharagraff 3(a) o Atodlen 1;”.

#### **Diwygiadau i reoliad 65**

**16.** Yn rheoliad 65(4) (myfyrwyr sy'n dod yn gymwys yn ystod y flwyddyn academaidd)—

(a) yn is-baragraff (d), ar ôl “gwladolyn o'r UE” mewnosoder “neu berson sy'n gymwys o dan baragraff 9 o Atodlen 1 yn rhinwedd paragraff 9(5) o'r Atodlen honno ac eithrio fel aelod o'r teulu”;

(b) yn lle is-baragraff (f) rhodder—

“(f) bod y myfyriwr yn dod yn berson a ddisgrifir ym mharagraff 3(a) o Atodlen 1;”.

#### **Diwygiadau i reoliad 82**

**17.** Yn rheoliad 82(4) (myfyrwyr sy'n dod yn gymwys yn ystod y flwyddyn academaidd)—

(a) yn is-baragraff (d), ar ôl “gwladolyn o'r UE” mewnosoder “neu berson sy'n gymwys o dan baragraff 9 o Atodlen 1 yn rhinwedd paragraff 9(5) o'r Atodlen honno ac eithrio fel aelod o'r teulu”;

(b) yn lle is-baragraff (f) rhodder—

“(f) bod y myfyriwr yn dod yn berson a ddisgrifir ym mharagraff 3(a) o Atodlen 1;”.

#### **Diwygiadau i reoliad 95**

**18.** Yn rheoliad 95(1) (grantiau rhan-amser ar gyfer dibynyddion – dehongli), yn is-baragraff (o)—

(a) ym mharagraff (ii), yn lle “Aelod-wladwriaeth arall” rhodder “Aelod-wladwriaeth”;

(b) yn lle paragraff (iii) rhodder—

“(iii) pan fo deddfwriaeth—

(aa) y Deyrnas Unedig ac un neu ragor o Aelod-wladwriaethau; neu

(bb) mwy nag un Aelod-wladwriaeth,

yn gymwys i'r cyfnod, cyfanswm incwm person o bob ffynhonnell fel y'i pennir at ddibenion y ddeddfwriaeth treth incwm y mae Gweinidogion Cymru yn ystyried bod cyfanswm incwm person yn y cyfnod hwnnw ar ei fwyaf odani.”.

### Diwygiad i reoliad 111

**19.** Yn lle rheoliad 111(2)(d) (myfyrwyr sy'n dod yn gymwys yn ystod y flwyddyn academaidd) rhodder—

“(d) y myfyriwr yn dod yn berson a ddisgrifir ym mharagraff 3(a) o Atodlen 1;”.

### Diwygiadau i Atodlen 1

**20.**—(1) Mae Atodlen 1 (myfyrwyr cymwys) wedi ei diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn Rhan 1 (dehongli), paragraff 1—

(a) yn is-baragraff (1)—

(i) hepgorer “ac eithrio'r Deyrnas Unedig” ym mhob lle y mae'n digwydd;

(ii) yn y lle priodol mewnosoder—

“mae i “cytundeb ar hawliau dinasyddion Swisaidd” yr ystyr a roddir i “Swiss citizens' rights agreement” gan adran 39(1) o Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Y Cytundeb Ymadael) 2020;”;

“mae i “cytundeb gwahanu EFTA yr AEE” yr ystyr a roddir i “EEA EFTA separation agreement” gan adran 39(1) o Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Y Cytundeb Ymadael) 2020;”;

“ystyr “hawl i breswyllo'n barhaol” (“*right of permanent residence*”) yw, mewn perthynas â pherson (“A”), hawl i breswyllo yn y Deyrnas Unedig yn barhaol heb gyfyngiad sy'n codi o dan reolau mewnfudo'r cynllun preswyllo, ond dim ond pan fyddai A, pe bai'r ffeithiau a oedd yn ymwneud â phenderfynu hawl A i breswyllo yn dod i'w hystyried yn union cyn diwrnod cwblhau'r cyfnod gweithredu, wedi ennill hawl o'r fath o dan Gyfarwyddeb 2004/38 fel yr oedd yn cael effaith yn union cyn diwrnod cwblhau'r cyfnod gweithredu;”;

“mae i “rheolau mewnfudo'r cynllun preswyllo” yr ystyr a roddir i “residence scheme immigration rules” gan adran 17(1) o Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Y Cytundeb Ymadael) 2020;”;

- (b) yn is-baragraffau (4) a (5), ar ôl “diriogaeth sy’n ffurfio’r” a “diriogaeth sydd yn ffurfio’r” mewnosoder “Deyrnas Unedig, Gibraltar, yr” ym mhob lle y maent yn digwydd, ac ar ôl “diriogaeth a ffurfir gan” mewnosoder “y Deyrnas Unedig, Gibraltar, yr”;
  - (c) yn is-baragraff (6), ar ôl “ardal” mewnosoder “ac eithrio’r Deyrnas Unedig neu Gibraltar”.
- (3) Yn Rhan 2 (categoriâu)—
- (a) ym mharagraff 3 (personau sydd wedi setlo yn y Deyrnas Unedig)—
    - (i) yn lle is-baragraff (a) rhodder—
      - “(a) sydd naill ai—
        - (i) wedi setlo yn y Deyrnas Unedig yn rhinwedd y ffaith ei fod wedi ennill yr hawl i breswyllo’n barhaol; neu
        - (ii) yn dod o fewn Erthygl 18(2) neu (3) o’r cytundeb ymadael â’r UE, Erthygl 17(2) neu (3) o gytundeb gwahanu EFTA yr AEE neu Erthygl 16(2) neu (3) o’r cytundeb ar hawliau dinasyddion Swisaidd, ond dim ond pan fyddai’r person hwnnw wedi ennill yr hawl i breswyllo’n barhaol yn y Deyrnas Unedig heb gyfyngiad o dan Gyfarwyddeb 2004/38 fel yr oedd yn cael effaith yn union cyn diwrnod cwblhau’r cyfnod gweithredu pe bai’r ffeithiau a oedd yn ymwneud â hawl y person hwnnw i breswyllo yn dod i’w hystyried yn union cyn diwrnod cwblhau’r cyfnod gweithredu;”;
      - (ii) yn is-baragraff (d), ar ôl “y diriogaeth sy’n ffurfio’r” mewnosoder “Deyrnas Unedig, Gibraltar, yr”;
  - (b) ym mharagraff 6(1)(c) (gweithwyr, personau cyflogedig, personau hunangyflogedig ac aelodau o’u teuluoedd), ar ôl “y diriogaeth sy’n ffurfio’r” mewnosoder “Deyrnas Unedig, Gibraltar, yr”;
  - (c) ym mharagraff 7 (gweithwyr, personau cyflogedig, personau hunangyflogedig ac aelodau o’u teuluoedd)—
    - (i) ailrifer is-baragraffau (a), (b) ac (c) yn is-baragraff (1)(a), (b) ac (c);
    - (ii) yn is-baragraff (1)(b) fel y’i hailrifwyd felly, ar ôl “y diriogaeth sy’n ffurfio’r” mewnosoder “Deyrnas Unedig, Gibraltar, yr”;

- (iii) ar ôl is-baragraff (1) fel y'i hailrifwyd felly mewnosoder—
- “(2) Mae unrhyw ddisgrifiad o berson a fyddai wedi bod yn gymwys o dan y paragraff hwn yn union cyn diwrnod cwblhau'r cyfnod gweithredu i fod yn gymwys ar ac ar ôl diwrnod cwblhau'r cyfnod gweithredu.”;
- (d) ym mharagraff 8 (personau sydd wedi setlo yn y Deyrnas Unedig ac sydd wedi arfer hawl i breswyllo yn rhywle arall)—
- (i) yn is-baragraff (1)(b), ar ôl “hawl i breswyllo” mewnosoder “cyn diwrnod cwblhau'r cyfnod gweithredu”;
- (ii) yn is-baragraff (1)(d) ac (e), ar ôl “y diriogaeth sy'n ffurfio'r” mewnosoder “Deyrnas Unedig, Gibraltar, yr”;
- (iii) yn is-baragraff (2)—
- (aa) yn lle “sydd â hawl” rhodder “yr oedd ganddo hawl” ym mhob lle y mae'n digwydd;
- (bb) yn lle “os yw'n mynd” rhodder “os yw wedi mynd”;
- (iv) ar ôl is-baragraff (2) mewnosoder—
- “(3) At ddibenion y paragraff hwn, roedd gan berson yr hawl i breswyllo'n barhaol os oedd ganddo hawl a gododd o dan Gyfarwyddeb 2004/38 i breswyllo'n barhaol yn y Deyrnas Unedig heb gyfyngiad.”;
- (e) ym mharagraff 9 (gwladolion o'r UE)—
- (i) yn lle is-baragraff (1)(a) rhodder—
- “(a) sydd ar ddiwrnod cyntaf blwyddyn academaidd gyntaf y cwrs—
- (i) yn wladolyn o'r UE;
- (ii) yn wladolyn o'r Deyrnas Unedig sydd wedi arfer hawl i breswyllo; neu
- (iii) yn aelod o deulu person yn is-baragraff (i) neu (ii);”;
- (ii) yn is-baragraffau (1)(c) a (d) a (2), ar ôl “y diriogaeth sy'n ffurfio'r” mewnosoder “Deyrnas Unedig, Gibraltar, yr”;
- (iii) yn is-baragraff (4), ar ôl “os yw'r person hwnnw” mewnosoder “wedi preswyllo yn Gibraltar neu”;
- (iv) ar ôl is-baragraff (4) mewnosoder—
- “(5) Mae unrhyw ddisgrifiad o berson a fyddai wedi bod yn gymwys o dan y paragraff hwn yn union cyn diwrnod cwblhau'r cyfnod gweithredu i fod yn gymwys ar ac ar ôl diwrnod cwblhau'r cyfnod gweithredu.”;
- (f) ym mharagraff 10 (gwladolion o'r UE)—

- (i) yn is-baragraff (1)(a), hepgorer “ac eithrio gwladolyn o’r Deyrnas Unedig”;
- (ii) yn is-baragraff (1)(d), ar ôl “y diriogaeth sy’n ffurfio’r” mewnosoder “Deyrnas Unedig, Gibraltar, yr”;
- (iii) yn is-baragraff (2), hepgorer “ac eithrio gwladolyn o’r Deyrnas Unedig”;
- (g) yn lle paragraff 11 (plant gwladolion Swisaidd) rhodder—

“11.—(1) Person—

- (a) sy’n blentyn i wladolyn Swisaidd y mae ganddo hawlogaeth i gael cymorth yn y Deyrnas Unedig yn rhinwedd Erthygl 3(6) o Atodiad 1 i Gytundeb y Swistir;
- (b) sy’n preswyllo fel arfer yng Nghymru ar ddiwrnod cyntaf blwyddyn academaidd gyntaf y cwrs;
- (c) sydd wedi bod yn preswyllo fel arfer yn y diriogaeth sy’n ffurfio’r Deyrnas Unedig, Gibraltar, yr Ardal Economaidd Ewropeaidd a’r Swistir drwy gydol y cyfnod o dair blynedd cyn diwrnod cyntaf blwyddyn academaidd gyntaf y cwrs; a
- (d) mewn achos lle’r oedd ei breswyllo arferol y cyfeirir ato ym mharagraff (c) yn gyfan gwbl neu’n bennaf at ddiben derbyn addysg lawnamser, a oedd yn preswyllo fel arfer yn y diriogaeth sy’n ffurfio’r Deyrnas Unedig, Gibraltar, yr Ardal Economaidd Ewropeaidd a’r Swistir yn union cyn y cyfnod preswyllo arferol y cyfeirir ato ym mharagraff (c).

(2) Mae unrhyw ddisgrifiad o berson a fyddai wedi bod yn gymwys o dan y paragraff hwn yn union cyn diwrnod cwblhau’r cyfnod gweithredu i fod yn gymwys ar ac ar ôl diwrnod cwblhau’r cyfnod gweithredu.”;

- (h) ym mharagraff 12(c) (plant gweithwyr Twrcaidd), ar ôl “y diriogaeth sydd yn ffurfio’r” mewnosoder “Deyrnas Unedig, Gibraltar, yr”.

**Diwygiadau i Atodlen 4**

**21.** Yn Atodlen 4 (benthyciadau at ffioedd coleg), paragraff 6—

- (a) yn is-baragraff (c), ar ôl “gwladolyn o’r UE” mewnosoder “neu berson sy’n gymwys o dan baragraff 9 o Atodlen 1 yn rhinwedd paragraff

9(5) o'r Atodlen honno ac eithrio fel aelod o'r teulu”;

(b) yn lle is-baragraff (d) rhodder—

“(d) bod y myfyriwr yn dod yn berson a ddisgrifir ym mharagraff 3(a) o Atodlen 1;”.

### Diwygiadau i Atodlen 5

22.—(1) Mae Atodlen 5 (asesiad ariannol) wedi ei diwygio fel a ganlyn.

(2) Ym mharagraff 1(1) (diffiniadau), paragraff (n)—

(a) yn is-baragraff (ii), yn lle “Aelod-wladwriaeth arall” rhodder “Aelod-wladwriaeth”;

(b) yn lle is-baragraff (iii) rhodder—

“(iii) pan fo deddfwriaeth—

(aa) y Deyrnas Unedig ac un neu ragor o Aelod-wladwriaethau; neu

(bb) mwy nag un Aelod-wladwriaeth,

yn gymwys i'r cyfnod, cyfanswm incwm person o bob ffynhonnell fel y'i pennir at ddibenion y ddeddfwriaeth treth incwm y mae Gweinidogion Cymru yn ystyried bod cyfanswm incwm person yn y cyfnod hwnnw ar ei fwyaf odani (ac eithrio fel y darperir fel arall ym mharagraff 5).”.

(3) Ym mharagraff 2(1)(g) (myfyriwr cymwys annibynnol), o flaen “Undeb Ewropeaidd” mewnosoder “Deyrnas Unedig, Gibraltar a'r”.

(4) Yn y paragraffau a ganlyn, yn lle “Aelod-wladwriaeth arall” rhodder “Aelod-wladwriaeth”—

(a) paragraff 4(1)(b) (cyfrifo incwm gweddilliol y myfyriwr cymwys);

(b) paragraff 5 (cyfrifo incwm gweddilliol y rhiant)—

(i) is-baragraff (1)(a);

(ii) is-baragraff (6), ym mhob lle y mae'n digwydd;

(iii) is-baragraff (7).

### Diwygiadau i Atodlen 6

23.—(1) Mae Atodlen 6 (asesiad ariannol – grantiau rhan-amser ar gyfer dibynyddion) wedi ei diwygio fel a ganlyn.

(2) Ym mharagraff 1(1) (diffiniadau), paragraff (j)—

(a) yn is-baragraff (ii), yn lle “Aelod-wladwriaeth arall” rhodder “Aelod-wladwriaeth”;

(b) yn lle is-baragraff (iii) rhodder—

“(iii) pan fo deddfwriaeth—

(aa) y Deyrnas Unedig ac un neu ragor o Aelod-wladwriaethau; neu

(bb) mwy nag un Aelod-wladwriaeth,

yn gymwys i’r cyfnod, cyfanswm incwm person o bob ffynhonnell fel y’i pennir at ddibenion y ddeddfwriaeth treth incwm y mae Gweinidogion Cymru yn ystyried bod cyfanswm incwm person yn y cyfnod hwnnw ar ei fwyaf odani (ac eithrio fel y darperir fel arall ym mharagraff 4),”.

(3) Yn y paragraffau a ganlyn, yn lle “Aelod-wladwriaeth arall” rhodder “Aelod-wladwriaeth”—

(a) paragraff 3(1) (cyfrifo incwm gweddilliol y myfyriwr rhan-amser cymwys);

(b) paragraff 4 (cyfrifo incwm gweddilliol partner myfyriwr rhan-amser cymwys)—

(i) is-baragraff (1)(a);

(ii) is-baragraff (6), ym mhob lle y mae’n digwydd;

(iii) is-baragraff (7).

### **Diwygiadau i Reoliadau Addysg (Benthyciadau at Radd Feistr Ôl-raddedig) (Cymru) 2017**

**24.** Mae Rheoliadau Addysg (Benthyciadau at Radd Feistr Ôl-raddedig) (Cymru) 2017(1) wedi eu diwygio fel a ganlyn.

#### **Diwygiad i reoliad 2**

**25.** Yn rheoliad 2(1) (dehongli), hepgorer y diffiniad o “hawl i breswyllo’n barhaol”.

#### **Diwygiadau i reoliad 8**

**26.** Yn rheoliad 8 (digwyddiadau)—

(a) ym mharagraff (d), ar ôl “gwladolyn UE” mewnosoder “neu berson sy’n gymwys o dan baragraff 9 o Atodlen 1 yn rhinwedd paragraff 9(5) o’r Atodlen honno ac eithrio fel aelod o’r teulu”;

---

(1) O.S. 2017/523 (Cy. 109), a ddiwygiwyd gan O.S. 2017/712 (Cy. 169), O.S. 2018/277 (Cy. 53), O.S. 2018/814 (Cy. 165), O.S. 2019/895 (Cy. 161), O.S. 2019/1192 (Cy. 209) ac O.S. 2020/142 (Cy. 25).



(b) yn lle paragraff (e) rhodder—

“(e) bod y myfyriwr yn dod yn berson a ddisgrifir ym mharagraff 3(a) o Atodlen 1;”.

### Diwygiadau i Atodlen 1

27.—(1) Mae Atodlen 1 (myfyrwyr cymwys) wedi ei diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn Rhan 1 (dehongli), paragraff 1—

(a) yn is-baragraff (1)—

(i) hepgorer “ac eithrio’r Deyrnas Unedig” ym mhob lle y mae’n digwydd;

(ii) yn y lle priodol mewnosoder—

“mae i “cytundeb ar hawliau dinasyddion Swisaidd” yr ystyr a roddir i “Swiss citizens’ rights agreement” gan adran 39(1) o Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Y Cytundeb Ymadael) 2020;”;

“mae i “cytundeb gwahanu EFTA yr AEE” yr ystyr a roddir i “EEA EFTA separation agreement” gan adran 39(1) o Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Y Cytundeb Ymadael) 2020;”;

“ystyr “hawl i breswyllo’n barhaol” (“*right of permanent residence*”) yw, mewn perthynas â pherson (“A”), hawl i breswyllo yn y Deyrnas Unedig yn barhaol heb gyfyngiad sy’n codi o dan reolau mewnfudo’r cynllun preswyllo, ond dim ond pan fyddai A, pe bai’r ffeithiau a oedd yn ymwneud â phenderfynu hawl A i breswyllo yn dod i’w hystyried yn union cyn diwrnod cwblhau’r cyfnod gweithredu, wedi ennill hawl o’r fath o dan Gyfarwyddeb 2004/38 fel yr oedd yn cael effaith yn union cyn diwrnod cwblhau’r cyfnod gweithredu;”;

“mae i “rheolau mewnfudo’r cynllun preswyllo” yr ystyr a roddir i “residence scheme immigration rules” gan adran 17(1) o Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Y Cytundeb Ymadael) 2020;”;

(b) yn is-baragraffau (4) a (5), ar ôl “diriogaeth sy’n ffurfio’r” mewnosoder “Deyrnas Unedig, Gibraltar, yr” ym mhob lle y mae’n digwydd;

(c) yn is-baragraff (6), ar ôl “ardal” mewnosoder “ac eithrio’r Deyrnas Unedig neu Gibraltar”.

(3) Yn Rhan 2 (categoriâu)—

(a) ym mharagraff 3 (personau sydd wedi setlo yn y Deyrnas Unedig)—

(i) yn lle is-baragraff (a) rhodder—

“(a) sydd naill ai—

- (i) wedi setlo yn y Deyrnas Unedig yn rhinwedd ennill yr hawl i breswyllo'n barhaol; neu
  - (ii) yn dod o fewn Erthygl 18(2) neu (3) o'r cytundeb ymadael â'r UE, Erthygl 17(2) neu (3) o gytundeb gwahanu EFTA yr AEE neu Erthygl 16(2) neu (3) o'r cytundeb ar hawliau dinasyddion Swisaidd, ond dim ond pan fyddai'r person hwnnw wedi ennill yr hawl i breswyllo'n barhaol yn y Deyrnas Unedig heb gyfyngiad o dan Gyfarwyddeb 2004/38 fel yr oedd yn cael effaith yn union cyn diwrnod cwblhau'r cyfnod gweithredu pe bai'r ffeithiau a oedd yn ymwneud â hawl y person hwnnw i breswyllo yn dod i'w hystyried yn union cyn diwrnod cwblhau'r cyfnod gweithredu;”;
  - (ii) yn is-baragraff (d), ar ôl “y diriogaeth sy'n ffurfio'r” mewnosoder “Deyrnas Unedig, Gibraltar, yr”;
- (b) ym mharagraff 6(1)(c) (gweithwyr, personau cyflogedig, personau hunangyflogedig ac aelodau o'u teuluoedd), ar ôl “y diriogaeth sy'n ffurfio'r” mewnosoder “Deyrnas Unedig, Gibraltar, yr”;
- (c) ym mharagraff 7 (gweithwyr, personau cyflogedig, personau hunangyflogedig ac aelodau o'u teuluoedd)—
- (i) ailrifer is-baragraffau (a), (b) ac (c) yn is-baragraff (1)(a), (b) ac (c);
  - (ii) yn is-baragraff (1)(b) fel y'i hailrifwyd felly, ar ôl “y diriogaeth sy'n ffurfio'r” mewnosoder “Deyrnas Unedig, Gibraltar, yr”;
  - (iii) ar ôl is-baragraff (1) fel y'i hailrifwyd felly mewnosoder—
- “(2) Mae unrhyw ddisgrifiad o berson a fyddai wedi bod yn gymwys o dan y paragraff hwn yn union cyn diwrnod cwblhau'r cyfnod gweithredu i fod yn gymwys ar ac ar ôl diwrnod cwblhau'r cyfnod gweithredu.”;
- (d) ym mharagraff 8 (personau sydd wedi setlo yn y Deyrnas Unedig ac sydd wedi arfer hawl i breswyllo yn rhywle arall)—
- (i) yn is-baragraff (1)(b), ar ôl “hawl i breswyllo” mewnosoder “cyn diwrnod cwblhau'r cyfnod gweithredu”;

- (ii) yn is-baragraff (1)(d) ac (e), ar ôl “y diriogaeth sy’n ffurfio’r” mewnosoder “Deyrnas Unedig, Gibraltar, yr”;
- (iii) yn is-baragraff (2)—
  - (aa) yn lle “sydd â hawl” rhodder “yr oedd ganddo’r hawl” ym mhob lle y mae’n digwydd;
  - (bb) yn lle “os yw’n mynd” rhodder “os yw wedi mynd”;
- (iv) ar ôl is-baragraff (2) mewnosoder—
 

“(3) At ddibenion y paragraff hwn, roedd gan berson yr hawl i breswyllo’n barhaol os oedd ganddo hawl a gododd o dan Gyfarwyddeb 2004/38 i breswyllo’n barhaol yn y Deyrnas Unedig heb gyfyngiad.”;
- (e) ym mharagraff 9 (gwladolion UE)—
  - (i) yn lle is-baragraff (1)(a) rhodder—
 

“(a) sydd, ar ddiwrnod cyntaf blwyddyn academaidd gyntaf y cwrs—

    - (i) yn wladolyn UE;
    - (ii) yn wladolyn o’r Deyrnas Unedig sydd wedi arfer hawl i breswyllo; neu
    - (iii) yn aelod o deulu person yn is-baragraff (i) neu (ii);”;
  - (ii) yn is-baragraffau (1)(c) a (d) a (2), ar ôl “y diriogaeth sy’n ffurfio’r” mewnosoder “Deyrnas Unedig, Gibraltar, yr”;
  - (iii) yn is-baragraff (4), ar ôl “os yw’r person hwnnw” mewnosoder “wedi preswyllo yn Gibraltar neu”;
  - (iv) ar ôl is-baragraff (4) mewnosoder—
 

“(5) Mae unrhyw ddisgrifiad o berson a fyddai wedi bod yn gymwys o dan y paragraff hwn yn union cyn diwrnod cwblhau’r cyfnod gweithredu i fod yn gymwys ar ac ar ôl diwrnod cwblhau’r cyfnod gweithredu.”;
- (f) ym mharagraff 10 (gwladolion UE)—
  - (i) yn is-baragraff (1)(a), hepgorer “ac eithrio gwladolyn o’r Deyrnas Unedig”;
  - (ii) yn is-baragraff (1)(d), ar ôl “y diriogaeth sy’n ffurfio’r” mewnosoder “Deyrnas Unedig, Gibraltar, yr”;
  - (iii) yn is-baragraff (2), hepgorer “ac eithrio gwladolyn o’r Deyrnas Unedig”;
- (g) yn lle paragraff 11 (plant gwladolion Swisaidd) rhodder—
 

“**11.**—(1) Person—

  - (a) sy’n blentyn i wladolyn Swisaidd y mae ganddo hawlogaeth i gael cymorth

yn y Deyrnas Unedig yn rhinwedd Erthygl 3(6) o Atodiad 1 i Gytundeb y Swistir;

- (b) sy'n preswyllo fel arfer yng Nghymru ar ddiwrnod cyntaf blwyddyn academaidd gyntaf y cwrs;
- (c) sydd wedi bod yn preswyllo fel arfer yn y diriogaeth sy'n ffurfio'r Deyrnas Unedig, Gibraltar, yr Ardal Economaidd Ewropeaidd a'r Swistir drwy gydol y cyfnod o dair blynedd cyn diwrnod cyntaf blwyddyn academaidd gyntaf y cwrs; a
- (d) mewn achos pan oedd ei breswyllo fel arfer, y cyfeirir ato ym mharagraff (c), yn gyfan gwbl neu'n bennaf at ddiben cael addysg lawnamser, a oedd yn preswyllo fel arfer yn y diriogaeth sy'n ffurfio'r Deyrnas Unedig, Gibraltar, yr Ardal Economaidd Ewropeaidd a'r Swistir yn union cyn y cyfnod o breswyllo fel arfer y cyfeirir ato ym mharagraff (c).

(2) Mae unrhyw ddisgrifiad o berson a fyddai wedi bod yn gymwys o dan y paragraff hwn yn union cyn diwrnod cwblhau'r cyfnod gweithredu i fod yn gymwys ar ac ar ôl diwrnod cwblhau'r cyfnod gweithredu.”;

- (h) ym mharagraff 12(c) (plant gweithwyr Twrcaidd), ar ôl “y diriogaeth sy'n ffurfio'r” mewnosoder “Deyrnas Unedig, Gibraltar, yr”.

### **Diwygiadau i Reoliadau Addysg (Cymorth i Fyfyrrwyr) (Cymru) 2018**

**28.** Mae Rheoliadau Addysg (Cymorth i Fyfyrrwyr) (Cymru) 2018(1) wedi eu diwygio fel a ganlyn.

#### **Diwygiadau i reoliad 80**

**29.** Yn rheoliad 80(2)(b) (cymhwysu i gael benthyciad at ffioedd dysgu yn ystod y flwyddyn academaidd)—

- (a) ym mharagraff (iii), ar ôl “gwladolyn o'r UE” mewnosoder “neu berson sy'n gymwys o dan baragraff 6(1) o Atodlen 2 yn rhinwedd paragraff 6(1A) o'r Atodlen honno ac eithrio fel aelod o'r teulu”;
- (b) yn lle paragraff (iv) rhodder—

---

(1) O.S. 2018/191 (Cy. 42), a ddiwygiwyd gan O.S. 2018/813 (Cy. 164), O.S. 2018/814 (Cy. 165), O.S. 2019/235 (Cy. 54) ac O.S. 2020/142 (Cy. 25).

“(iv) bod y myfyriwr yn dod yn berson a ddisgrifir ym mharagraff 1(2)(a) o Atodlen 2;”.

### **Diwygiad i reoliad 81**

**30.** Yn lle rheoliad 81(3)(b)(iii) (cymhwyso i gael benthyciad cynhaliaeth neu grantiau yn ystod y flwyddyn academaidd) rhodder—

“(iii) bod y myfyriwr yn dod yn berson a ddisgrifir ym mharagraff 1(2)(a) o Atodlen 2;”.

### **Diwygiadau i Atodlen 2**

**31.**—(1) Mae Atodlen 2 (categoriâu o fyfyrwyr cymwys) wedi ei diwygio fel a ganlyn.

(2) Ym mharagraff 1(2) (categori 1 – personau sydd wedi setlo yn y Deyrnas Unedig)—

(a) yn lle paragraff (a) rhodder—

“(a) sydd naill ai—

(i) wedi setlo yn y Deyrnas Unedig yn rhinwedd ennill yr hawl i breswyllo'n barhaol, neu

(ii) yn dod o fewn Erthygl 18(2) neu (3) o'r cytundeb ymadael â'r UE, Erthygl 17(2) neu (3) o gytundeb gwahanu EFTA yr AEE neu Erthygl 16(2) neu (3) o'r cytundeb ar hawliau dinasyddion Swisaidd, ond dim ond pan fyddai'r person hwnnw wedi ennill yr hawl i breswyllo'n barhaol yn y Deyrnas Unedig heb gyfyngiad o dan Gyfarwyddeb 2004/38 fel yr oedd yn cael effaith yn union cyn diwrnod cwblhau'r cyfnod gweithredu pe bai'r ffeithiau a oedd yn ymwneud â hawl y person hwnnw i breswyllo yn dod i'w hystyried yn union cyn diwrnod cwblhau'r cyfnod gweithredu;”;

(b) ym mharagraff (d), ar ôl “y diriogaeth sy'n ffurfio'r” mewnosoder “Deyrnas Unedig, Gibraltar, yr”.

(3) Ym mharagraff 4 (categori 4 – gweithwyr, personau cyflogedig, personau hunangyflogedig ac aelodau o'u teuluoedd)—

(a) yn is-baragraffau (1)(b) a (2)(b), ar ôl “y diriogaeth sy'n ffurfio'r” mewnosoder “Deyrnas Unedig, Gibraltar, yr”;

(b) ar ôl is-baragraff (2) mewnosoder—

“(2A) Mae unrhyw ddisgrifiad o berson a fyddai wedi bod yn gymwys o dan is-baragraff

(2) yn union cyn diwrnod cwblhau'r cyfnod gweithredu i fod yn gymwys ar ac ar ôl diwrnod cwblhau'r cyfnod gweithredu.”;

(c) yn is-baragraffau (3) a (4), hepgorer “ac eithrio'r Deyrnas Unedig” ym mhob lle y mae'n digwydd.

(4) Ym mharagraff 5 (categori 5 – personau sydd wedi setlo yn y Deyrnas Unedig ac sydd wedi arfer hawl i breswyllo yn rhywle arall)—

(a) yn is-baragraff (1)(b), ar ôl “hawl i breswyllo” mewnosoder “cyn diwrnod cwblhau'r cyfnod gweithredu”;

(b) yn is-baragraff (1)(d) ac (e), ar ôl “y diriogaeth sy'n ffurfio'r” mewnosoder “Deyrnas Unedig, Gibraltar, yr”;

(c) yn is-baragraff (3)(c), yn lle “sydd â hawl” rhodder “yr oedd ganddo'r hawl”;

(d) yn is-baragraff (4)—

(i) ym mharagraff (a), yn lle “a chanddo hawl” rhodder “ac yr oedd ganddo'r hawl”;

(ii) ym mharagraff (b), yn lle “sy'n mynd” rhodder “sydd wedi mynd”;

(e) ar ôl is-baragraff (5) mewnosoder—

“(6) At ddibenion y paragraff hwn, roedd gan berson yr hawl i breswyllo'n barhaol os oedd ganddo hawl a gododd o dan Gyfarwyddeb 2004/38 i breswyllo'n barhaol yn y Deyrnas Unedig heb gyfyngiad.”

(5) Ym mharagraff 6 (categori 6 – gwladolion UE)—

(a) yn lle is-baragraff (1)(a) rhodder—

“(a) sydd, ar ddiwrnod cyntaf blwyddyn academaidd gyntaf y cwrs—

(i) yn wladolyn UE,

(ii) yn wladolyn o'r Deyrnas Unedig sydd wedi arfer hawl i breswyllo, neu

(iii) yn aelod o deulu person yn is-baragraff (i) neu (ii),”;

(b) yn is-baragraff (1)(c) a (d), ar ôl “y diriogaeth sy'n ffurfio'r” mewnosoder “Deyrnas Unedig, Gibraltar, yr”;

(c) ar ôl is-baragraff (1) mewnosoder—

“(1A) Mae unrhyw ddisgrifiad o berson a fyddai wedi bod yn gymwys o dan is-baragraff (1) yn union cyn diwrnod cwblhau'r cyfnod gweithredu i fod yn gymwys ar ac ar ôl diwrnod cwblhau'r cyfnod gweithredu.”;

(d) yn is-baragraff (2)(a), hepgorer “ac eithrio gwladolyn o'r Deyrnas Unedig”;

(e) yn is-baragraff (2)(d), ar ôl “y diriogaeth sy’n ffurfio’r” mewnosoder “Deyrnas Unedig, Gibraltar, yr”;

(f) yn lle is-baragraff (4) rhodder—

“(4) At ddibenion is-baragraff (1)(a), mae gwladolyn o’r Deyrnas Unedig wedi arfer hawl i breswyllo os yw’r person hwnnw wedi preswyllo yn Gibraltar neu wedi arfer hawl o dan Erthygl 7 o Gyfarwyddeb 2004/38 neu unrhyw hawl gyfatebol o dan Gytundeb yr AEE neu Gytundeb y Swistir mewn gwladwriaeth ac eithrio’r Deyrnas Unedig.”

(6) Yn lle paragraff 7 (categori 7 – plant gwladolion Swisaidd) rhodder—

#### “Categori 7 – Plant gwladolion Swisaidd

7.—(1) Person—

(a) sy’n blentyn i wladolyn Swisaidd y mae ganddo hawlogaeth i gael cymorth yn y Deyrnas Unedig yn rhinwedd Erthygl 3(6) o Atodiad 1 i Gytundeb y Swistir,

(b) sy’n preswyllo fel arfer yng Nghymru ar ddiwrnod cyntaf blwyddyn academiaidd gyntaf y cwrs,

(c) sydd wedi bod yn preswyllo fel arfer yn y diriogaeth sy’n ffurfio’r Deyrnas Unedig, Gibraltar, yr AEE a’r Swistir drwy gydol y cyfnod o dair blynedd cyn diwrnod cyntaf blwyddyn academiaidd gyntaf y cwrs, a

(d) mewn achos pan oedd ei breswyllo fel arfer, y cyfeirir ato ym mharagraff (c), yn gyfan gwbl neu’n bennaf at ddiben cael addysg lawnamser, a oedd yn preswyllo fel arfer yn y diriogaeth sy’n ffurfio’r Deyrnas Unedig, Gibraltar, yr AEE a’r Swistir yn union cyn y cyfnod o breswyllo fel arfer y cyfeirir ato ym mharagraff (c).

(2) Mae unrhyw ddisgrifiad o berson a fyddai wedi bod yn gymwys o dan y paragraff hwn yn union cyn diwrnod cwblhau’r cyfnod gweithredu i fod yn gymwys ar ac ar ôl diwrnod cwblhau’r cyfnod gweithredu.”

(7) Ym mharagraff 8(1)(c) (categori 8 – plant gweithwyr Twrcaidd), ar ôl “y diriogaeth sy’n ffurfio’r” mewnosoder “Deyrnas Unedig, Gibraltar, yr”.

(8) Ym mharagraff 9 (preswyllo fel arfer – darpariaeth ychwanegol)—

- (a) ar ôl “diriogaeth sy’n ffurfio’r” mewnosoder “Deyrnas Unedig, Gibraltar, yr” ym mhob lle y mae’n digwydd;
  - (b) yn is-baragraff (5), ar ôl “ardal” mewnosoder “ac eithrio’r Deyrnas Unedig neu Gibraltar”.
- (9) Ym mharagraff 11 (dehongli)—
- (a) yn y lle priodol mewnosoder—
    - “mae i “cytundeb ar hawliau dinasyddion Swisaidd” yr ystyr a roddir i “Swiss citizens’ rights agreement” gan adran 39(1) o Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Y Cytundeb Ymadael) 2020;”;
    - “mae i “cytundeb gwahanu EFTA yr AEE” yr ystyr a roddir i “EEA EFTA separation agreement” gan adran 39(1) o Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Y Cytundeb Ymadael) 2020;”;
    - “mae i “rheolau mewnfudo’r cynllun preswyllo” yr ystyr a roddir i “residence scheme immigration rules” gan adran 17(1) o Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Y Cytundeb Ymadael) 2020;”;
  - (b) yn lle’r diffiniad o “hawl i breswyllo’n barhaol” rhodder—
    - “ystyr “hawl i breswyllo’n barhaol” (“*right of permanent residence*”) yw, mewn perthynas â pherson (“A”), hawl i breswyllo yn y Deyrnas Unedig yn barhaol heb gyfyngiad sy’n codi o dan reolau mewnfudo’r cynllun preswyllo, ond dim ond pan fyddai A, pe bai’r ffeithiau a oedd yn ymwneud â phenderfynu hawl A i breswyllo yn dod i’w hystyried yn union cyn diwrnod cwblhau’r cyfnod gweithredu, wedi ennill hawl o’r fath o dan Gyfarwyddeb 2004/38 fel yr oedd yn cael effaith yn union cyn diwrnod cwblhau’r cyfnod gweithredu;”.

### Diwygiadau i Atodlen 3

32.—(1) Mae Atodlen 3 (cyfrifo incwm) wedi ei diwygio fel a ganlyn.

(2) Ym mharagraff 4(1) (myfyrwyr cymwys annibynnol), yn Achos 6, o flaen “Undeb Ewropeaidd” mewnosoder “Deyrnas Unedig, Gibraltar a’r”.

(3) Ym mharagraff 9 (incwm trethadwy)—

(a) yn is-baragraff (1)(b), yn lle “Aelod-wladwriaeth arall” rhodder “Aelod-wladwriaeth”;

(b) yn lle is-baragraff (2) rhodder—

“(2) At ddibenion is-baragraff (1)(b), pan fo deddfwriaeth treth incwm—



(a) y Deyrnas Unedig ac un neu ragor o Aelod-wladwriaethau, neu

(b) mwy nag un Aelod-wladwriaeth,

yn gymwys i'r person mewn cysylltiad â'r flwyddyn sydd o dan ystyriaeth, cyfanswm incwm y person o bob ffynhonnell yw'r swm sy'n deillio o'r penderfyniad sy'n arwain at swm mwyaf cyfanswm yr incwm, gan gynnwys unrhyw incwm y mae'n ofynnol ei ystyried o dan baragraff 18.”

(4) Yn y paragraffau a ganlyn, yn lle “Aelod-wladwriaeth arall” rhodder “Aelod-wladwriaeth”—

- (a) paragraff 11 (didyniadau at ddiben cyfrifo incwm gweddilliol myfyriwr cymwys), Didyniad B;
- (b) paragraff 15 (didyniadau at ddiben cyfrifo incwm gweddilliol personau ac eithrio myfyriwr cymwys), Didyniad A;
- (c) paragraff 18 (trin incwm nas trinnir fel incwm at ddibenion treth incwm), ym mhob lle y mae'n digwydd;
- (d) paragraff 19(1) (incwm P mewn arian cyfred ac eithrio sterling).

### Diwygiadau i Atodlen 5

**33.**—(1) Mae Atodlen 5 (benthyciadau at ffioedd colegau Oxbridge) wedi ei diwygio fel a ganlyn.

(2) Ym mharagraff 4(2) (myfyriwr sy'n dod yn gymwys yn ystod blwyddyn academaidd)—

- (a) ym mharagraff (c), ar ôl “gwladolyn UE” mewnosoder “neu berson sy'n gymwys o dan baragraff 6(1) o Atodlen 2 yn rhinwedd paragraff 6(1A) o'r Atodlen honno ac eithrio fel aelod o'r teulu”;
- (b) yn lle paragraff (d) rhodder—  
“(d) bod y myfyriwr yn dod yn berson a ddisgrifir ym mharagraff 1(2)(a) o Atodlen 2;”.

### Diwygiadau i Reoliadau Addysg (Benthyciadau at Radd Ddoethurol Ôl-raddedig) (Cymru) 2018

**34.** Mae Rheoliadau Addysg (Benthyciadau at Radd Ddoethurol Ôl-raddedig) (Cymru) 2018(1) wedi eu diwygio fel a ganlyn.

---

(1) O.S. 2018/656 (Cy. 124), a ddiwygiwyd gan O.S. 2018/814 (Cy. 165), O.S. 2019/235 (Cy. 54) ac O.S. 2019/1192 (Cy. 209).

## Diwygiad i reoliad 2

35. Yn rheoliad 2(1) (dehongli), hepgorer y diffiniad o “hawl i breswyllo’n barhaol”.

## Diwygiadau i reoliad 8

36. Yn rheoliad 8 (digwyddiadau)—

- (a) ym mharagraff (d), ar ôl “gwladolyn UE” mewnosoder “neu berson sy’n gymwys o dan baragraff 10 o Atodlen 1 yn rhinwedd paragraff 10(5) o’r Atodlen honno ac eithrio fel aelod o’r teulu”;
- (b) yn lle paragraff (e) rhodder—

“(e) bod y myfyriwr yn dod yn berson a ddisgrifir ym mharagraff 3(a) o Atodlen 1;”.

## Diwygiadau i Atodlen 1

37.—(1) Mae Atodlen 1 (myfyrwyr cymwys) wedi ei diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn Rhan 1, paragraff 1 (dehongli)—

- (a) yn is-baragraff (1)—
  - (i) hepgorer “ac eithrio’r Deyrnas Unedig” ym mhob lle y mae’n digwydd;
  - (ii) yn y lle priodol mewnosoder—

“mae i “cytundeb ar hawliau dinasyddion Swisaidd” yr ystyr a roddir i “Swiss citizens’ rights agreement” gan adran 39(1) o Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Y Cytundeb Ymadael) 2020;”;

“mae i “cytundeb gwahanu EFTA yr AEE” yr ystyr a roddir i “EEA EFTA separation agreement” gan adran 39(1) o Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Y Cytundeb Ymadael) 2020;”;

“ystyr “hawl i breswyllo’n barhaol” (“*right of permanent residence*”) yw, mewn perthynas â pherson (“A”), hawl i breswyllo yn y Deyrnas Unedig yn barhaol heb gyfyngiad sy’n codi o dan reolau mewnfudo’r cynllun preswyllo, ond dim ond pan fyddai A, pe bai’r ffeithiau a oedd yn ymwneud â phenderfynu hawl A i breswyllo yn dod i’w hystyried yn union cyn diwrnod cwblhau’r cyfnod gweithredu, wedi ennill hawl o’r fath o dan Gyfarwyddeb 2004/38 fel yr oedd yn cael effaith yn union cyn diwrnod cwblhau’r cyfnod gweithredu;”;

“mae i “rheolau mewnfudo’r cynllun preswyllo” yr ystyr a roddir i “residence scheme immigration rules” gan adran 17(1)

- o Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Y Cytundeb Ymadael) 2020;”;
  - (b) yn is-baragraffau (4) a (5), ar ôl “diriogaeth sy’n ffurfio’r” mewnosoder “Deyrnas Unedig, Gibraltar, yr” ym mhob lle y mae’n digwydd;
  - (c) yn is-baragraff (6), ar ôl “ardal” mewnosoder “ac eithrio’r Deyrnas Unedig neu Gibraltar”.
- (3) Yn Rhan 2 (categoriâu)—
- (a) ym mharagraff 3 (personau sydd wedi setlo yn y Deyrnas Unedig)—
    - (i) yn lle is-baragraff (a) rhodder—
      - “(a) sydd naill ai—
        - (i) wedi setlo yn y Deyrnas Unedig yn rhinwedd ennill yr hawl i breswyllo’n barhaol; neu
        - (ii) yn dod o fewn Erthygl 18(2) neu (3) o’r cytundeb ymadael â’r UE, Erthygl 17(2) neu (3) o gytundeb gwahanu EFTA yr AEE neu Erthygl 16(2) neu (3) o’r cytundeb ar hawliau dinasyddion Swisaidd, ond dim ond pan fyddai’r person hwnnw wedi ennill yr hawl i breswyllo’n barhaol yn y Deyrnas Unedig heb gyfyngiad o dan Gyfarwyddeb 2004/38 fel yr oedd yn cael effaith yn union cyn diwrnod cwblhau’r cyfnod gweithredu pe bai’r ffeithiau a oedd yn ymwneud â hawl y person hwnnw i breswyllo yn dod i’w hystyried yn union cyn diwrnod cwblhau’r cyfnod gweithredu;”;
      - (ii) yn is-baragraff (d), ar ôl “y diriogaeth sy’n ffurfio’r” mewnosoder “Deyrnas Unedig, Gibraltar, yr”;
  - (b) ym mharagraff 7(1)(c) (gweithwyr, personau cyflogedig, personau hunangyflogedig ac aelodau o’u teuluoedd), ar ôl “y diriogaeth sy’n ffurfio’r” mewnosoder “Deyrnas Unedig, Gibraltar, yr”;
  - (c) ym mharagraff 8 (gweithwyr, personau cyflogedig, personau hunangyflogedig ac aelodau o’u teuluoedd)—
    - (i) ailrifer is-baragraffau (a), (b) ac (c) yn is-baragraff (1)(a), (b) ac (c);
    - (ii) yn is-baragraff (1)(b) fel y’i hailrifwyd felly, ar ôl “y diriogaeth sy’n ffurfio’r” mewnosoder “Deyrnas Unedig, Gibraltar, yr”;
    - (iii) ar ôl is-baragraff (1) fel y’i hailrifwyd felly mewnosoder—

“(2) Mae unrhyw ddisgrifiad o berson a fyddai wedi bod yn gymwys o dan y paragraff hwn yn union cyn diwrnod cwblhau’r cyfnod gweithredu i fod yn gymwys ar ac ar ôl diwrnod cwblhau’r cyfnod gweithredu.”;

(d) ym mharagraff 9 (personau sydd wedi setlo yn y Deyrnas Unedig ac sydd wedi arfer hawl i breswyllo yn rhywle arall)—

(i) yn is-baragraff (1)(b), ar ôl “hawl i breswyllo” mewnosoder “cyn diwrnod cwblhau’r cyfnod gweithredu”;

(ii) yn is-baragraff (1)(d) ac (e), ar ôl “y diriogaeth sy’n ffurfio’r” mewnosoder “Deyrnas Unedig, Gibraltar, yr”;

(iii) yn is-baragraff (2)—

(aa) yn lle “sydd â hawl” rhodder “yr oedd ganddo’r hawl” ym mhob lle y mae’n digwydd;

(bb) yn lle “os yw’n mynd” rhodder “os yw wedi mynd”;

(iv) ar ôl is-baragraff (2) mewnosoder—

“(3) At ddibenion y paragraff hwn, roedd gan berson yr hawl i breswyllo’n barhaol os oedd ganddo hawl a gododd o dan Gyfarwyddeb 2004/38 i breswyllo’n barhaol yn y Deyrnas Unedig heb gyfyngiad.”;

(e) ym mharagraff 10 (gwladolion UE)—

(i) yn lle is-baragraff (1)(a) rhodder—

“(a) sydd, ar ddiwrnod cyntaf blwyddyn academaidd gyntaf y cwrs—

(i) yn wladolyn UE;

(ii) yn wladolyn o’r Deyrnas Unedig sydd wedi arfer hawl i breswyllo; neu

(iii) yn aelod o deulu person yn is-baragraff (i) neu (ii);”;

(ii) yn is-baragraffau (1)(c) a (d) a (2), ar ôl “y diriogaeth sy’n ffurfio’r” mewnosoder “Deyrnas Unedig, Gibraltar, yr”;

(iii) yn is-baragraff (4), ar ôl “os yw’r person hwnnw” mewnosoder “wedi preswyllo yn Gibraltar neu”;

(iv) ar ôl is-baragraff (4) mewnosoder—

“(5) Mae unrhyw ddisgrifiad o berson a fyddai wedi bod yn gymwys o dan y paragraff hwn yn union cyn diwrnod cwblhau’r cyfnod gweithredu i fod yn gymwys ar ac ar ôl diwrnod cwblhau’r cyfnod gweithredu.”;

(f) ym mharagraff 11 (gwladolion UE)—

(i) yn is-baragraff (1)(a), hepgorer “ac eithrio gwladolyn o’r Deyrnas Unedig”;

- (ii) yn is-baragraff (1)(d), ar ôl “y diriogaeth sy’n ffurfio’r” mewnosoder “Deyrnas Unedig, Gibraltar, yr”;
- (iii) yn is-baragraff (2), hepgorer “ac eithrio gwladolyn o’r Deyrnas Unedig”;
- (g) yn lle paragraff 12 (plant gwladolion Swisaidd) rhodder—

“12.—(1) Person—

- (a) sy’n blentyn i wladolyn Swisaidd y mae ganddo hawlogaeth i gael cymorth yn y Deyrnas Unedig yn rhinwedd Erthygl 3(6) o Atodiad 1 i Gytundeb y Swistir;
- (b) sy’n preswyllo fel arfer yng Nghymru ar ddiwrnod cyntaf blwyddyn academiaidd gyntaf y cwrs;
- (c) sydd wedi bod yn preswyllo fel arfer yn y diriogaeth sy’n ffurfio’r Deyrnas Unedig, Gibraltar, yr Ardal Economaidd Ewropeaidd a’r Swistir drwy gydol y cyfnod o dair blynedd cyn diwrnod cyntaf blwyddyn academiaidd gyntaf y cwrs;
- (d) mewn achos pan oedd ei breswyllo fel arfer, y cyfeirir ato ym mharagraff (c), yn gyfan gwbl neu’n bennaf at ddiben cael addysg lawnamser, a oedd yn preswyllo fel arfer yn y diriogaeth sy’n ffurfio’r Deyrnas Unedig, Gibraltar, yr Ardal Economaidd Ewropeaidd a’r Swistir yn union cyn y cyfnod o breswyllo fel arfer y cyfeirir ato ym mharagraff (c).

(2) Mae unrhyw ddisgrifiad o berson a fyddai wedi bod yn gymwys o dan y paragraff hwn yn union cyn diwrnod cwblhau’r cyfnod gweithredu i fod yn gymwys ar ac ar ôl diwrnod cwblhau’r cyfnod gweithredu.”;

- (h) ym mharagraff 13(c) (plant gweithwyr Twrcaidd), ar ôl “y diriogaeth sy’n ffurfio’r” mewnosoder “Deyrnas Unedig, Gibraltar, yr”.

**Diwygiadau i Reoliadau Addysg (Cymorth i Fyfyrrwyr) (Graddau Meistr Ôl-raddedig) (Cymru) 2019**

38. Mae Rheoliadau Addysg (Cymorth i Fyfyrrwyr) (Graddau Meistr Ôl-raddedig) (Cymru) 2019(1) wedi eu diwygio fel a ganlyn.

---

(1) O.S. 2019/895 (Cy. 161), a ddiwygiwyd gan O.S. 2020/142 (Cy. 25).

### Diwygiadau i reoliad 16

39. Yn rheoliad 16(1)(b) (myfyrwyr sy'n dod yn gymwys yn ystod cwrs)—

- (a) ym mharagraff (iii), ar ôl “gwladolyn UE” mewnosoder “neu berson sy'n gymwys o dan baragraff 8(1) o Atodlen 2 yn rhinwedd paragraff 8(1A) o'r Atodlen honno ac eithrio fel aelod o'r teulu”;
- (b) yn lle paragraff (iv) rhodder—
  - “(iv) bod y myfyriwr yn dod yn berson a ddisgrifir ym mharagraff 1(2)(a) o Atodlen 2;”.

### Diwygiadau i Atodlen 2

40.—(1) Mae Atodlen 2 (categoriâu o fyfyrwyr cymwys) wedi ei diwygio fel a ganlyn.

(2) Ym mharagraff 1(2) (categori 1 – personau sydd wedi setlo yn y Deyrnas Unedig)—

- (a) yn lle paragraff (a) rhodder—
  - “(a) sydd naill ai—
    - (i) wedi setlo yn y Deyrnas Unedig yn rhinwedd ennill yr hawl i breswyllo'n barhaol, neu
    - (ii) yn dod o fewn Erthygl 18(2) neu (3) o'r cytundeb ymadael â'r UE, Erthygl 17(2) neu (3) o gytundeb gwahanu EFTA yr AEE neu Erthygl 16(2) neu (3) o'r cytundeb ar hawliau dinasyddion Swisaidd, ond dim ond pan fyddai'r person hwnnw wedi ennill yr hawl i breswyllo'n barhaol yn y Deyrnas Unedig heb gyfyngiad o dan Gyfarwyddeb 2004/38 fel yr oedd yn cael effaith yn union cyn diwrnod cwblhau'r cyfnod gweithredu pe bai'r ffeithiau a oedd yn ymwneud â hawl y person hwnnw i breswyllo yn dod i'w hystyried yn union cyn diwrnod cwblhau'r cyfnod gweithredu,”;
- (b) ym mharagraff (d), ar ôl “y diriogaeth sy'n ffurfio'r” mewnosoder “Deyrnas Unedig, Gibraltar, yr”.

(3) Ym mharagraff 6 (categori 6 – gweithwyr, personau cyflogedig, personau hunangyflogedig ac aelodau o'u teuluoedd)—

- (a) yn is-baragraffau (1)(b) a (2)(b), ar ôl “y diriogaeth sy'n ffurfio'r” mewnosoder “Deyrnas Unedig, Gibraltar, yr”;
- (b) ar ôl is-baragraff (2) mewnosoder—

“(2A) Mae unrhyw ddisgrifiad o berson a fyddai wedi bod yn gymwys o dan is-baragraff (2) yn union cyn diwrnod cwblhau'r cyfnod gweithredu i fod yn gymwys ar ac ar ôl diwrnod cwblhau'r cyfnod gweithredu.”;

(c) yn is-baragraffau (3) a (4), hepgorer “ac eithrio'r Deyrnas Unedig” ym mhob lle y mae'n digwydd.

(4) Ym mharagraff 7 (categori 7 – personau sydd wedi setlo yn y Deyrnas Unedig ac sydd wedi arfer hawl i breswyllo yn rhywle arall)—

(a) yn is-baragraff (1)(b), ar ôl “hawl i breswyllo” mewnosoder “cyn diwrnod cwblhau'r cyfnod gweithredu”;

(b) yn is-baragraff (1)(d) ac (e), ar ôl “y diriogaeth sy'n ffurfio'r” mewnosoder “Deyrnas Unedig, Gibraltar, yr”;

(c) yn is-baragraff (3)(c), yn lle “sydd wedi arfer hawl i breswyllo'n barhaol” rhodder “yr oedd ganddo'r hawl i breswyllo'n barhaol”;

(d) yn is-baragraff (4)—

(i) ym mharagraff (a), yn lle “a chanddo hawl” rhodder “ac yr oedd ganddo'r hawl”;

(ii) ym mharagraff (b), yn lle “sy'n mynd” rhodder “sydd wedi mynd”;

(e) ar ôl is-baragraff (5) mewnosoder—

“(6) At ddibenion y paragraff hwn, roedd gan berson yr hawl i breswyllo'n barhaol os oedd ganddo hawl a gododd o dan Gyfarwyddeb 2004/38 i breswyllo'n barhaol yn y Deyrnas Unedig heb gyfyngiad.”

(5) Ym mharagraff 8 (categori 8 – gwladolion UE)—

(a) yn lle is-baragraff (1)(a) rhodder—

“(a) sydd, ar ddiwrnod cyntaf blwyddyn academaidd gyntaf y cwrs—

(i) yn wladolyn UE,

(ii) yn wladolyn o'r Deyrnas Unedig sydd wedi arfer hawl i breswyllo, neu

(iii) yn aelod o deulu person yn is-baragraff (i) neu (ii),”;

(b) yn is-baragraff (1)(c) a (d), ar ôl “y diriogaeth sy'n ffurfio'r” mewnosoder “Deyrnas Unedig, Gibraltar, yr”;

(c) ar ôl is-baragraff (1) mewnosoder—

“(1A) Mae unrhyw ddisgrifiad o berson a fyddai wedi bod yn gymwys o dan is-baragraff (1) yn union cyn diwrnod cwblhau'r cyfnod

gweithredu i fod yn gymwys ar ac ar ôl diwrnod cwblhau'r cyfnod gweithredu.”;

- (d) yn is-baragraff (2)(a), hepgorer “ac eithrio gwladolyn o'r Deyrnas Unedig”;
- (e) yn is-baragraff (2)(d), ar ôl “y diriogaeth sy'n ffurfio'r” mewnosoder “Deyrnas Unedig, Gibraltar, yr”;
- (f) yn lle is-baragraff (4) rhodder—

“(4) At ddibenion is-baragraff (1)(a), mae gwladolyn o'r Deyrnas Unedig wedi arfer hawl i breswyllo os yw'r person hwnnw wedi preswyllo yn Gibraltar neu wedi arfer hawl o dan Erthygl 7 o Gyfarwyddeb 2004/38 neu unrhyw hawl gyfatebol o dan Gytundeb yr AEE neu Gytundeb y Swistir mewn gwladwriaeth ac eithrio'r Deyrnas Unedig.”

(6) Yn lle paragraff 9 (categori 9 – plant gwladolion Swisaidd) rhodder—

**“Categori 9 – Plant gwladolion Swisaidd**

**9.—(1) Person—**

- (a) sy'n blentyn i wladolyn Swisaidd y mae ganddo hawlogaeth i gael cymorth yn y Deyrnas Unedig yn rhinwedd Erthygl 3(6) o Atodiad 1 i Gytundeb y Swistir,
- (b) sy'n preswyllo fel arfer yng Nghymru ar ddiwrnod cyntaf blwyddyn academiaidd gyntaf y cwrs,
- (c) sydd wedi bod yn preswyllo fel arfer yn y diriogaeth sy'n ffurfio'r Deyrnas Unedig, Gibraltar, yr AEE a'r Swistir drwy gydol y cyfnod o dair blynedd cyn diwrnod cyntaf blwyddyn academiaidd gyntaf y cwrs, a
- (d) mewn achos pan oedd ei breswyllo fel arfer, y cyfeirir ato ym mharagraff (c), yn gyfan gwbl neu'n bennaf at ddiben cael addysg lawnamser, a oedd yn preswyllo fel arfer yn y diriogaeth sy'n ffurfio'r Deyrnas Unedig, Gibraltar, yr AEE a'r Swistir yn union cyn y cyfnod o breswyllo fel arfer y cyfeirir ato ym mharagraff (c).

(2) Mae unrhyw ddisgrifiad o berson a fyddai wedi bod yn gymwys o dan y paragraff hwn yn union cyn diwrnod cwblhau'r cyfnod gweithredu i fod yn gymwys ar ac ar ôl diwrnod cwblhau'r cyfnod gweithredu.”

(7) Ym mharagraff 10(1)(c) (categori 10 – plant gweithwyr Twrcaidd), ar ôl “y diriogaeth sy'n ffurfio'r” mewnosoder “Deyrnas Unedig, Gibraltar, yr”.



(8) Ym mharagraff 11 (preswyllo fel arfer – darpariaeth ychwanegol)—

- (a) ar ôl “dirioogaeth sy’n ffurfio’r” mewnosoder “Deyrnas Unedig, Gibraltar, yr” ym mhob lle y mae’n digwydd;
- (b) yn is-baragraff (5), ar ôl “ardal” mewnosoder “ac eithrio’r Deyrnas Unedig neu Gibraltar”.

(9) Ym mharagraff 13 (dehongli)—

- (a) yn y lle priodol mewnosoder—

“mae i “cytundeb ar hawliau dinasyddion Swisaidd” yr ystyr a roddir i “Swiss citizens’ rights agreement” gan adran 39(1) o Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Y Cytundeb Ymadael) 2020;”;

“mae i “cytundeb gwahanu EFTA yr AEE” yr ystyr a roddir i “EEA EFTA separation agreement” gan adran 39(1) o Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Y Cytundeb Ymadael) 2020;”;

“mae i “rheolau mewnfudo’r cynllun preswyllo” yr ystyr a roddir i “residence scheme immigration rules” gan adran 17(1) o Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Y Cytundeb Ymadael) 2020;”;

- (b) yn lle’r diffiniad o “hawl i breswyllo’n barhaol” rhodder—

“ystyr “hawl i breswyllo’n barhaol” (“*right of permanent residence*”) yw, mewn perthynas â pherson (“A”), hawl i breswyllo yn y Deyrnas Unedig yn barhaol heb gyfyngiad sy’n codi o dan reolau mewnfudo’r cynllun preswyllo, ond dim ond pan fyddai A, pe bai’r ffeithiau a oedd yn ymwneud â phenderfynu hawl A i breswyllo yn dod i’w hystyried yn union cyn diwrnod cwblhau’r cyfnod gweithredu, wedi ennill hawl o’r fath o dan Gyfarwyddeb 2004/38 fel yr oedd yn cael effaith yn union cyn diwrnod cwblhau’r cyfnod gweithredu;”.

### Diwygiadau i Atodlen 3

41.—(1) Mae Atodlen 3 (cyfrifo incwm) wedi ei diwygio fel a ganlyn.

(2) Ym mharagraff 4(1) (myfyrwyr cymwys annibynnol), yn Achos 6, o flaen “Undeb Ewropeaidd” mewnosoder “Deyrnas Unedig, Gibraltar a’r”.

(3) Ym mharagraff 9 (incwm trethadwy)—

- (a) yn is-baragraff (1)(b), yn lle “Aelod-wladwriaeth arall” rhodder “Aelod-wladwriaeth”;
- (b) yn lle is-baragraff (2) rhodder—

“(2) At ddibenion is-baragraff (1)(b), pan fo deddfwriaeth treth incwm—

(a) y Deyrnas Unedig ac un neu ragor o Aelod-wladwriaethau, neu

(b) mwy nag un Aelod-wladwriaeth,

yn gymwys i'r person mewn cysylltiad â'r flwyddyn sydd o dan ystyriaeth, cyfanswm incwm y person o bob ffynhonnell yw'r swm sy'n deillio o'r penderfyniad sy'n arwain at swm mwyaf cyfanswm yr incwm, gan gynnwys unrhyw incwm y mae'n ofynnol ei ystyried o dan baragraff 18.”

(4) Yn y paragraffau a ganlyn, yn lle “Aelod-wladwriaeth arall” rhodder “Aelod-wladwriaeth”—

- (a) paragraff 11 (didyniadau at ddiben cyfrifo incwm gweddilliol myfyriwr cymwys), Didyniad B;
- (b) paragraff 15 (didyniadau at ddiben cyfrifo incwm gweddilliol personau ac eithrio myfyriwr cymwys), Didyniad A;
- (c) paragraff 18 (trin incwm nas trinnir fel incwm at ddibenion treth incwm), ym mhob lle y mae'n digwydd;
- (d) paragraff 19(1) (incwm P mewn arian cyfred ac eithrio sterling).

*Kirsty Williams*

Y Gweinidog Addysg, un o Weinidogion Cymru  
17 Tachwedd 2020

**Explanatory Memorandum to the Education (Student Finance)  
(Miscellaneous Amendments) (Wales) (EU Exit) Regulations 2020**

This Explanatory Memorandum has been prepared by Higher Education Division and is laid before Senedd Cymru in conjunction with the above subordinate legislation and in accordance with Standing Order 27.1.

**Minister's Declaration**

In my view, this Explanatory Memorandum gives a fair and reasonable view of the expected impact of the Education (Student Finance) (Miscellaneous Amendments) (Wales) (EU Exit) Regulations 2020.

Kirsty Williams  
Minister for Education  
18 November 2020

## **PART 1**

### **1. Description**

The Education (Student Finance) (Miscellaneous Amendments) (Wales) (EU Exit) Regulations 2020 (“the Regulations”) revoke and replace the Education (Student Finance) (Miscellaneous Amendments) (Wales) (EU Exit) Regulations 2019 and the Education (Student Support) (Postgraduate Master’s Degrees) (Wales) (Amendment) (EU Exit) Regulations 2019.

The 2020 Regulations will make amendments to the following regulations:

- the Education (Fees and Awards) (Wales) Regulations 2007
- the Education (European University Institute) (Wales) Regulations 2014
- the Higher Education (Qualifying Courses, Qualifying Persons and Supplementary Provisions) (Wales) Regulations 2015
- the Education (Student Support) (Wales) Regulations 2017
- the Education (Postgraduate Masters’ Degrees Loans) (Wales) Regulations 2017
- the Education (Student Support) (Wales) Regulations 2018
- the Education (Postgraduate Doctoral Degree Loans) (Wales) Regulations 2018
- the Education (Student Support) (Postgraduate Masters’ Degrees) (Wales) Regulations 2019.

### **2. Matters of special interest to the Legislation, Justice and Constitution Committee**

None.

### **3. Legislative background**

The Regulations will be subject to the negative procedure and made using powers under 1 and 2 of the Education (Fees and Awards) Act 1983, sections 22, and 42(6) and 43(1) of the Teaching and Higher Education Act 1998 and sections 5(5)(b) and 55(2) of the Higher Education (Wales) Act 2015

The functions of the Secretary of State in section 1 of the 1983 Act were transferred to the National Assembly for Wales, so far as exercisable in relation to Wales, by National Assembly for Wales (Transfer of Functions) Order 2006 (S.I. 2006/1458) with effect from 8 June 2006. The functions of the Secretary of

State in section 2 of the 1983 Act were transferred to the National Assembly for Wales, so far as exercisable in relation to Wales, by National Assembly for Wales (Transfer of Functions) Order 1999 (S.I. 1999/672). The Secretary of State's functions in section 22(2)(2)(a) of the 1998 Act were transferred to the National Assembly for Wales so far as they relate to making provision in relation to Wales by section 44 of the Higher Education Act 2004 (c. 8) and are exercisable concurrently with the Secretary of State. The Secretary of State's functions in section 42 was transferred, in so far as exercisable in relation to Wales, to the National Assembly for Wales by S.I. 1999/672. All the above functions of the National Assembly for Wales were transferred to the Welsh Ministers by virtue of paragraph 30 of Schedule 11 to the Government of Wales Act 2006 (c. 32).

#### **4. Purpose and intended effect of the legislation**

The purpose of the 2020 Regulations is to ensure that existing student finance policy is continued for AY 2020/21 and is not adversely affected by IP completion day. The 2020 Regulations will therefore replicate the provisions in the 2019 Regulations. In addition, the 2020 Regulations will ensure EU nationals, and other groups who are settled under the EUSS, or who are to be treated as such under provisions of the Withdrawal Agreement, the EEA separation agreement and the Swiss citizens' rights agreement are able to access the same support and home fee status as they would have been able to before IP completion day.

The 2020 Regulations will also amend the provisions which relate to the eligibility for student support of those settled in the UK but who exercise a right of residence elsewhere in the EU after IP completion day and then return to the UK and start a course before 1 August 2021. Due to UK nationals no longer being able to exercise this right of residence IP completion day, were the regulations not amended, EU nationals would receive a more favourable treatment than UK nationals. An amendment will ensure that they receive equal treatment.

#### **5. Consultation**

Consultation was not undertaken as the purpose of the Regulations is largely to make technical amendments necessary to preserve existing policy.

#### **6. Regulatory Impact Assessment (RIA)**

An RIA has not been conducted. The Regulations make largely technical amendments that are necessary to preserve existing policy.

## **SL(5)678 – Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 21) 2020**

### **Cefndir a Diben**

Mae'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol yn gosod gofynion ar bersonau sy'n dod i Gymru ar ôl bod dramor. Maent yn cynnwys gofyniad i bersonau sy'n cyrraedd Cymru ynysu am gyfnod i'w bennu yn unol â'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol.

Mae gofynion y Rheoliadau Teithio Rhyngwladol yn ddarostyngedig i eithriadau, ac mae categorïau penodol o bersonau wedi eu hesemptio rhag gorfod cydymffurfio.

Nid yw'n ofynnol i bersonau sy'n dod i Gymru ynysu ar ôl bod mewn un neu ragor o'r gwledydd a'r thiriogaethau a restrir yn Atodlen 3 i'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol ("gwledydd a thiriogaethau esempt"). Mae Rhan 2 o'r Rheoliadau hyn yn diwygio'r rhestr o wledydd a thiriogaethau esempt.

Mae Rheoliad 2 yn diwygio'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol i ddileu'r cofnodion ar gyfer Estonia a Latfia.

Mae Rheoliad 4 yn diwygio'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol i ychwanegu Aruba, Gweriniaeth Ddemocrataidd Timor-Leste, Gwladwriaethau Ffederal Micronesia, Gwladwriaeth Annibynnol Samoa, Teyrnas Bhutan, Teyrnas Tonga, Mongolia, Gweriniaeth Kiribati, Gweriniaeth Vanuatu ac Ynysoedd Solomon i'r rhestr o wledydd a thiriogaethau esempt.

Mae'r Rheoliadau hyn hefyd yn codi'r cyfyngiadau penodol a osodwyd ar deithwyr o Ddenmarc ac aelodau o'u haelwyd. Mae'r Rheoliadau hefyd yn codi'r gwaharddiad ar awyrennau a llongau yn cyrraedd yn uniongyrchol o Ddenmarc. Fodd bynnag, ni fydd Denmarc yn cael ei chynnwys ar y rhestr o wledydd esempt. Felly, bydd yn ofynnol o hyd i deithwyr o Ddenmarc ynysu wrth gyrraedd Cymru.

Mae'r Rheoliadau hefyd yn ychwanegu digwyddiadau chwaraeon at Atodlen 4 i'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol, sy'n golygu nad oes rhaid i'r rhai sy'n ymwneud â digwyddiadau chwaraeon o'r fath ynysu pan fyddant, er enghraifft, yn cystadlu mewn digwyddiad chwaraeon a restrir yn Atodlen 4.

Daeth y Rheoliadau hyn i rym am 4.00 am ar 28 Tachwedd 2020.

### **Gweithdrefn**

Negyddol

Gwnaed y Rheoliadau gan Weinidogion Cymru cyn iddynt gael eu gosod gerbron y Senedd. Gall y Senedd ddirymu'r Rheoliadau o fewn 40 diwrnod (ac eithrio unrhyw ddiwrnodau pan



fo'r Senedd: (i) wedi'i diddymu neu (ii) ar doriad am fwy na phedwar diwrnod) i'r dyddiad y cawsant eu gosod gerbron y Senedd.

## Materion technegol: craffu

Nodir un pwynt i gyflwyno adroddiad arno o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

### **1. Rheol Sefydlog 21.2(vii) – ei bod yn ymddangos bod anghysondebau rhwng ystyr testun Cymraeg a thestun Saesneg yr offeryn neu'r drafft.**

Yn rheoliad 8(2) (a) o'r testun Cymraeg, dylid gwneud y diwygiad yn "is-baragraff (e)", nid "is-baragraff (c)".

## Rhinweddau: craffu

Nodwyd y tri phwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

### **1. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd.**

Nodwn y torrir y rheol 21 diwrnod (h.y. y rheol y dylai 21 diwrnod fod rhwng y dyddiad y gosodir offeryn "gwneud negyddol" gerbron y Senedd a'r dyddiad y daw'r offeryn i rym), a'r esboniad am dorri'r rheol a ddarparwyd gan Rebecca Evans AS, y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd, mewn [llythyr](#) at y Llywydd, dyddiedig 27 Tachwedd 2020.

Yn benodol, nodwn y canlynol yn y llythyr:

*"Mae peidio â chadw at y confensiwn 21 diwrnod yn galluogi'r Rheoliadau hyn i ddod i rym cyn gynted â phosibl, ac o ystyried newid yn y dystiolaeth ynghylch risg mewn cysylltiad â'r clefyd hwn, ystyrir bod hyn yn angenrheidiol ac yn gyfiawn yn yr achos hwn."*

### **2. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd.**

Rydym yn nodi cyfiawnhad Llywodraeth Cymru dros unrhyw ymyrraeth bosibl â hawliau dynol. Yn benodol, nodwn y paragraff a ganlyn yn y Memorandwm Esboniadol:

*"Nid yw'r diwygiadau yn y Rheoliadau hyn yn newid y ffaith fod hawliau unigol o dan Ddeddf Hawliau Dynol 1998 a Siarter Hawliau Sylfaenol Ewrop yn gysylltiedig â'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol; mae'r Llywodraeth o'r farn eu bod yn gymesur a hefyd yn gyfiawn at ddiben atal lledaeniad haint a/neu y caniateir ymyriad ar y sail ei fod yn anelu at gyflawni nod dilys, sef diogelu iechyd y cyhoedd."*

### **3. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd.**



Nodwn na fu unrhyw ymgynghori ffurfiol ar y Rheoliadau hyn. Yn benodol, nodwn y paragraffau a ganlyn yn y Memorandwm Esboniadol:

*"Oherwydd y bygythiad difrifol ac uniongyrchol sy'n deillio o'r coronafeirws a'r angen am ymateb iechyd y cyhoedd brys, ni chynhaliwyd unrhyw ymgynghoriad cyhoeddus mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn."*

## Y goblygiadau yn sgil ymadael â'r Undeb Ewropeaidd

Dim.

## Ymateb Llywodraeth Cymru

Nid oes angen ymateb gan Lywodraeth Cymru.

### Cynghorwyr Cyfreithiol

### Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

### 2 Rhagfyr 2020





---

OFFERYNNAU STATUDOL  
CYMRU

---

**2020 Rhif 1362 (Cy. 301)**

**IECHYD Y CYHOEDD,  
CYMRU**

Rheoliadau Diogelu Iechyd  
(Coronafeirws, Teithio  
Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio)  
(Rhif 21) 2020

**NODYN ESBONIADOL**

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) 2020 (O.S. 2020/574 (Cy. 132)) (y "Rheoliadau Teithio Rhyngwladol"). Diwygiwyd y Rheoliadau Teithio Rhyngwladol yn flaenorol gan:

- Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Gwybodaeth Iechyd y Cyhoedd ar gyfer Personau sy'n Teithio i Gymru etc.) 2020 (O.S. 2020/595) (Cy. 136);
- Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol a Gwybodaeth Iechyd y Cyhoedd i Deithwyr) (Cymru) (Diwygio) 2020 (O.S. 2020/714) (Cy. 160);
- Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) 2020 (O.S. 2020/726) (Cy. 163);
- Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 2) 2020 (O.S. 2020/804) (Cy. 177);
- Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 3) 2020 (O.S. 2020/817) (Cy. 179);
- Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 4) 2020 (O.S. 2020/840) (Cy. 185);
- Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 5) 2020 (O.S. 2020/868) (Cy. 190);

- Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 6) 2020 (O.S. 2020/886) (Cy. 196);
- Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 7) 2020 (O.S. 2020/917) (Cy. 205);
- Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 8) 2020 (O.S. 2020/944) (Cy. 210);
- Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 9) 2020 (O.S. 2020/962) (Cy. 216);
- Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 10) 2020 (O.S. 2020/981) (Cy. 220);
- Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 11) 2020 (O.S. 2020/1015) (Cy. 226);
- Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 12) 2020 (O.S. 2020/1042) (Cy. 231);
- Gorchymyn Trosglwyddo Swyddogaethau (Yr Ysgrifennydd Gwladol dros Faterion Tramor, Materion y Gymanwlad a Materion Datblygu) 2020 (O.S. 2020/942);
- Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 13) 2020 (O.S. 2020/1080) (Cy. 243);
- Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 14) 2020 (O.S. 2020/1098) (Cy. 249);
- Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 15) 2020 (O.S. 2020/1133) (Cy. 258);
- Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 16) 2020 (O.S. 2020/1165) (Cy. 263);
- Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 17) 2020 (O.S. 2020/1191) (Cy. 269);
- Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 18) 2020 (O.S. 2020/1223) (Cy. 277);
- Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 19) 2020 (O.S. 2020/1232) (Cy. 278);
- Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol a Chyfyngiadau) (Diwygio) (Cymru) 2020 (O.S. 2020/1237) (Cy. 279);

- Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol a Chyfyngiadau) (Diwygio) (Rhif 2) (Cymru) 2020 (O.S. 2020/1288) (Cy. 286);
- Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 20) 2020 (O.S. 2020/1329) (Cy. 295).

Mae'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol yn gosod gofynion ar bersonau sy'n dod i Gymru ar ôl bod dramor. Maent yn cynnwys gofyniad i bersonau sy'n cyrraedd Cymru ynysu am gyfnod i'w bennu yn unol â'r Rheoliadau hynny.

Mae gofynion y Rheoliadau Teithio Rhyngwladol yn ddarostyngedig i eithriadau, ac mae categorïau penodol o bersonau wedi eu hesemptio rhag gorfod cydymffurfio.

Nid yw'n ofynnol i bersonau sy'n dod i Gymru ynysu ar ôl bod mewn un neu ragor o'r gwledydd a'r tiriogaethau a restrir yn Atodlen 3 i'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol. Cyfeirir at y gwledydd a'r tiriogaethau a restrir yn Atodlen 3 fel "gwledydd a thiriogaethau esempt".

Mae Rhan 2 o'r Rheoliadau hyn yn diwygio'r rhestr o wledydd a thiriogaethau esempt. Mae rheoliad 2 yn diwygio'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol er mwyn hepgor y cofnodion ar gyfer Estonia a Latfia. Mae rheoliad 4 yn diwygio'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol er mwyn ychwanegu Aruba, Gweriniaeth Ddemocrataidd Timor-Leste, Gweriniaeth Kiribati, Gweriniaeth Vanuatu, Gwladwriaeth Annibynnol Samoa, Gwladwriaethau Ffederal Micronesia, Mongolia, Teyrnas Bhutan, Teyrnas Tonga ac Ynysoedd Solomon at y rhestr o wledydd a thiriogaethau esempt.

Mae rheoliadau 3 a 5 o'r Rheoliadau hyn yn gwneud darpariaeth drosiannol mewn cysylltiad â'r newid yn statws y gwledydd a'r tiriogaethau hyn. Mae'r ddarpariaeth drosiannol yn ymdrin â maes a all fod yn destun amheuaeth o ran effaith y diwygiadau a wneir gan reoliadau 2 a 4 o'r Rheoliadau hyn ar weithredu'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol.

Mae Rhan 3 o'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rhan 3 ac yn hepgor Rhan 3A o'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol ac yn gwneud diwygiad canlyniadol i reoliad 14 yn Rhan 4 o'r Rheoliadau hynny.

Mae rheoliad 6 yn diwygio Rhan 3 o'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol. Yn gyntaf, mae'n gwneud diwygiad technegol i reoliad 9 o'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol er mwyn cynnwys cyfeiriad at baragraff 39 o Atodlen 2 i'r Rheoliadau hynny. Yn ail, mae'n hepgor rheoliad 12A o'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol sy'n gosod rheolau arbennig ar unrhyw

berson sy'n teithio o Ddenmarc ac aelodau o aelwyd y person hwnnw. Mae rheoliad 7 yn gwneud darpariaeth arbed mewn cysylltiad â hepgor rheoliad 12A o'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol. Mae'r ddarpariaeth arbed yn ymdrin â maes a all fod yn destun amheuaeth o ran effaith y diwygiadau a wneir gan reoliad 6(3) o'r Rheoliadau hyn ar weithredu'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol.

Mae rheoliad 8 yn hepgor Rhan 3A o'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol sy'n gwahardd awyrennau a llestrau sy'n teithio'n uniongyrchol o Ddenmarc rhag cyrraedd Cymru. Mae hefyd yn gwneud diwygiad canlyniadol i reoliad 14 yn Rhan 4 o'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol i hepgor y drosedd a gyflawnir drwy dorri gofynion rheoliad 12B(1) yn Rhan 3A o'r Rheoliadau hynny.

Nid yw Denmarc wedi ei chynnwys yn y rhestr o wledydd a thiriogaethau esempt yn Atodlen 3 i'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol. Felly, bydd yn dal yn ofynnol i deithwyr o Ddenmarc ynysu yn unol â'r Rheoliadau hynny.

Mae Rhan 4 o'r Rheoliadau hyn – yn rheoliad 9 – yn diwygio paragraff 13 o Atodlen 2 i'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol er mwyn pennu y caiff Gweinidogion Cymru ddynodi bod gwaith yn “gwaith llywodraeth hanfodol” at ddibenion yr esemptiad i'r gofyniad i ynysu sydd yn y paragraff hwnnw.

Mae Rhan 5 o'r Rheoliadau hyn – yn rheoliad 10 – yn diwygio'r rhestr o ddigwyddiadau chwaraeon yn Atodlen 4 i'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol.

Caniateir i berson sy'n ddarostyngedig i ofyniad i ynysu a osodir gan y Rheoliadau Teithio Rhyngwladol adael y man lle y mae'r person yn ynysu am nifer cyfyngedig o resymau. Nodir yr eithriadau hyn i'r gofyniad i ynysu yn rheoliad 10 o'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol, ac maent yn cynnwys eithriad sy'n caniatáu i berson gymryd rhan mewn digwyddiad chwaraeon a restrir.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, ni luniwyd asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn.

---

OFFERYNNAU STATUDOL  
CYMRU

---

**2020 Rhif 1362 (Cy. 301)**

**IECHYD Y CYHOEDD,  
CYMRU**

Rheoliadau Diogelu Iechyd  
(Coronafeirws, Teithio  
Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio)  
(Rhif 21) 2020

*Gwnaed am 2.14 p.m. ar 27 Tachwedd 2020*

*Gosodwyd gerbron Senedd  
Cymru ar 5.00 p.m. ar 27 Tachwedd 2020*

*Yn dod i rym am 4.00 a.m. ar 28 Tachwedd  
2020*

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adrannau 45B a 45P(2) o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984(1), yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn.

**RHAN 1**

**Cyffredinol**

**Enwi, dod i rym a dehongli**

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 21) 2020.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym am 4.00 a.m. ar 28 Tachwedd 2020.

---

(1) 1984 p. 22. Mewnosodwyd Rhan 2A gan adran 129 o Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2008 (p. 14). Mae'r swyddogaeth o wneud rheoliadau o dan Ran 2A wedi ei rhoi i "the appropriate Minister". O dan adran 45T(6) o Ddeddf 1984 y Gweinidog priodol, o ran Cymru, yw Gweinidogion Cymru.

(3) Yn y Rheoliadau hyn, ystyr y “Rheoliadau Teithio Rhyngwladol” yw Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) 2020(1).

## RHAN 2

Diwygiadau i’r rhestr o wledydd a thiriogaethau esempt yn Atodlen 3 i’r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol

### **Hepgor gwledydd o’r rhestr o wledydd a thiriogaethau esempt**

2. Yn Rhan 1 o Atodlen 3 i’r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol (gwledydd a thiriogaethau esempt y tu allan i’r ardal deithio gyffredin), hepgorer y cofnodion a ganlyn—

“Estonia”

“Latfia”.

### **Darpariaeth drosiannol mewn cysylltiad â rheoliad 2**

3.—(1) Mae paragraff (2) yn gymwys pan fo person (“P”)—

- (a) yn cyrraedd Cymru am 4:00 a.m. ar 28 Tachwedd 2020 neu wedi hynny, a
- (b) wedi bod mewn gwlad a restrir yn rheoliad 2 ddiwethaf—
  - (i) o fewn y cyfnod o 14 o ddiwrnodau sy’n dod i ben â’r diwrnod y mae P yn cyrraedd Cymru, a
  - (ii) cyn 4.00 a.m. ar 28 Tachwedd 2020.

(2) Mae P, yn rhinwedd y ffaith iddo fod mewn gwlad a restrir yn rheoliad 2, i’w drin at ddibenion rheoliadau 7(1) ac 8(1) o’r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol fel pe bai wedi cyrraedd Cymru o wlad neu diriogaeth nad yw’n esempt, neu fel pe bai wedi cyrraedd ar ôl bod mewn gwlad neu diriogaeth o’r fath.

---

(1) O.S. 2020/574 (Cy. 132), fel y’i diwygiwyd gan O.S. 2020/595 (Cy. 136), O.S. 2020/714 (Cy. 160), O.S. 2020/726 (Cy. 163), O.S. 2020/804 (Cy. 177), O.S. 2020/817 (Cy. 179), O.S. 2020/840 (Cy. 185), O.S. 2020/868 (Cy. 190), O.S. 2020/886 (Cy. 196), O.S. 2020/917 (Cy. 205), O.S. 2020/942, O.S. 2020/944 (Cy. 210), O.S. 2020/962 (Cy. 216), O.S. 2020/981 (Cy. 220), O.S. 2020/1015 (Cy. 226), O.S. 2020/1042 (Cy. 231), O.S. 2020/1080 (Cy. 243), O.S. 2020/1098 (Cy. 249), O.S. 2020/1133 (Cy. 258), O.S. 2020/1165 (Cy. 263), O.S. 2020/1191 (Cy. 269), O.S. 2020/1223 (Cy. 277), O.S. 2020/1232 (Cy. 278), O.S. 2020/1237 (Cy. 279), O.S. 2020/1288 (Cy. 286) ac O.S. 2020/1329 (Cy. 295).

## **Ychwanegiadau at y rhestr o wledydd a thiriogaethau esempt**

4. Yn Rhan 1 o Atodlen 3 i'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol (gwledydd a thiriogaethau esempt y tu allan i'r ardal deithio gyffredin), yn y lle priodol mewnosoder—

- “Aruba”
- “Gweriniaeth Ddemocrataidd Timor-Leste”
- “Gweriniaeth Kiribati”
- “Gweriniaeth Vanuatu”
- “Gwladwriaeth Annibynnol Samoa”
- “Gwladwriaethau Ffederal Micronesia”
- “Mongolia”
- “Teyrnas Bhutan”
- “Teyrnas Tonga”
- “Ynysoedd Solomon”.

## **Darpariaeth drosiannol mewn cysylltiad â rheoliad 4**

5.—(1) Mae paragraff (2) yn gymwys pan, yn union cyn 4.00 a.m. ar 28 Tachwedd 2020—

- (a) oedd person (“P”) yn ddarostyngedig i ofyniad i ynysu yn rhinwedd y ffaith iddo gyrraedd Cymru o wlad neu diriogaeth a restrir yn rheoliad 4, neu ar ôl bod mewn gwlad neu diriogaeth o'r fath, a
- (b) diwrnod olaf ynysiad P yw 28 Tachwedd 2020 neu ddiwrnod ar ôl y diwrnod hwnnw.

(2) Nid yw ychwanegu'r gwledydd a'r tiriogaethau a restrir yn rheoliad 4 at Ran 1 o Atodlen 3 i'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol yn effeithio ar y gofyniad i ynysu fel y mae'n gymwys i P, nac ar y modd y pennir diwrnod olaf ynysiad P o dan y Rheoliadau Teithio Rhyngwladol.

(3) Mae paragraff (4) yn gymwys pan fo person (“P”)—

- (a) yn cyrraedd Cymru am 4.00 a.m. ar 28 Tachwedd 2020 neu wedi hynny, a
- (b) wedi bod mewn gwlad neu diriogaeth a restrir yn rheoliad 4 o fewn y cyfnod o 14 o ddiwrnodau sy'n dod i ben â'r diwrnod y mae P yn cyrraedd Cymru.

(4) At ddibenion rheoliadau 7(1) ac 8(1) o'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol, mae'r cwestiwn o ran a yw P wedi cyrraedd Cymru o wlad neu diriogaeth nad yw'n esempt neu ar ôl bod mewn gwlad neu diriogaeth o'r fath i'w bennu, mewn perthynas â gwlad neu diriogaeth a restrir yn rheoliad 4, drwy gyfeirio at ba un a oedd y wlad neu'r diriogaeth yn wlad neu'n diriogaeth nad oedd yn esempt pan oedd P

yno ddiwethaf (ac nid drwy gyfeirio at statws y wlad neu'r diriogaeth pan fo P yn cyrraedd Cymru).

(5) Yn y rheoliad hwn, mae i "gofyniad i ynysu" yr ystyr a roddir gan reoliad 10(2) o'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol; ac mae cyfeiriadau at ddiwrnod olaf ynysiad P i'w dehongli yn unol â rheoliad 12 o'r Rheoliadau hynny.

### RHAN 3

Diwygiadau i Ran 3 a hepgor Rhan 3A o'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol a diwygiad canlyniadol

#### **Diwygiadau i Ran 3 (gofyniad i ynysu etc.) o'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol**

6.—(1) Mae Rhan 3 (gofyniad i ynysu etc.) o'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol wedi ei diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn rheoliad 9(2)(b), yn lle "38" rhodder "39".

(3) Hefgorer rheoliad 12A.

#### **Darpariaeth arbed mewn cysylltiad â rheoliad 6(3)**

7. Pan, yn union cyn 4.00 a.m. ar 28 Tachwedd 2020, yr oedd rheoliad 12A o'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol yn gymwys i berson, mae'r rheoliad hwnnw yn parhau i fod yn gymwys i'r person hwnnw er gwaethaf ei ddirymiad gan reoliad 6(3).

#### **Hepgor Rhan 3A (teithio o Ddenmarc) o'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol a diwygiad canlyniadol**

8.—(1) Hefgorer Rhan 3A (teithio o Ddenmarc) o'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol.

(2) Mae rheoliad 14(1) yn Rhan 4 o'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol wedi ei ddiwygio fel a ganlyn—

- (a) yn is-baragraff (c), ar y diwedd mewnosoder "neu";
- (b) yn is-baragraff (f), hepgorer "neu";
- (c) hepgorer is-baragraff (g).



## RHAN 4

### Diwygio Atodlen 2 i'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol

#### **Diwygio paragraff 13 o Atodlen 2 (personau esempt)**

9. Ym mharagraff 13(2)(c) o Atodlen 2 (personau esempt) i'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol, yn lle “gan yr” rhodder “gan Weinidogion Cymru neu’r”.

## RHAN 5

### Diwygiadau i'r rhestr o ddigwyddiadau chwaraeon yn Atodlen 4 i'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol

#### **Ychwanegiadau at y rhestr o ddigwyddiadau chwaraeon penodedig**

10.—(1) Mae Atodlen 4 (digwyddiadau chwaraeon penodedig) i'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol wedi ei diwygio fel a ganlyn.

(2) Ym mharagraff 3, ar y diwedd mewnosoder—

“(n) Y Gorfforaeth Ddartiau Broffesiynol –  
Meistri Ladbrokees.”

(3) Ym mharagraff 7, ar y diwedd mewnosoder—

“(m) Motorsport UK – Pencampwriaeth Rali  
Groes Prydain a'r Bencampwriaeth  
Gefnogi.”

(4) Ym mharagraff 10, ar y diwedd mewnosoder—

“(l) Taith Snwcer y Byd – Meistri'r  
Almaen;

(m) Taith Snwcer y Byd – Y Meistri;

(n) Taith Snwcer y Byd – Pencampwriaeth  
y Chwaraewyr;

(o) Taith Snwcer y Byd – Pencampwriaeth  
Agored Cymru.”

(5) Ar ôl paragraff 24 mewnosoder—

“25. Nofio – Cyfarfod Rhyngwladol British  
Swimming.”

*Vaughan Gething*

Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol,  
un o Weinidogion Cymru  
Am 2.14 p.m. ar 27 Tachwedd 2020

## **Memorandwm Esboniadol ar gyfer Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 21) 2020**

Lluniwyd y Memorandwm Esboniadol hwn gan Lywodraeth Cymru ac fe'i gosodir gerbron Senedd Cymru ar y cyd â'r is-ddeddfwriaeth uchod ac yn unol â Rheol Sefydlog 27.1.

### **Datganiad y Gweinidog**

Yn fy marn i, mae'r Memorandwm Esboniadol hwn yn rhoi darlun teg a rhesymol o effaith ddisgwyliedig Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 21) 2020.

**Vaughan Gething**  
**Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**

27 Tachwedd 2020

## 1. Disgrifiad

Yn ddarostyngedig i esemptiadau penodedig, tan 10 Gorffennaf 2020, roedd Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) 2020 ("Y Rheoliadau Teithio Rhyngwladol") yn ei gwneud yn ofynnol i bob teithiwr sy'n cyrraedd Cymru o'r tu allan i'r Ardal Deithio Gyffredin (h.y. yr ardal ffiniau agored sy'n cynnwys y Deyrnas Unedig, Ynysoedd y Sianel, Ynys Manaw a Gweriniaeth Iwerddon) ddarparu ei fanylion cyswllt a gwybodaeth am ei daith – ac ynysu am gyfnod o 14 o ddiwrnodau.

Diwygiwyd y Rheoliadau Teithio Rhyngwladol gan Reoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol a Gwybodaeth Iechyd y Cyhoedd i Deithwyr) (Cymru) (Diwygio) 2020 er mwyn (ymhlith pethau eraill) cyflwyno esemptiad rhag y gofyniad i ynysu ar gyfer teithwyr sy'n cyrraedd o wledydd a thiriogaethau penodedig, a elwir yn "wledydd esempt".

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol i weithredu newidiadau a nodwyd gan y Gydganolfan Biaddiogelwch yn statws risg iechyd cyhoeddus rhai gwledydd neu diriogaethau, fel y bo'n angenrheidiol er mwyn diogelu iechyd y cyhoedd.

## 2. Materion o ddiddordeb arbennig i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

*Yn dod i rym*

Yn unol ag adran 11A(4) o Ddeddf Offerynnau Statudol 1946, hysbyswyd y Llywydd y bydd y Rheoliadau yn dod i rym llai na 21 o ddiwrnodau ar ôl gosod yr offeryn yn y Senedd.

*Y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol*

Nid yw'r diwygiadau yn y Rheoliadau hyn yn newid y ffaith bod hawliau unigol o dan Ddeddf Hawliau Dynol 1998 a Siarter Hawliau Sylfaenol Ewrop yn gysylltiedig â'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol; mae'r Llywodraeth o'r farn eu bod yn gymesur a hefyd yn gyfiawn at ddiben atal lledaeniad haint a/neu y caniateir ymyriad ar y sail ei fod yn anelu at gyflawni nod dilys, sef diogelu iechyd y cyhoedd.

## 3. Y cefndir deddfwriaethol

Mae Deddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984 ("Deddf 1984"), a rheoliadau a wnaed oddi tani, yn darparu fframwaith deddfwriaethol ar gyfer diogelu iechyd yng Nghymru a Lloegr. Gwneir y Rheoliadau drwy ddibynnu ar y pwerau yn adrannau 45B a 45P(2) o Ddeddf 1984. Mae'r Memorandwm Esboniadol i'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol yn rhoi rhagor o wybodaeth am y pwerau hyn.

## 4. Diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael

Gwnaed y Rheoliadau Teithio Rhyngwladol ar 5 Mehefin 2020 a daethant i rym ar 8 Mehefin 2020 mewn ymateb i'r bygythiad difrifol ac uniongyrchol i iechyd y cyhoedd

a berir gan fynychder a lledaeniad syndrom anadlol aciwt difrifol coronafeirws 2 (SARS-CoV-2).

Mae'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol yn cael eu hadolygu'n rheolaidd ac mae newidiadau wedi'u gwneud i'r rhestr o'r gwledydd a'r tiriogaethau esempt na fyddai'n ofynnol i deithwyr ynysu ar ôl cyrraedd Cymru o'r manau hynny – yn fwyaf diweddar ar 21 Tachwedd 2020.

Mae'r cyngor sydd bellach wedi dod i law oddi wrth y Gydganolfan Bioddiogelwch yn dangos bod y risg i iechyd y cyhoedd yn sgil mynychder a lledaeniad y coronafeirws wedi cynyddu yn Estonia a Latfia. Ar sail y cyngor hwn, mae Llywodraeth Cymru o'r farn y dylai gofynion i ynysu yn awr gael eu cyflwyno ar gyfer teithwyr sy'n dod i Gymru o'r gwledydd hynny.

Mae'r Rheoliadau hefyd yn ychwanegu Aruba, Bhutan, Mongolia, Timor-Leste ac Ynysoedd y Môr Tawel Samoa, Kiribati, Micronesia, Tonga, Vanuatu ac Ynysoedd Solomon at y rhestr o wledydd a thiriogaethau esempt. Mae hyn wedi'i seilio ar y data a ddaeth i law oddi wrth y Gydganolfan Bioddiogelwch sy'n dangos bod y risg i iechyd y cyhoedd yn sgil mynychder a lledaeniad y coronafeirws wedi lleihau yn y gwledydd a'r tiriogaethau hynny. Ni fydd yn ofynnol felly i deithwyr o'r gwledydd a'r tiriogaethau hynny ynysu pan fyddant yn cyrraedd Cymru.

Bydd y gofynion diwygiedig yn dod i rym ar gyfer unrhyw deithwyr sy'n cyrraedd yr Ardal Deithio Gyffredin o'r gwledydd neu'r tiriogaethau hynny am 4.00 a.m. ddydd Sadwrn 28 Tachwedd 2020 neu wedi hynny.

Bydd y cyfyngiadau penodol sydd wedi'u gosod ar hyn o bryd ar deithwyr o Ddenmarc ac aelodau o'u haelwydydd yn cael eu codi. Bydd y gwaharddiad ar awyrennau a llestrau (cychod a llongau) sy'n teithio'n uniongyrchol o Ddenmarc rhag cyrraedd yn cael ei godi hefyd. Ni fydd Denmarc, fodd bynnag, yn cael ei chynnwys ar y rhestr o wledydd a thiriogaethau esempt. Felly, bydd yn parhau'n ofynnol i deithwyr o Ddenmarc ynysu ar ôl cyrraedd Cymru.

Bydd digwyddiadau eraill yn cael eu hychwanegu at y rhestr o ddigwyddiadau chwaraeon yn Atodlen 4 y mae'r rhai sy'n cymryd rhan ynddynt wedi'u heithrio rhag y gofynion ynysu at ddibenion cyfyngedig sy'n gysylltiedig â'u cyfranogiad.

Mae'r Rheoliadau hefyd yn gwneud dau fân ddiwygiad mewn perthynas â'r esemptiadau ar sail sector yn y Rheoliadau Teithio Rhyngwladol. Mae'r diwygiad cyntaf yn darparu y caiff Gweinidogion Cymru ddynodi gwaith fel "gwaith llywodraeth hanfodol" at ddibenion yr esemptiad ym mharagraff 13 o Atodlen 2 i'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol. Diwygiad technegol yw'r ail ddiwygiad sy'n diweddarau un o'r rhifau paragraff yn rheoliad 9(2)(b) o'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol.

Bydd y newidiadau hyn hefyd yn dod i rym am 4.00 a.m. ddydd Sadwrn 28 Tachwedd 2020.

Ni fydd yr un o'r diwygiadau i'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol a wneir gan y Rheoliadau diwygio diweddaraf yn effeithio ar y gofynion o dan y Rheoliadau hynny i bersonau sy'n cyrraedd yr Ardal Deithio Gyffredin cyn i'r diwygiadau ddod i rym.

Mae Gweinidogion Cymru o'r farn fod y diwygiadau hyn yn gymesur â'r hyn y maent yn ceisio ei gyflawni, sef ymateb i fygythiad difrifol ac uniongyrchol i iechyd y cyhoedd.

## **5. Ymgynghori**

Oherwydd y bygythiad difrifol ac uniongyrchol sy'n deillio o'r coronafeirws a'r angen am ymateb iechyd y cyhoedd brys, ni chynhaliwyd unrhyw ymgynghoriad cyhoeddus mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn.

## **6. Aseiad Effaith Rheoleiddiol**

Ni chynhaliwyd unrhyw aseiad effaith rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn oherwydd yr angen i'w rhoi ar waith ar fyrder i ymdrin â bygythiad difrifol ac uniongyrchol i iechyd y cyhoedd.



Ein cyf/Our ref: MA/VG/4099/20

Elin Jones, AS  
Llywydd  
Senedd Cymru  
Bae Caerdydd  
CF99 1SN

27 Tachwedd 2020

Annwyl Lywydd,

### **Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 21) 2020**

Yn unol ag adran 11A(4) o Ddeddf Offerynnau Statudol 1946 rwy'n eich hysbysu y bydd yr Offeryn Statudol hwn yn dod i rym lai na 21 diwrnod ar ôl iddo gael ei osod. Amgaeir y Memorandwm Esboniadol sy'n cyd-fynd â'r Rheoliadau er gwybodaeth ichi.

Mae'r Rheoliadau a wneir heddiw yn diwygio Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) 2020 ymhellach a bydd Estonia a Latfia yn cael eu tynnu oddi ar y rhestr o wledydd a thiriogaethau sydd wedi'u heithrio. Bydd Aruba, Bhutan, Mongolia, Timor-Leste ac Ynysoedd y Môr Tawel Samoa, Kiribati, Micronesia, Tonga, Vanuatu ac Ynysoedd Solomon yn cael eu hychwanegu at y rhestr o wledydd a thiriogaethau sydd wedi'u heithrio. Mae'r Rheoliadau'n gwneud y newidiadau hyn oherwydd y newidiadau a nodwyd yn y risg i iechyd y cyhoedd yn sgil cyrraedd o'r gwledydd hynny.

Bydd y cyfyngiadau penodol sydd wedi'u gosod ar hyn o bryd ar bobl sy'n teithio o Ddenmarc ac aelodau o'u haelwydydd yn cael eu codi. Bydd y gwaharddiad ar awyrennau, cychod a llongau sy'n teithio'n uniongyrchol o Ddenmarc rhag cyrraedd yn cael ei godi hefyd. Ni fydd Denmarc, fodd bynnag, yn cael ei chynnwys ar y rhestr o wledydd a thiriogaethau sydd wedi'u heithrio. Felly, bydd gofyn i bobl sy'n teithio o Ddenmarc barhau i hunanynysu ar ôl cyrraedd Cymru.

Bydd digwyddiadau eraill yn cael eu hychwanegu at y rhestr o ddigwyddiadau chwaraeon yn Atodlen 4 y mae'r rhai sy'n cymryd rhan ynddynt wedi'u heithrio rhag y gofynion hunanynysu at ddibenion cyfyngedig sy'n gysylltiedig â'u cyfranogiad.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay  
Caerdydd • Cardiff  
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:  
0300 0604400

[Correspondence.Rebecca.Evans@gov.wales](mailto:Correspondence.Rebecca.Evans@gov.wales)  
[Gohebiaeth.Rebecca.Evans@llyw.cymru](mailto:Gohebiaeth.Rebecca.Evans@llyw.cymru)

Mae'r Rheoliadau hefyd yn gwneud mân ddiwygiadau yn ymwneud â'r eithriadau sectoraidd o fewn y prif Reoliadau.

Mae peidio â chadw at y confensiwn 21 diwrnod yn galluogi'r Rheoliadau hyn i ddod i rym cyn gynted â phosibl, ac o ystyried newid yn y dystiolaeth ynghylch risg mewn cysylltiad â'r clefyd hwn, ystyrir bod hyn yn angenrheidiol ac yn gyfiawn yn yr achos hwn.

Oherwydd natur frys y Rheoliadau, ni chynhaliwyd ymgynghoriad.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at Mick Antoniw AS, Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, Sian Wilkins, Pennaeth Gwasanaethau'r Siambr a Phwyllgorau a Julian Luke, Pennaeth Gwasanaeth y Pwyllgorau Polisi a Deddfwriaeth.

Yn gywir,



**Rebecca Evans AS/MS**  
Y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd  
Minister for Finance and Trefnydd





wledydd a thiriogaethau sydd wedi'u heithrio. Felly, bydd gofyn i bobl sy'n teithio o Ddenmarc barhau i hunanynysu ar ôl cyrraedd Cymru.

Bydd digwyddiadau eraill yn cael eu hychwanegu at y rhestr o ddigwyddiadau chwaraeon yn Atodlen 4 y mae'r rhai sy'n cymryd rhan ynddynt wedi'u heithrio rhag y gofynion hunanynysu at ddibenion cyfyngedig sy'n gysylltiedig â'u cyfranogiad.

Yfory, byddaf yn gosod y rheoliadau angenrheidiol a ddaw i rym am 04:00 ddydd Sadwrn 28 Tachwedd.

## SL(5)671 – Rheoliadau Hylendid a Diogelwch Bwyd a Bwyd Anifeiliaid (Diwygiadau Amrywiol a Darpariaeth Arbed) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2020

### Cefndir a Diben

Mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud diwygiadau technegol i is-ddeddfwriaeth, sy'n gymwys o ran Cymru, ym meysydd bwyd a diogelwch a hylendid bwyd a phorthiant, er mwyn ymdrin ag unrhyw fethiant yng nghyfraith yr UE a ddargedwir i weithredu'n effeithiol/cydlynol a diffygion eraill sy'n deillio o ymadawiad y Deyrnas Unedig â'r Undeb Ewropeaidd, er mwyn adlewyrchu'r Protocol ar Iwerddon/Gogledd Iwerddon yn y cytundeb ymadael â'r UE.

Mae'r Rheoliadau hyn yn benodol yn diwygio'r offerynnau canlynol, sy'n offerynnau Cymru:

- Rheoliadau Cynhyrchion Bwyd a Bwyd Anifeiliaid Rheoleiddiedig (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2019;
- Rheoliadau Hylendid a Diogelwch Bwyd a Bwyd Anifeiliaid (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2019;
- Rheoliadau Bwyd (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) (Ymadael â'r UE) (Rhif 2) 2019;
- Rheoliadau Bwyd a Addaswyd yn Enetig (Cymru) 2004;
- Rheoliadau Bwyd Cyffredinol 2004;
- Rheoliadau Cynhyrchion Pysgodfeydd (Taliadau Rheolaethau Swyddogol) (Cymru) 2007;
- Rheoliadau Arbelydru Bwyd(Cymru) 2009;
- Rheoliadau Cig (Ffioedd Rheolaethau Swyddogol) (Cymru) 2009;
- Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol ar Fwyd Anifeiliaid a Bwyd (Cymru) 2009;
- Rheoliadau Diogelwch Bwyd (Samplu a Chymwysterau) (Cymru) 2013;
- Rheoliadau Halogion mewn Bwyd (Cymru) 2013;
- Rheoliadau Ychwanegion, Cyflasynnau, Ensymau a Thoddyddion Echdynnu Bwyd (Cymru) 2013;
- Rheoliadau Mêl (Cymru) 2015; a
- Rheoliadau Caseinau a Chaseinau (Cymru) 2016.



## Gweithdrefn

Cadarnhaol drafft

### Materion technegol: craffu

Ni nodir unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

### Rhinweddau: craffu

Nodwyd y pwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arno o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

#### **1. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd.**

Mae'r Pwyllgor yn nodi'r ymgynghoriad cyhoeddus, cyffredinol ar y Rheoliadau hyn gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd ac yn nodi, yn dilyn Ymadael â'r UE mai dyma fydd yr achos o hyd o ran yr holl ddiwygiadau i gyfraith Bwyd yn y dyfodol. At hynny, yr ymgynghoriad a gynhaliwyd gyda'r Ysgrifennydd Gwladol dros yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig a'r Ysgrifennydd Gwladol dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol ar 11 Tachwedd 2020 (yn unol â pharagraff 4 o Atodlen 2 i Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018 – ynghylch yr angen i Ran 2 o'r offeryn hwn ddod i rym cyn diwrnod cwblhau'r cyfnod gweithredu.

### Y goblygiadau yn sgil ymadael â'r Undeb Ewropeaidd

Dim.

### Ymateb Llywodraeth Cymru

Nid oes angen ymateb gan Lywodraeth Cymru.

#### **Cynghorwyr Cyfreithiol**

#### **Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**

#### **2 Rhagfyr 2020**



*Rheoliadau drafft a osodwyd gerbron Senedd Cymru o dan baragraff 1(8) o Atodlen 7 i Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018, i'w cymeradwyo drwy benderfyniad gan Senedd Cymru.*

---

OFFERYNNAU STATUDOL  
CYMRU DRAFFT

---

**2020 Rhif (Cy. )**

**YMADAEL Â'R UNDEB  
EWROPEAIDD, CYMRU**

**AMAETHYDDIAETH, CYMRU**

**BWYD, CYMRU**

**Rheoliadau Hylendid a Diogelwch  
Bwyd a Bwyd Anifeiliaid  
(Diwygiadau Amrywiol a  
Darpariaeth Arbed) (Cymru)  
(Ymadael â'r UE) 2020**

**NODYN ESBONIADOL**

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn wedi eu gwneud drwy arfer y pwerau a roddir gan baragraffau 1(1) ac 11M(1) o Atodlen 2, paragraff 7 o Atodlen 4, a pharagraff 21(b) o Atodlen 7, i Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018 (p. 16) er mwyn ymdrin ag unrhyw fethiant yng nghyfraith yr UE a ddargedwir i weithredu'n effeithiol a diffygion eraill sy'n deillio o ymadawiad y Deyrnas Unedig â'r Undeb Ewropeaidd.

Mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud diwygiadau i ddeddfwriaeth ym maes diogelwch a hylendid bwyd a bwyd anifeiliaid.

Mae Rhan 2 yn cynnwys diwygiadau i ddarpariaethau is-ddeddfwriaeth Cymru sy'n ymwneud ag Ymadael â'r UE. Mae'r diwygiadau yn cynnwys cywiro gwallau a nodwyd, a darpariaeth sy'n ofynnol i weithredu'r Protocol o ran Iwerddon/Gogledd Iwerddon yn y cytundeb ymadael â'r UE. Mae Rhan 2 hefyd yn hepgor nifer o ddarpariaethau a oedd wedi eu cynnwys er mwyn

ymdrin ag unrhyw fethiant yng nghyfraith yr UE a ddargedwir i weithredu'n effeithiol a diffygion eraill sy'n deillio o ymadawiad y Deyrnas Unedig â'r Undeb Ewropeaidd. O ran y darpariaethau sydd wedi eu hepgor, naill ai nid ydynt yn gymwys mwyach neu mae'r diwygiadau a wnaed gan y darpariaethau hynny wedi eu hamnewid gan ddiwygiadau eraill a wneir gan y Rheoliadau hyn.

Mae Rhan 3 yn cynnwys diwygiadau i is-ddeddfwriaeth sy'n gymwys o ran Cymru, er mwyn ymdrin ag unrhyw fethiant yng nghyfraith yr UE a ddargedwir i weithredu'n effeithiol ac i weithredu'r protocol o ran Iwerddon/Gogledd Iwerddon. Mae nifer o'r diwygiadau yn cydgrynhoi ac yn diweddarau (gyda diwygiadau) darpariaethau a oedd wedi eu cynnwys mewn is-ddeddfwriaeth flaenorol sy'n ymwneud ag Ymadael â'r UE sydd wedi eu hepgor yn Rhan 2 o'r Rheoliadau hyn.

Mae Rhan 4 yn gwneud darpariaeth arbed.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, ystyriwyd nad oedd yn angenrheidiol cynnal asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn.

*Rheoliadau drafft a osodwyd gerbron Senedd Cymru o dan baragraff 1(8) o Atodlen 7 i Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018, i'w cymeradwyo drwy benderfyniad gan Senedd Cymru.*

---

OFFERYNNAU STATUDOL  
CYMRU DRAFFT

---

**2020 Rhif (Cy. )**

**YMADAEL Â'R UNDEB  
EWROPEAIDD, CYMRU**

**AMAETHYDDIAETH, CYMRU**

**BWYD, CYMRU**

**Rheoliadau Hylendid a Diogelwch  
Bwyd a Bwyd Anifeiliaid  
(Diwygiadau Amrywiol a  
Darpariaeth Arbed) (Cymru)  
(Ymadael â'r UE) 2020**

*Gwnaed*

\*\*\*

*Yn dod i rym yn unol â rheoliad 1(2) a (3)*

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau hyn drwy arfer y pwerau a roddir gan baragraffau 1(1) ac 11M(1) o Atodlen 2, paragraff 7 o Atodlen 4, a pharagraff 21(b) o Atodlen 7, i Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018(1).

Yn unol â pharagraff 4(a) o Atodlen 2 i'r Ddeddf honno, ymgynghorwyd â'r Ysgrifennydd Gwladol wrth lunio'r Rheoliadau hyn.

---

(1) 2018 p.16. Gweler adran 20(1) o'r Ddeddf honno am ddiffiniad o "devolved authority". Mae diwygiadau i baragraff 1 o Atodlen 2 nad ydynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn. Mewnosodwyd paragraff 11M o Atodlen 2 gan adran 22 o Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Y Cytundeb Ymadael) 2020 (p. 1) a diwygiwyd paragraff 21 o Atodlen 7 gan baragraff 53 o Atodlen 5 i'r Ddeddf honno.

Yn unol â pharagraff 1(8) o Atodlen 7 i'r Ddeddf honno, gosodwyd drafft o'r offeryn hwn gerbron Senedd Cymru(1) ac fe'i cymeradwywyd ganddi drwy benderfyniad.

Fel sy'n ofynnol gan Erthygl 9 o Reoliad (EC) Rhif 178/2002 Senedd Ewrop a'r Cyngor sy'n gosod egwyddorion cyffredinol a gofynion cyfraith bwyd, yn sefydlu Awdurdod Diogelwch Bwyd Ewrop ac yn gosod gweithdrefnau o ran materion diogelwch bwyd(2), ymgynghorwyd yn agored ac yn dryloyw â'r cyhoedd wrth lunio'r Rheoliadau hyn.

## RHAN 1

### Cyflwyniad

#### **Enwi, cymhwyso a chychwyn**

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Hylendid a Diogelwch Bwyd a Bwyd Anifeiliaid (Diwygiadau Amrywiol a Darpariaeth Arbed) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2020 ac maent yn gymwys o ran Cymru.

(2) Daw'r Rhan hon a Rhan 2 i rym yn union cyn diwrnod cwblhau'r cyfnod gweithredu.

(3) Daw Rhannau 3 a 4 i rym ar ddiwrnod cwblhau'r cyfnod gweithredu.

## RHAN 2

### Diwygio is-ddeddfwriaeth Ymadael â'r UE

#### **Rheoliadau Cynhyrchion Bwyd a Bwyd Anifeiliaid Rheoleiddiedig (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2019**

2.—(1) Mae Rheoliadau Cynhyrchion Bwyd a Bwyd Anifeiliaid Rheoleiddiedig (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2019(3) wedi eu diwygio fel a ganlyn.

(2) Hepgorer rheoliad 2.

(3) Yn rheoliad 3 (diwygio Rheoliadau Deunyddiau ac Eitemau mewn Cysylltiad â Bwyd (Cymru) 2012)—

(a) ar ôl paragraff (2) mewnosoder—

---

(1) Mae'r cyfeiriad yn Neddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018 at Gynulliad Cenedlaethol Cymru bellach yn cael effaith fel cyfeiriad at Senedd Cymru, yn rhinwedd adran 150A(2) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32).

(2) OJ Rhif L 31, 1.2.2002, t. 1.

(3) O.S. 2019/425 (Cy. 99).

“(2A) Yn rheoliad 4(3) hepgorer “Cymunedol”.

(2B) Yn rheoliad 6(1)—

- (a) hepgorer is-baragraff (a);
- (b) yn is-baragraff (b), yn lle “16(1)” rhodder “16”.

(b) ym mharagraff (5), yn y rheoliad newydd 10A sydd i’w fewnosod—

- (i) ym mharagraff (1), yn lle “yn unol ag Erthygl 16 o Reoliad 1935/2004” rhodder “sy’n cydymffurfio â pharagraff (2)”;
- (ii) ym mharagraff (2), yn lle “yn y Deyrnas Unedig” rhodder “ym Mhrydain Fawr”;
- (iii) ym mharagraff (3), yn lle “i’r Deyrnas Unedig” rhodder “i Brydain Fawr”;

(c) ar ôl paragraff (6) mewnosoder—

“(6A) Yn rheoliad 27(1)(a)(i), yn lle “10(4), 10(6)” rhodder “10A(1), 10A(3).”

(6B) Yn Atodlen 2, ym mharagraff 1, yn yr adran 10(1A) a amnewidiwyd, yn lle “10(4), 10(6)” rhodder “10A(1), 10A(3).”

(4) Hepgorer rheoliad 4.

(5) Yn yr Atodlen, yn yr Atodlen 5 newydd (datganiad o gydymffurfedd) sydd i’w mewnosod, ym mharagraff 1(a), yn lle “i’r Deyrnas Unedig” rhodder “i Brydain Fawr”.

### **Rheoliadau Hylendid a Diogelwch Bwyd a Bwyd Anifeiliaid (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) (Ymadael â’r UE) (Cymru) 2019**

3.—(1) Mae Rheoliadau Hylendid a Diogelwch Bwyd a Bwyd Anifeiliaid (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) (Ymadael â’r UE) (Cymru) 2019(1) wedi eu diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn rheoliad 4(3) (diwygio Rheoliadau Deunyddiau Bwyd sydd wedi’u Rhewi’n Gyflym (Cymru) 2007), yn lle is-baragraff (c), rhodder—

“(c) ym mharagraff (4)—

- (i) yn y geiriau o flaen is-baragraff (a), yn lle “unrhyw ddisgrifiad arall a restrir yn Erthygl 8.1(a) o Gyfarwyddeb 89/109” rhodder “yr hyn sy’n cyfateb i hynny mewn unrhyw iaith arall”;
- (ii) yn is-baragraff (b), yn lle “yr Undeb Ewropeaidd” rhodder “y Deyrnas Unedig”.

---

(1) O.S. 2019/434 (Cy. 102), a ddiwygiwyd yn rhagolygol gan O.S. 2020/44 (Cy. 5).



(3) Heggorer rheoliadau 5 a 6.

(4) Yn rheoliad 7 (diwygio Rheoliadau Llestri Cegin Plastig (Amodau ar Fewnforion o Tsieina) (Cymru) 2011)—

(a) yn lle paragraff (2) rhodder—

“(2) Yn rheoliad 3(1), yn lle “i’r Undeb Ewropeaidd” rhodder “i Brydain Fawr””.

(b) Yn lle paragraff (3) rhodder—

“(3) Yn rheoliad 8(3)(a)(i), yn lle “i’r Undeb Ewropeaidd” rhodder “i Brydain Fawr””.

#### **Rheoliadau Bwyd (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) (Ymadael â’r UE) (Rhif 2) 2019**

4.—(1) Mae Rheoliadau Bwyd (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) (Ymadael â’r UE) (Rhif 2) 2019(1) wedi eu diwygio fel a ganlyn.

(2) Heggorer rheoliad 2.

(3) Heggorer rheoliadau 4, 5, 6 a 7.

(4) Yn rheoliad 8 (diwygio Rheoliadau Dŵr Mwynol Naturiol, Dŵr Ffynnon a Dŵr Yfed wedi’i Botelu (Cymru) 2015)—

(a) Ym mharagraff (3), yn lle is-baragraff (b) rhodder—

“(b) yn lle is-baragraff (d), rhodder—

“(d) ei fod yn ddŵr mwynol naturiol a fwriedir ar gyfer—

(i) ei symud i Ogledd Iwerddon; neu

(ii) ei allforio i drydedd wlad.””

;

(b) yn lle paragraff (4)(a)(iii), rhodder—

“(iii) yn lle is-baragraff (d) rhodder—

“(d) yn achos dŵr a echdynnwyd o’r ddaear mewn trydedd wlad—

(i) pan fo’r Asiantaeth yn rhoi cydnabyddiaeth yn unol â Rhan 2 o Atodlen 1;

(ii) pan fo ganddo gydnabyddiaeth gyfatebol yn Lloegr a roddir gan yr Ysgrifennydd Gwladol yn unol â rheoliad 4(1)(d)(i) o Rheoliadau Dŵr Mwynol Naturiol, Dŵr Ffynnon a Dŵr Yfed wedi’i Botelu

---

(1) O.S. 2019/1046 (Cy. 185).

(Lloegr) 2007(1) a Rhan 2 o Atodlen 3 iddynt;

(iii) pan fo ganddo gydnabyddiaeth gyfatebol yn yr Alban a roddir gan Asiantaeth Safonau Bwyd yr Alban yn unol â rheoliad 4(1)(d)(i) o Reoliadau Dŵr Mwynol Naturiol, Dŵr Ffynnon a Dŵr Yfed wedi'i Botelu (Yr Alban) (Rhif 2) 2007(2), a Rhan 2 o Atodlen 3 iddynt;

(iv) pan fo ganddo gydnabyddiaeth gyfatebol yng Ngogledd Iwerddon a roddir gan yr Asiantaeth yn unol â rheoliad 4(2)(d)(i) o Reoliadau Dŵr Mwynol Naturiol, Dŵr Ffynnon a Dŵr Yfed wedi'i Botelu (Gogledd Iwerddon) 2015(3), a Rhan 2 o Atodlen 1 iddynt.”;

(c) ym mharagraff 5, yn y rheoliad newydd 4A sydd i'w fewnosod—

(i) ym mharagraff (6), yn lle “mae'r diwrnod ymadael” rhodder “mae diwrnod cwblhau'r cyfnod gweithredu”;

(ii) ym mharagraff (12), yn lle “y diwrnod ymadael”, ym mhob lle y mae'n digwydd, rhodder “diwrnod cwblhau'r cyfnod gweithredu”.

(d) yn lle paragraff (7), rhodder—

“(7) Yn rheoliad 27A—

(a) ym mharagraff (b)—

(i) hepgorer “neu o Wladwriaeth AEE arall”;

(ii) yn lle “Erthyglau 1 i 3 o Reoliad 115/2010” rhodder “y ddeddfwriaeth berthnasol ynghylch dŵr wedi'i botelu sy'n gymwys yn y rhan honno o'r Deyrnas Unedig”;

(b) ym mharagraff (c)—

---

(1) O.S. 2007/2785, a ddiwygiwyd gan O.S. 2009/1598, 2010/433, 2011/451, 2014/1855, 2018/352, 2019/526 a 2019/1488; a ddiwygiwyd yn rhagolygol gan 2019/150, 2019/775 a 2019/778.

(2) O.S.A. 2007/483 a ddiwygiwyd gan O.S.A. 2009/273, 2010/89, 2011/1043, 2014/312, 2015/100, 2015/363 a 2017/287.

(3) Rh. St. 2015 Rhif 365, a ddiwygiwyd gan Rh. St. 2017 Rhif 201; a ddiwygiwyd yn rhagolygol gan Rh. St. Rhif 353.

- (i) yn lle “wlad nad yw’n Wladwriaeth AEE arall” rhodder “drydedd wlad”;
  - (ii) yn lle’r geiriau o “a awdurdodwyd” i “Erthyglau 1 i 3” rhodder “sy’n cydymffurfio â gofynion Erthyglau 1 a 2”;
- (e) ym mharagraff (8)(b), ar ôl paragraff (i) mewnosoder—
- “(ia) ar ôl “yr Asiantaeth”, yn lle “neu” rhodder “ei bod yn cyfateb i ofynion y Rheoliadau hyn, neu gan””.

## RHAN 3

### Diwygio is-ddeddfwriaeth Cymru

#### **Rheoliadau Bwyd a Addaswyd yn Enetig (Cymru) 2004**

5.—(1) Mae Rheoliadau Bwyd a Addaswyd yn Enetig (Cymru) 2004(1) wedi eu diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn yr Atodlen, yn Rhan 2, yn y tabl—

- (a) Hepgorer y cofnod ar gyfer Erthygl 8.6;
- (b) yn y cofnod ar gyfer Erthygl 9.3, yn yr ail golofn, yn lle “Comisiwn”, rhodder “Awdurdod Diogelwch Bwyd”.

#### **Rheoliadau Bwyd Cyffredinol 2004**

6.—(1) Mae Rheoliadau Bwyd Cyffredinol 2004(2) wedi eu diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn rheoliad 4 (gofynion o dan Reoliad (EC) Rhif 178/2002: tramgwyddau), yn lle paragraff (a) rhodder—

“(a) Article 12 (food and feed exported from Great Britain) in so far as it relates to food;”.

- 
- (1) O.S. 2004/3220 (Cy. 276), a ddiwygiwyd gan O.S. 2018/806; mae offerynnau diwygio eraill ond nid yw’r un ohonynt yn berthnasol i’r Rheoliadau hyn. Fe’i ddiwygiwyd yn rhagolygol gan O.S. 2019/425 (Cy. 99) ond mae’r diwygiad hwnnw wedi ei hepgor gan reoliad 2(2) o’r Rheoliadau hyn.
  - (2) O.S. 2004/3279, a ddiwygiwyd gan O.S. 2005/3254 (Cy. 247) a 2011/1043; mae offerynnau diwygio eraill ond nid yw’r un ohonynt yn berthnasol i’r Rheoliadau hyn. Fe’i ddiwygiwyd yn rhagolygol gan O.S. 2019/1046 (Cy. 185) ond mae’r diwygiad hwnnw wedi ei hepgor gan reoliad 4(2) o’r Rheoliadau hyn.

## Rheoliadau Cynhyrchion Pysgodfeydd (Taliadau Rheolaethau Swyddogol) (Cymru) 2007

7.—(1) Mae Rheoliadau Cynhyrchion Pysgodfeydd (Taliadau Rheolaethau Swyddogol) (Cymru) 2007(1) wedi eu diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn rheoliad 2(1), yn lle'r diffiniad o “trydedd wlad” rhodder—

“ystyr “trydedd wlad” (“*third country*”), ac eithrio yn yr ymadrodd “mewnforyn trydedd wlad” (“*third country import*”) yw unrhyw wlad neu diriogaeth ac eithrio'r Ynsoedd Prydeinig;”.

(3) Yn lle rheoliad 4 rhodder—

### “Cyfwerthoedd y bunt â'r Ewro

4. Mae unrhyw gyfeiriad yn y Rheoliadau hyn at nifer penodedig o Ewros (“EUR”) i'w ddarllen fel y swm hwnnw wedi ei drosi i bunnoedd (“GBP”) gan ddefnyddio'r gyfradd gyfnewid o GBP1 = EUR1.1413.”

(4) Yn lle'r pennawd i'r Atodlen, rhodder—

## “DIFFINIADAU O DDEDDFWRIAETH”.

## Rheoliadau Arbelydru Bwyd (Cymru) 2009

8.—(1) Mae Rheoliadau Arbelydru Bwyd (Cymru) 2009(2) wedi eu diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn rheoliad 3(1)—

- (a) yn y diffiniad o “mewnforio”, yn lle “o Aelod-wladwriaeth arall neu o wlad arall y tu allan i'r Undeb Ewropeaidd” rhodder “o'r tu allan i'r Deyrnas Unedig”;
- (b) yn y diffiniad o “rhif cyfeirnod swyddogol”, yn lle “rhif cyfeirnod a ddyrennir gan yr Aelod-wladwriaeth mewn cysylltiad â chael ei gymeradwyo fel cyfleuster arbelydru (sef y rhif a ddangosir ar ei gyfer yn y rhestr yn Atodlen 3)” rhodder “rhif a ddangosir ar ei gyfer yn y rhestr yn Atodlen 3”.

(3) Yn rheoliad 5(1)—

- (a) Yn lle is-baragraff (b) rhodder—

---

(1) O.S. 2007/3462 (Cy. 307), a ddiwygiwyd gan O.S. 2011/1043, 2018/806 (Cy. 162) a 2019/1481 (Cy. 265); mae offeryn diwygio arall ond nid yw'n berthnasol i'r Rheoliadau hyn. Fe'i ddiwygiwyd yn rhagolygol gan O.S. 2019/1046 (Cy. 185) ond mae'r diwygiad hwnnw wedi ei hepgor gan reoliad 5(4) o'r Rheoliadau hyn.

(2) O.S. 2009/1795 (Cy. 162), a ddiwygiwyd gan O.S. 2011/1043, 2018/806 (Cy. 162); mae offeryn diwygio arall ond nid yw'n berthnasol i'r Rheoliadau hyn.

“(b) ei fod wedi’i arbelydru yn un o’r cyfleusterau a restrir yn y Tabl yn Atodlen 3 neu Atodlen 4;”;

(b) Yn is-baragraff (ch), hepgorer “arall”.

(4) Yn lle’r pennawd i Atodlen 3, rhodder—

**“ RHESTR O GYFLEUSTERAU  
YN AELOD-WLADWRIAETHAU  
YR UE AC YN Y DEYRNAS  
UNEDIG ”.**

**Rheoliadau Cig (Ffioedd Rheolaethau Swyddogol)  
(Cymru) 2009**

9. Yn Rheoliadau Cig (Ffioedd Rheolaethau Swyddogol) (Cymru) 2009(1), yn lle’r pennawd i Atodlen 1, rhodder—

**“DIFFINIADAU O  
DDEDDFWRIAETH”.**

**Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol ar Fwyd  
Anifeiliaid a Bwyd (Cymru) 2009**

10.—(1) Mae Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol ar Fwyd Anifeiliaid a Bwyd (Cymru) 2009(2) wedi eu diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn rheoliad 2(1)—

(a) ar ôl y diffiniad o “y Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol”, hepgorer yr “ac”;

(b) yn y lle priodol mewnosoder—

“ystyr “trydedd wlad” (*“third country”*) yw unrhyw wlad neu diriogaeth ac eithrio’r Ynysoedd Prydeinig.”

(3) Yn rheoliad 4—

(a) ym mharagraff (1), yn lle “ac Aelod-wladwriaethau” rhodder “a Gweinidogion Cymru”;

(b) ym mharagraff (4), yn lle “ddeddfwriaeth yr UE” rhodder “unrhyw ddeddfwriaeth arall sy’n gymwys”.

---

(1) O.S. 2009/1557 (Cy. 152), a ddiwygiwyd gan O.S. 2011/1043, 2019/1480 (Cy. 264); mae offerynnau diwygio eraill ond nid yw’r un ohonynt yn berthnasol i’r Rheoliadau hyn. Fe’i ddiwygiwyd yn rhagolygol gan O.S. 2019/434 (Cy. 102) ond mae’r diwygiad hwnnw wedi ei hepgor gan reoliad 3(3) o’r Rheoliadau hyn.

(2) O.S. 2009/3376 (Cy. 298), a ddiwygiwyd gan O.S. 2011/1043, 2019/1482 (Cy. 266); mae offerynnau diwygio eraill ond nid yw’r un ohonynt yn berthnasol i’r Rheoliadau hyn. Fe’i ddiwygiwyd yn rhagolygol gan O.S. 2019/434 (Cy. 102) a 2019/1046 (Cy. 185) ond mae’r diwygiadau hynny wedi eu hepgor, yn rhagolygol, gan reoliadau 3(3) a 5(4) o’r Rheoliadau hyn.

(4) Yn rheoliad 5(1), yn lle “ac Aelod-wladwriaethau” rhodder “a Gweinidogion Cymru”.

(5) Hepgorer rheoliadau 14, 15 a 16.

(6) Yn rheoliad 17—

- (a) hepgorer paragraff (3);
- (b) ym mharagraff (5), hepgorer is-baragraffau (a) a (b).

(7) Yn rheoliad 19(1)—

- (a) yn is-baragraff (a), hepgorer “14, 15 neu”;
- (b) yn is-baragraff (b)—
  - (i) hepgorer “14, 15 neu”;
  - (ii) yn lle “rheoliadau hynny” rhodder “rheoliad hwnnw”.

(8) Yn rheoliad 20(2), hepgorer “neu reoliad 16”.

(9) Yn rheoliad 22, hepgorer y diffiniad o “y tiriogaethau perthnasol” a’r “ac” o’i flaen.

(10) Yn rheoliad 28(1), hepgorer is-baragraffau (b) ac (ch).

(11) Hepgorer rheoliad 35(1).

(12) Yn rheoliad 41—

- (a) ym mharagraff 1(b), hepgorer “neu baragraff (4) neu (5) o reoliad 35”;
- (b) ar ôl paragraff 1(d) mewnosoder—

“(e) yn mynd yn groes i ddarpariaethau unrhyw offeryn a wneir o dan Erthygl 53 o Reoliad 178/2002 neu’n methu â chydymffurfio â hwy.”

(13) Yn Atodlen 6, yn y cofnod sy’n ymwneud ag Erthygl 5(1)(b) o Reoliad 2019/1602, yn yr ail golofn, yn lle “IMSOC” rhodder “system rheoli gwybodaeth gyfrifiadurol briodol”.

### **Rheoliadau Diogelwch Bwyd (Samplu a Chymwysterau) (Cymru) 2013**

**11.**—(1) Mae Rheoliadau Diogelwch Bwyd (Samplu a Chymwysterau) (Cymru) 2013(2) wedi eu diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn Atodlen 2—

- (a) yn Rhan 1, ym mharagraff 6, yn lle “Aelod-wladwriaeth arall” rhodder “Aelod-wladwriaeth o’r Undeb Ewropeaidd”;
- (b) yn Rhan 2—

---

(1) Gweler rheoliad 16 o’r Rheoliadau hyn ar gyfer datganiadau arbed darpariaethau a wneir o dan reoliad 35 o Reoliadau Rheolaethau Swyddogol ar Fwyd Anifeiliaid a Bwyd (Cymru) 2009 sydd mewn grym yn union cyn diwrnod cwblhau’r cyfnod gweithredu.

(2) O.S. 2013/479 (Cy. 55), y mae diwygiadau iddo nad ydynt yn berthnasol i’r Rheoliadau hyn.

- (i) ym mharagraff 2, yn lle “Aelod-wladwriaeth arall” rhodder “Aelod-wladwriaeth o’r Undeb Ewropeaidd”;
- (ii) ym mharagraff 4, yn lle “Aelod-wladwriaeth arall” rhodder “Aelod-wladwriaeth o’r Undeb Ewropeaidd”.

### **Rheoliadau Halogion mewn Bwyd (Cymru) 2013**

**12.**—(1) Mae Rheoliadau Halogion mewn Bwyd (Cymru) 2013(1) wedi eu diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn rheoliad 5—

- (a) ym mharagraff (1), yn lle “o’r darpariaethau UE” rhodder “o ddarpariaethau cyfraith yr UE a ddargedwir”;
- (b) ym mharagraff (2), yn lle “darpariaethau UE” rhodder “darpariaethau cyfraith yr UE a ddargedwir”.

(3) Yn rheoliad 8(2) (cymhwyso adrannau amrywiol o Ddeddf Diogelwch Bwyd 1990), yn nhestun adran 9 a addaswyd, yn lle “the EU requirements”, ym mhob lle y mae’n digwydd, rhodder “the retained EU law requirements”.

### **Rheoliadau Ychwanegion, Cyflasynnau, Ensymau a Thoddyddion Echdynnu Bwyd (Cymru) 2013**

**13.**—(1) Mae Rheoliadau Ychwanegion, Cyflasynnau, Ensymau a Thoddyddion Echdynnu Bwyd (Cymru) 2013(2) wedi eu diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn rheoliad 10(b), yn lle “i’r Undeb Ewropeaidd” rhodder “i Brydain Fawr”.

(3) Yn rheoliad 14(1)(d), yn lle “nhiriogaeth yr UE” rhodder “y Deyrnas Unedig”.

(4) Hepgorer rheoliad 15.

(5) Yn Atodlen 1—

- (a) yn Nhabl 1, yn y cofnod ar gyfer Erthygl 26.1, yn yr ail golofn, yn lle “Comisiwn” rhodder “Awdurdod”;
- (b) Yn Nhabl 2—
  - (i) yn y cofnod ar gyfer Erthygl 21.1 (fel y’i darllenir gydag Erthygl 22), yn yr ail golofn, yn lle “mewn iaith a deallir yn hawdd gan y prynwyr” rhodder “yn Saesneg, neu yn Gymraeg a Saesneg”;

---

(1) O.S. 2013/2493 (Cy. 242), a ddiwygiwyd gan O.S. 2018/806 (Cy. 162).

(2) O.S. 2013/2591 (Cy. 255), y mae diwygiadau iddo nad ydynt yn berthnasol i’r Rheoliadau hyn. Fe’i ddiwygiwyd yn rhagolygol gan O.S. 2019/425 (Cy. 99) a 2019/1046 (Cy. 185) ond mae’r diwygiadau hynny wedi eu hepgor, yn y drefn honno, gan reoliadau 2(4) a 5(4) o’r Rheoliadau hyn.

- (ii) yn y cofnod ar gyfer Erthygl 26.2, yn yr ail golofn, yn lle “y Comisiwn” rhodder “yr Awdurdod”.

(6) Yn Atodlen 2, yn Nhabl 1—

- (a) yn y cofnod ar gyfer Erthygl 10, yn yr ail golofn, yn lle “restr yr Undeb” rhodder “y rhestr ddomestig”;
- (b) yn y cofnod ar gyfer Erthygl 19.2, yn yr ail golofn, yn lle “Comisiwn” rhodder “Awdurdod”;
- (c) yn y cofnod ar gyfer Erthygl 19.3, yn yr ail golofn, yn lle “Comisiwn” rhodder “Awdurdod”.

(7) Yn Atodlen 3, yn Nhabl 1, yn y cofnod ar gyfer Erthygl 9.5, yn yr ail golofn, yn lle “Comisiwn” rhodder “Awdurdod”.

(8) Yn Atodlen 4, yn Nhabl 1—

- (a) yn y cofnod ar gyfer Erthygl 4, yn yr ail golofn, yn lle “yn rhestr yr Undeb” rhodder “yn y rhestr ddomestig”;
- (b) yn y cofnod ar gyfer Erthygl 14.1, yn yr ail golofn, yn lle “Comisiwn” rhodder “Awdurdod”;
- (c) yn y cofnod ar gyfer Erthygl 14.2, yn yr ail golofn, yn lle “Comisiwn” rhodder “Awdurdod”.

### **Rheoliadau Mêl (Cymru) 2015**

**14.**—(1) Mae Rheoliadau Mêl (Cymru) 2015(1) wedi eu diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn rheoliad 17—

- (a) Ym mharagraff (1)—
  - (i) hepgorer “Aelod-wladwriaeth neu drydedd”;
  - (ii) yn lle’r geiriau o “un o’r mynegiadau a ganlyn” hyd at y diwedd, rhodder “y mynegiad “blend of honeys from more than one country”, neu geiriad yn Saesneg ag ystyr cyfatebol.”;
- (b) ym mharagraff (6), yn lle’r geiriau o “mynegiadau a ganlyn” hyd at y diwedd, rhodder “mynegiad “cyfuniad o felau o fwy nag un wlad”, neu geiriad yn Gymraeg ag ystyr cyfatebol.”

---

(1) O.S. 2015/1507 (Cy. 174), y mae diwygiadau iddo nad ydynt yn berthnasol i’r Rheoliadau hyn.



## Rheoliadau Caseinau a Chaseinadau (Cymru) 2016

15.—(1) Mae Rheoliadau Caseinau a Chaseinadau (Cymru) 2016(1) wedi eu diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn rheoliad 6—

(a) ym mharagraff (1)—

(i) yn is-baragraff (d), yn lle “yr Undeb Ewropeaidd, enw neu enw busnes a chyfeiriad y sawl a’i mewnfuriodd i farchnad yr Undeb Ewropeaidd” rhodder “y Deyrnas Unedig, enw neu enw busnes a chyfeiriad y sawl a’i mewnfuriodd i farchnad y Deyrnas Unedig”;

(ii) yn is-baragraff (e), yn lle “wledydd y tu allan i’r Undeb Ewropeaidd” rhodder “drydedd wlad”;

(b) ar ôl paragraff (8) mewnosoder—

“(9) Yn y rheoliad hwn, ystyr “trydedd wlad” yw unrhyw wlad ac eithrio yr Ynysoedd Prydeinig.”

## RHAN 4

### Darpariaeth Arbed

#### **Arbed datganiadau a wnaed o dan reoliad 35 o Reoliadau Rheolaethau Swyddogol ar Fwyd Anifeiliaid a Bwyd (Cymru) 2009**

16. Er gwaethaf dirymu rheoliad 35 o Reoliadau Rheolaethau Swyddogol ar Fwyd Anifeiliaid a Bwyd (Cymru) 2009 (gan reoliad 10(11) o’r Rheoliadau hyn), mae unrhyw ddatganiad a wneir o dan reoliad 35 sydd mewn grym yn union cyn diwrnod cwblhau’r cyfnod gweithredu yn cael effaith ar ôl diwrnod cwblhau’r cyfnod gweithredu fel pe bai wedi ei wneud gan Weinidogion Cymru mewn offeryn statudol o dan Erthygl 53 o Reoliad (EC) Rhif 178/2002 sy’n gosod egwyddorion cyffredinol a gofynion cyfraith bwyd(2).

*Enw*

Y Gweinidog Iechyd Meddwl, Llesiant a’r Gymraeg,  
un o Weinidogion Cymru  
Dyddiad

---

(1) O.S. 2016/1130 (Cy. 270).

(2) EUR 178/2002, fel y’i diwygiwyd yn rhagolygol gan O.S. 2019/641.

## **Memorandwm Esboniadol i Rheoliadau Hylendid a Diogelwch Bwyd a Bwyd Anifeiliaid (Diwygiadau Amrywiol a Darpariaeth Arbed) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2020**

Paratowyd y Memorandwm Esboniadol hwn gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd ac fe'i gosodir gerbron Senedd Cymru ar y cyd â'r is-ddeddfwriaeth uchod ac yn unol â Rheol Sefydlog 27.1.

### **Datganiad y Gweinidog/Dirprwy Weinidog**

Yn fy marn i, mae'r Memorandwm Esboniadol hwn yn rhoi darlun teg a rhesymol o effaith ddisgwyliedig Rheoliadau Hylendid a Diogelwch Bwyd a Bwyd Anifeiliaid (Diwygiadau Amrywiol a Darpariaeth Arbed) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2020.

Rwyf wedi gwneud y datganiadau sy'n ofynnol gan Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018. Gellir gweld y datganiadau hyn yn Rhan 2 o'r Atodiad i'r Memorandwm hwn.

**Eluned Morgan**

**Y Gweinidog Iechyd Meddwl, Lles a'r Gymraeg**

**24 Tachwedd 2020**

## Rhan 1

### 1. Disgrifiad

Mae Rheoliadau Hylendid a Diogelwch Bwyd a Bwyd Anifeiliaid (Diwygiadau Amrywiol a Darpariaeth Arbed) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2020 ('Rheoliadau 2020') yn gwneud diwygiadau, sy'n berthnasol mewn perthynas â Chymru yn unig, i is-ddeddfwriaeth ym meysydd diogelwch a hylendid bwyd a bwyd anifeiliaid, a safonau cyfansoddiadol bwyd.

Diben Rheoliadau 2020 yw:

- gweithredu'r Protocol ar Iwerddon/Gogledd Iwerddon ("NIP") trwy wneud diwygiadau angenrheidiol i nifer o ddarpariaethau mewn tri offeryn statudol Ymadael â'r Undeb Ewropeaidd (UE) ('Offerynnau Statudol 2019') a deddfwriaeth ddomestig arall sy'n berthnasol mewn perthynas â Chymru ym maes diogelwch a hylendid bwyd a bwyd anifeiliaid, a safonau cyfansoddiadol bwyd;
- mynd i'r afael â diffygion yn neddfwriaeth ddomestig Cymru sy'n deillio o Ymadael â'r UE hefyd ym maes diogelwch a hylendid bwyd a bwyd anifeiliaid, a safonau cyfansoddiadol bwyd i sicrhau bod y llyfr statud yn parhau i weithredu'n effeithiol ar ddiwedd y cyfnod gweithredu ('CG'); a
- sicrhau bod unrhyw newidiadau yn y meysydd ar gyfer diogelwch a hylendid bwyd a bwyd anifeiliaid, a safonau cyfansoddiadol bwyd a gyflwynir gan Offerynnau Statudol Ymadael â'r UE a wneir ar ôl Offerynnau Statudol 2019 yn cael eu cyfrif.

Mae Rheoliadau 2020 yn diwygio'r offerynnau canlynol:

- Rheoliadau Cynhyrchion Bwyd a Bwyd Anifeiliaid Rheoleiddiedig (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2019, ac yn benodol rheoliad 3, sy'n diwygio:
  - Rheoliadau Deunyddiau ac Eitemau mewn Cysylltiad â Bwyd (Cymru) 2012;
- Rheoliadau Hylendid a Diogelwch Bwyd a Bwyd Anifeiliaid (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2019, ac yn benodol rheoliadau 4 a 7, sydd yn eu tro yn diwygio:
  - Rheoliadau Deunyddiau Bwyd sydd wedi'u Rhewi'n Gyflym (Cymru) 2007; a
  - Rheoliadau Llestri Cegin Plastig (Amodau ar Fewnforion o Tsieina) (Cymru) 2011;

- Rheoliadau Bwyd (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) (Ymadael â'r UE) (Rhif 2) 2019, ac yn benodol rheoliad 8, sy'n diwygio:
  - Rheoliadau Dŵr Mwynol Naturiol, Dŵr Ffynnon a Dŵr Yfed wedi'i Botelu (Cymru) 2015;
- Rheoliadau Bwyd a Addaswyd yn Enetig (Cymru) 2004;
- Rheoliadau Bwyd Cyffredinol 2004
- Rheoliadau Cynhyrchion Pysgodfeydd (Taliadau Rheolaethau Swyddogol) (Cymru) 2007;
- Rheoliadau Arbelydru Bwyd (Cymru) 2009;
- Rheoliadau Cig (Ffioedd Rheolaethau Swyddogol) (Cymru) 2009;
- Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol ar Fwyd Anifeiliaid a Bwyd (Cymru) 2009;
- Rheoliadau Diogelwch Bwyd (Samplu a Chymwysterau) (Cymru) 2013;
- Rheoliadau Halogion mewn Bwyd (Cymru) 2013;
- Rheoliadau Ychwanegion, Cyflasynnau, Ensymau a Thoddyddion Echdynnu Bwyd (Cymru) 2013;
- Rheoliadau Mêl (Cymru) 2015; a
- Rheoliadau Caseinau a Chaseinadau (Cymru) 2016.

## **2. Materion o ddiddordeb arbennig i'r Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol**

Mae Rheoliadau 2020 yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol o dan baragraff 1(8) o Atodlen 7 i Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Cytundeb Ymadael) 2018 ('Deddf 2018').

### **3. Y cefndir deddfwriaethol**

Mae Rheoliadau 2020 yn cael eu llunio gan ddefnyddio'r pŵer yn Rhan 1 o Atodlen 2 i Ddeddf 2018 er mwyn mynd i'r afael â methiannau cyfraith yr UE a ddargedwir (*retained EU law*) i weithredu'n effeithiol, neu ddiffygion eraill sy'n deillio o'r Deyrnas Unedig (DU) yn ymadael â'r UE. Mae'r offeryn hefyd wedi'i baratoi o dan baragraff 11M(1) o Atodlen 2 yn ogystal ag o dan baragraff 7 o Atodlen 4 a pharagraff 21(b) o Atodlen 7 i Ddeddf 2018.

Yn unol â gofynion Deddf 2018, mae'r Gweinidog Iechyd Meddwl, Lles a'r Gymraeg wedi gwneud y datganiadau perthnasol fel y manylir yn Rhan 2 o'r Atodiad i'r Memorandwm Esboniadol hwn.

#### **4. Diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael**

Yn dilyn diwedd y CG heb ddiwygiadau, bydd rhai darpariaethau yn anweithredol, ac o ganlyniad, bydd y gyfraith bresennol naill ai'n aneglur neu ni fydd yn gweithredu'n effeithiol.

Felly mae Rheoliadau 2020 yn defnyddio pwerau o dan Ddeddf 2018 i wneud newidiadau technegol i'r ddeddfwriaeth isod i sicrhau ei bod yn parhau i fod yn gydlynol a'i bod yn parhau i weithredu'n gywir ar ôl diwedd y CG.

#### **Beth oedd diben unrhyw gyfraith berthnasol yr UE cyn y diwrnod ymadael?**

#### **Rheoliadau Cynhyrchion Bwyd a Bwyd Anifeiliaid Rheoleiddiedig (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2019**

Mae'r offeryn hwn yn gwneud diwygiadau i is-ddeddfwriaeth sy'n berthnasol yng Nghymru ym maes bwyd a bwyd anifeiliaid wedi'u haddasu'n enetig (GM), deunyddiau ac eitemau mewn cysylltiad â bwyd, ac ychwanegion, cyflasynnau, ensymau a thoddyddion echdynnu bwyd. Daw'r diwygiadau a wneir gan yr offeryn hwn i rym ar ddiwedd y CG.

Mae Rheoliadau 2020 yn ymwneud yn benodol â rheoliad 3 yr offeryn hwn, sy'n cynnwys diwygiadau i Rheoliadau Deunyddiau ac Eitemau mewn Cysylltiad â Bwyd (Cymru) 2012.

#### **Rheoliadau Deunyddiau ac Eitemau mewn Cysylltiad â Bwyd (Cymru) 2012**

Mae'r offeryn hwn yn gweithredu Rheoliadau canlynol yr UE mewn perthynas â Chymru:

- Rheoliad (UE) Rhif 10/2011 yn darparu rheolau ar ddeunyddiau ac eitemau plastig y bwriedir iddynt ddod i gysylltiad â bwyd;
- Rheoliad (CE) Rhif 1935/2004 yn darparu rheolau ar ddeunyddiau ac eitemau y bwriedir iddynt ddod i gysylltiad â bwyd ac yn diddymu Cyfarwyddebau 80/590/EEC a 89/109/EEC;
- Rheoliad (CE) Rhif 1895/2005 yn darparu rheolau ar gyfyngu defnydd deilliadau epocsi penodol mewn deunyddiau ac eitemau y bwriedir iddynt ddod i gysylltiad â bwyd;

- Rheoliad (CE) Rhif 2023/2006 yn sefydlu arferion gweithgynhyrchu da ar gyfer deunyddiau ac eitemau y bwriedir iddynt ddod i gysylltiad â bwyd;
- Rheoliad (CE) Rhif 450/2009 yn darparu rheolau ar ddeunyddiau ac eitemau gweithredol a deallus y bwriedir iddynt ddod i gysylltiad â bwyd;
- Rheoliad (UE) Rhif 10/2011 ar ddeunyddiau ac eitemau plastig y bwriedir iddynt ddod i gysylltiad â bwyd

Mae Rheoliadau'r UE, fel y'u gweithredwyd gan Reoliadau 2012, yn darparu ar gyfer diogelu bwyd rhag peryglon a allai ddeillio o ddeunyddiau ac eitemau y gallai ddod i gysylltiad â hwy trwy'r gadwyn fwyd.

### **Rheoliadau Hylendid a Diogelwch Bwyd a Bwyd Anifeiliaid (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2019**

Mae'r offeryn hwn yn gwneud diwygiadau i is-ddeddfwriaeth sy'n berthnasol yng Nghymru ym maes hylendid a diogelwch bwyd a bwyd anifeiliaid i fynd i'r afael â methiannau cyfraith yr UE a ddargedwir i weithredu'n effeithiol a diffygion eraill sy'n deillio o'r DU yn ymadael â'r UE. Daw'r diwygiadau a wneir gan yr offeryn hwn i rym ar ddiwedd y CG.

Mae Rheoliadau 2020 yn ymwneud yn benodol â rheoliadau 4 a 7 yr offeryn hwn, sydd yn eu tro yn cynnwys diwygiadau i Reoliadau Deunyddiau Bwyd sydd wedi'u Rhewi'n Gyflym (Cymru) 2007 a Rheoliadau Llestri Cegin Plastig (Amodau ar Fewnforion o Tsieina) (Cymru) 2011.

### **Rheoliadau Deunyddiau Bwyd sydd wedi'u Rhewi'n Gyflym (Cymru) 2007**

Mae'r offeryn hwn yn gweithredu Rheoliad (CE) Rhif 37/2005 mewn perthynas â Chymru.

Mae Rheoliad yr UE, fel y'i gweithredir yng Nghymru gan y Rheoliadau hyn, yn darparu rheolau ar gyfer monitro tymheredd wrth gludo, cadw mewn warysau a storio deunyddiau bwyd wedi'u rhewi'n gyflym a fwriedir i'w bwyta gan bobl.

Mae'r offeryn hwn yn dirymu ac yn ailddeddfu Rheoliadau Deunyddiau Bwyd wedi'u Rhewi'n Gyflym 1990, sy'n ymestyn i Brydain gyfan.

Y Cyfarwyddbau a weithredwyd gan Reoliadau Deunyddiau Bwyd wedi'u Rhewi'n Gyflym 1990 y mae'r offeryn hwn yn parhau i'w gweithredu yw:

- Cyfarwyddeb 89/108/EEC ar gyd-ddynesu (*approximation*) deddfau Aelod-wladwriaethau sy'n ymwneud â deunyddiau bwyd wedi'u rhewi'n gyflym i'w bwyta gan bobl; a

- Chyfarwyddeb 92/2/EEC sy'n gosod gweithdrefn samplu a dull dadansoddi'r Gymuned ar gyfer y rheolaeth swyddogol mewn perthynas â thymereddau deunyddiau bwyd wedi'u rhewi'n gyflym a fwriedir i'w bwyta gan bobl.

### **Rheoliadau Llestri Cegin Plastig (Amodau ar Fewnforion o Tsieina) (Cymru) 2011**

Mae'r offeryn hwn yn gweithredu Rheoliad (UE) Rhif 284/2011 mewn perthynas â Chymru.

Mae Rheoliad yr UE, fel y'i gweithredir yng Nghymru gan y Rheoliadau hyn, yn darparu amodau penodol a gweithdrefnau manwl ar gyfer mewnfario offer cegin plastig polyamid a melamin sy'n deillio, neu'n cael eu hanfon o Weriniaeth Pobl Tsieina a Rhanbarth Gweinyddol Arbennig Hong Kong, Tsieina.

### **Rheoliadau Bwyd (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) (Ymadael â'r UE) (Rhif 2) 2019**

Mae'r offeryn hwn yn gwneud diwygiadau i is-ddeddfwriaeth sy'n berthnasol yng Nghymru ym maes hylendid a diogelwch bwyd a bwyd anifeiliaid, cynhyrchion bwyd a bwyd anifeiliaid rheoleiddiedig, a safonau a labelu bwyd, i fynd i'r afael â methiannau cyfraith yr UE a ddargedwir i weithredu'n effeithiol a diffygion eraill sy'n deillio o'r DU yn ymadael â'r UE. Daw'r diwygiadau a wneir gan yr offeryn hwn i rym ar ddiwedd y CG.

Mae Rheoliadau 2020 yn ymwneud yn benodol â rheoliad 8 yr offeryn hwn, sy'n cynnwys diwygiadau i Rheoliadau Dŵr Mwynol Naturiol, Dŵr Ffynnon a Dŵr Yfed wedi'i Botelu (Cymru) 2015.

### **Rheoliadau Dŵr Mwynol Naturiol, Dŵr Ffynnon a Dŵr Yfed wedi'i Botelu (Cymru) 2015**

Mae'r offeryn hwn yn trosi Cyfarwyddebau canlynol yr UE mewn perthynas â Chymru:

- Cyfarwyddeb 98/83/EC ar ansawdd dŵr y bwriedir iddo gael ei yfed gan bobl;
- Cyfarwyddeb 2003/40/EC sy'n pennu'r rhestr o gyfansoddion dŵr mwynol naturiol, y cyfyngiadau crynodiad a'r gofynion labelu, ynghyd â'r

amodau ar gyfer defnyddio aer a gyfoethogir ag osôn i drin dŵr mwynol naturiol a dŵr ffynnon;

- Cyfarwyddeb 2009/54/EC Senedd Ewrop a'r Cyngor ar ecsbloetio a marchnata dŵr mwynol naturiol;
- Cyfarwyddeb 2013/51/EURATOM sy'n pennu'r gofynion o ran diogelu iechyd y cyhoedd rhag sylweddau ymbelydrol mewn dŵr y bwriedir iddo gael ei yfed gan bobl.

Mae'r offeryn hwn hefyd yn gweithredu Rheoliadau canlynol yr UE mewn perthynas â Chymru:

- Rheoliad (UE) Rhif 115/2010 sy'n gosod yr amodau ar gyfer defnyddio alwmina actifedig i gael gwared â fflworid o ddyfroedd mwynol naturiol a dyfroedd ffynnon.

### **Rheoliadau Bwyd a Addaswyd yn Enetig (Cymru) 2004**

Mae'r offeryn hwn yn gwneud darpariaeth ar gyfer gweithredu a gorfodi Rheoliad 1829/2003 y Comisiwn. Mae Rheoliad y Comisiwn hwn yn darparu fframwaith rheoleiddio ar gyfer asesu ac awdurdodi gwyddonol organebau sydd wedi'u haddasu'n enetig (GMOs) i'w defnyddio mewn bwyd a bwyd anifeiliaid cyn eu rhoi ar y farchnad.

### **Rheoliadau Bwyd Cyffredinol 2004**

Mae'r offeryn hwn yn darparu ar gyfer gorfodi Rheoliad (CE) Rhif 178/2002 mewn perthynas â Chymru. Roedd yr offeryn hwn yn berthnasol yn wreiddiol mewn perthynas â Chymru, Lloegr a'r Alban ond fe'i disodlwyd i raddau helaeth mewn perthynas â Lloegr.

Mae Rheoliad (CE) Rhif 178/2002, fel y'i gweithreidir yng Nghymru gan y Rheoliadau hyn, yn sefydlu cyfrifoldeb Gweithredwyr Busnesau Bwyd i gynhyrchu bwyd sy'n diogelu bywyd ac iechyd pobl i lefel uchel ac yn sefydlu egwyddorion olrhain (*traceability*) trwy'r gadwyn fwyd. Gyda'i gilydd, maent yn darparu'r egwyddorion lefel uchel sy'n sail i roi bwyd a bwyd anifeiliaid diogel ar y farchnad yn yr UE.

### **Rheoliadau Cynhyrchion Pysgodfeydd (Taliadau Rheolaethau Swyddogol) (Cymru) 2007**



Mae'r offeryn hwn yn nodi'r taliadau y mae'n ofynnol eu codi am reolaethau swyddogol a gynhelir ar gynhyrchion pysgodfeydd fel y nodir yn Rheoliad (UE) 2017/625.

Mae Rheoliad (UE) 2017/625 yn gosod rheolau penodol ar reolaethau swyddogol a gweithgareddau swyddogol eraill a gyflawnir i sicrhau y cymhwysir cyfraith bwyd a bwyd anifeiliaid, rheolau ar iechyd a lles anifeiliaid, iechyd planhigion a chynhyrchion diogelu planhigion.

### **Rheoliadau Arbelydru Bwyd (Cymru) 2009**

Mae'r offeryn hwn yn trosi, mewn perthynas â Chymru:

- Cyfarwyddeb 1999/2/EC sy'n darparu'r fframwaith ar gyfer gweithgynhyrchu, marchnata a mewnfario bwydydd a chynhwysion bwyd sy'n cael eu trin ag ymbelydredd ìoneiddio. Mae'r Gyfarwyddeb yn nodi'r pwrpas, yr amodau a'r ffynonellau cymeradwy ar gyfer awdurdodi trin bwyd ag ymbelydredd;
- Cyfarwyddeb 1999/3/EC sy'n sefydlu rhestr o fwydydd a chynhwysion bwyd sy'n cael eu trin ag ymbelydredd ìoneiddio. Mae Rhestr y Comisiwn yn nodi'r rhestr o gyfleusterau cymeradwy ar gyfer trin bwydydd a chynhwysion bwyd ag ymbelydredd ìoneiddio mewn Aelod-wladwriaethau, ac mae Penderfyniadau'r Comisiwn yn darparu rhestr debyg o gyfleusterau cymeradwy mewn trydydd gwledydd.

### **Rheoliadau Cig (Ffioedd Rheolaethau Swyddogol) (Cymru) 2009**

Mae'r offeryn hwn yn nodi'r rheolau a'r mecanweithiau ar gyfer casglu ffioedd penodol ar gyfer cyflwyno rheolaethau swyddogol fel y'u nodir yn Rheoliad (UE) 2017/625 ac mewn unrhyw Rheoliadau Gweithredu a Dirprwyedig a wneir oddi tano fel y'u nodir yn Rheoliadau Cig (Ffioedd Rheolaethau Swyddogol) (Cymru) (Diwygio) 2019.

### **Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol ar Fwyd Anifeiliaid a Bwyd (Cymru) 2009**

Mae'r offeryn hwn yn darparu ar gyfer gweithredu a gorfodi, yng Nghymru, Rheoliad (UE) 2017/625 a rheoliadau gweithredu o'r fath a wneir oddi tano fel y'u gosodir yn Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol ar Fwyd Anifeiliaid a Bwyd (Cymru) (Diwygiadau Amrywiol) 2019, gan bennu rheolaethau swyddogol a gweithgareddau swyddogol eraill a gyflawnir i sicrhau bod cyfraith bwyd a bwyd anifeiliaid, rheolau ar iechyd a lles anifeiliaid, iechyd planhigion a chynhyrchion diogelu planhigion yn cael eu cymhwyso.

Mae'r offeryn hwn yn nodi'r awdurdodau cymwys ar gyfer gorfodi cyfraith bwyd anifeiliaid a bwyd, y mecanweithiau rheoli y gall awdurdodau gorfodi eu defnyddio i fonitro cynhyrchiant a chyflenwad bwyd a bwyd anifeiliaid er mwyn sicrhau lefel uchel o ddiogelwch i fywyd ac iechyd pobl, yn ogystal â'r pwerau i ymdrin ag unrhyw ddiffyg cydymffurfio â'r rheolau perthnasol.

### **Rheoliadau Diogelwch Bwyd (Samplu a Chymwysterau) (Cymru) 2013**

Mae'r offeryn hwn:

- yn nodi'r cymwysterau sy'n angenrheidiol i fod yn ddadansoddwr cyhoeddus, yn ddadansoddwr bwyd neu'n archwiliwr bwyd at ddibenion Deddf Diogelwch Bwyd 1990;
- yn gwahardd personau penodedig rhag cynnal dadansoddiadau neu archwiliadau;
- yn nodi'r gweithdrefnau i'w dilyn pan fydd sampl wedi'i chaffael o dan Ddeddf Diogelwch Bwyd 1990 i'w dadansoddi neu ei harchwilio;
- yn eithrio o'r gweithdrefnau hyn samplau a gymerwyd o dan Reoliadau sydd â'u gweithdrefnau eu hunain; ac
- yn rhagnodi y math o dystysgrif i'w defnyddio gan ddadansoddwyr ac archwilyr wrth lunio'u hadroddiadau.

### **Rheoliadau Halogion mewn Bwyd (Cymru) 2013**

Mae'r offeryn hwn yn dirymu ac yn ailddeddfu gyda newidiadau Reoliadau Halogion mewn Bwyd (Cymru) 2010, gan wneud darpariaeth ar gyfer:

- gweithrediad parhaus Rheoliad (UE) 2015/2284 sy'n ymwneud â gosod y lefel uchaf o asid erucig mewn olewau a brasterau a fwriedir felly i'w bwyta gan bobl; a
- parhau i weithredu a gorfodi Rheoliad y Comisiwn (CE) Rhif 1881/2006 yn gosod y lefelau uchaf ar gyfer rhai halogion mewn bwydydd

Mae'r offeryn hwn hefyd yn darparu ar gyfer gweithredu a gorfodi Rheoliad y Comisiwn (CE) Rhif 124/2009, sy'n ymwneud â'r lefelau uchaf a ganiateir ar gyfer rhai ychwanegion bwyd anifeiliaid a all, mewn amgylchiadau penodol, fod yn bresennol mewn bwyd.

## **Rheoliadau Ychwanegion, Cyflasynnau, Ensymau a Thoddyddion Echdynnu Bwyd (Cymru) 2013**

Mae'r offeryn hwn yn gweithredu Rheoliadau canlynol yr UE mewn perthynas â Chymru:

- Rheoliad (CE) Rhif 2065/2003 ar gyflasynnau mwg a ddefnyddir neu y bwriedir eu defnyddio mewn bwydydd neu arnynt);
- Rheoliad (CE) Rhif 1332/2008 ar ensymau bwyd;
- Rheoliad (CE) Rhif 1333/2008 ar ychwanegion bwyd;
- Rheoliad y Comisiwn UE Rhif 231/2012 yn gosod manylebau ar gyfer ychwanegion bwyd a gymeradwywyd o dan 1333/2008;
- Rheoliad (CE) 1334/2008 ar gyflasynnau a rhai cynhwysion bwyd gyda nodweddion cyflasynnau i'w defnyddio mewn cyflasynnau bwyd ac arnynt.

Mae'r offeryn hwn hefyd yn trosi Cyfarwyddeb 2009/32/EC ar doddyddion echdynnu a ddefnyddir i gynhyrchu bwydydd a chynhwysion bwyd.

## **Rheoliadau Mêl (Cymru) 2015**

Mae'r offeryn hwn yn trosi Cyfarwyddeb y Cyngor 2001/110/EC sy'n ymwneud â mêl. Mae'r Gyfarwyddeb yn nodi gofynion cyfansoddiadol mêl a'r enwau neilltuedig y gellir ei alw.

## **Rheoliadau Caseinau a Chaseinadau (Cymru) 2016**

Mae'r offeryn hwn yn trosi Cyfarwyddeb (UE) 2015/2203 sy'n ymwneud â chaseinau a chaseinadau y bwriedir eu bwyta gan bobl mewn perthynas â Chymru.

Mae Cyfarwyddeb (UE) 2015/2203 ar gaseinau a chaseinadau y bwriedir eu bwyta gan bobl yn nodi manylebau ar gyfer defnyddio disgrifiadau neilltuedig, manylebau gweithgynhyrchu a labelu cynhyrchion casein er mwyn sicrhau eu bod yn symud yn rhydd o fewn yr UE. Mae hefyd yn alinio'r gofynion o ran cyfansoddiad gyda'r safon ryngwladol a osodwyd gan y Codex Alimentarius er mwyn cysondeb ac er mwyn osgoi camargraffiadau masnach.

## **Pam bod y Rheoliadau'n cael eu newid?**

Mae cywiriadau yn angenrheidiol i destun y ddeddfwriaeth i sicrhau bod ystod o ddarpariaethau yn neddfwriaeth ddomestig Cymru yn adlewyrchu cymhwysiad y NIP. Yn ogystal â hyn, mae angen cyfrif am unrhyw ddatblygiadau deddfwriaethol a wnaed ers cyflwyno Offerynnau Statudol 2019 yn ogystal â sicrhau bod diwygiadau i gyfraith uniongyrchol yr UE a ddargedwir a gyflwynwyd gan Offerynnau Statudol Ymadael â'r UE eraill wedi'u hadlewyrchu yn y diwygiadau cysylltiedig a wnaed i'r ddeddfwriaeth ddomestig.

Mae Rheoliadau 2020 yn darparu'r diwygiadau angenrheidiol i ddeddfwriaeth ddomestig Cymru trwy ddiwygio nifer o ddarpariaethau mewn tri offeryn Ymadael â'r UE penodol yng Nghymru ac mewn deddfwriaeth ddomestig arall sy'n berthnasol yng Nghymru, er mwyn sicrhau bod y rhain yn gweithredu'r NIP yn llawn ym meysydd diogelwch, hylendid a safonau cyfansoddiadol bwyd a bwyd anifeiliaid. Mae hefyd yn cynnwys diwygiadau technegol wedi'u diweddarau i'r offerynnau yng Nghymru i gyfrif am ddiffygion sy'n deillio o'r DU yn ymadael â'r UE ac mae'n cyfrif am unrhyw newidiadau diweddar i gyfraith arall yr UE a ddargedwir a wnaed ar ôl gweithredu'r tri Offeryn Statudol Ymadael â'r UE a restrir yn yr adran Disgrifiad ar dudalen 2 y Memorandwm Esboniadol hwn.

Mae'r diwygiadau arfaethedig i Rheoliadau 2020 yn dechnegol eu natur ac yn ymdrin ag ystod o faterion fel:

- diweddarau cyfeiriadau at gyfraith yr UE a ddargedwir;
- diwygio'r diffiniadau o drydedd wlad;
- newid cyfeiriadau at 'EU' i 'UK' neu 'GB' fel sy'n briodol i adlewyrchu cymhwysiad yr NIP ar ôl y CG; a
- dileu neu ddisodli cyfeiriadau at derminoleg sy'n benodol i'r UE.

Mae'r diwygiadau hyn yn angenrheidiol i sicrhau bod rhwymedigaethau Cymru o dan yr NIP yn cael eu cyflawni yn ogystal â sicrhau cywirdeb ac effeithlonrwydd y llyfr statud yng Nghymru ar ôl i'r CG ddod i ben.

Lle bo'n briodol, hepgorir newidiadau Ymadael â'r UE presennol a chaiff darpariaethau eu hail-lunio (gyda diweddariadau, diwygiadau a chydgrynhoi perthnasol) yn yr offeryn hwn i sicrhau bod diwygiadau Ymadael â'r UE mor glir a hygyrch â phosibl.

## **Beth fydd y Rheoliadau yn ei wneud nawr?**

Bydd Rheoliadau 2020 yn sicrhau bod yr NIP yn cael ei gymhwyso'n briodol mewn perthynas â deddfwriaeth Cymru y mae'r offeryn hwn yn effeithio arni ac sy'n deillio o Ymadael â'r UE ar ddiwedd y CG, yn ogystal â mynd i'r afael â diffygion technegol ynddi. Bydd Rheoliadau 2020 hefyd yn sicrhau bod unrhyw ddiwygiadau i gyfraith berthnasol yr UE a ddargedwir ym meysydd diogelwch a hylendid bwyd a bwyd anifeiliaid, a safonau cyfansoddiadol bwyd, gan gynnwys y rhai a gyflwynwyd gan Offerynnau Statudol Ymadael â'r UE eraill a wnaed ar ôl Offerynnau Statudol 2019, yn cael eu hadlewyrchu yn y drafftio presennol.

Mae'r diwygiadau'n sicrhau bod y ddeddfwriaeth yn weithredol ar ddiwedd y CG ac yn darparu cyfnod pontio esmwyth i fusnesau.

## 5. Ymgynghoriad

### Dyletswydd i ymgynghori â'r Ysgrifennydd Gwladol

Yn unol â pharagraff 4 o Atodlen 2 i Ddeddf 2018 bu ymgynghori â'r Ysgrifennydd Gwladol dros yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig a'r Ysgrifennydd Gwladol dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol ar 11 Tachwedd 2020 ynghylch yr angen i Ran 2 o'r offeryn hwn ddod i rym cyn diwrnod cwblhau'r CG.

### Ymgynghoriad cyffredinol

Mae Erthygl 9 o Reoliad (CE) Rhif 178/2002 yn darparu bod yn rhaid ymgynghori â'r cyhoedd yn agored ac yn dryloyw wrth baratoi, gwerthuso ac adolygu cyfraith bwyd, ac eithrio mewn amgylchiadau brys. Yn dilyn Ymadael â'r UE, bydd hyn yn parhau i fod yn wir gyda phob diwygiad i gyfraith bwyd yn y dyfodol.

Cynhaliodd yr ASB ymgynghoriad ar draws y DU rhwng 20 Awst 2020 a 16 Medi 2020 mewn perthynas â "Diwygiadau i Gyfraith yr UE a ddargedwir ar gyfer Diogelwch a Hylendid Bwyd a Bwyd Anifeiliaid ar gyfer diwedd y Cyfnod Pontio", yn benodol mewn perthynas â newidiadau sydd eu hangen mewn perthynas i'r cytundeb Ymadael a'r NIP. Cafodd yr ymgynghoriad 7 ymateb gan bartïon â diddordeb. Roedd cyfran sylweddol (71%) yn cefnogi'r dull arfaethedig a amlinellwyd yn yr ymgynghoriad. Roedd gan yr ymatebion sy'n weddill (29%) sylwadau cymysg, fodd bynnag, ni chodwyd unrhyw bryderon am yr atebion arfaethedig.

Mae copi o'r ymgynghoriad ar gael yma:

<https://www.food.gov.uk/cy/news-alerts/consultations/diwygiadau-i-gyfraith-yr-undeb-ewropeaidd-a-ddargedwir-ar-gyfer-diogelwch-a-hylendid-bwyd-a-bwyd-anifeiliaid-ar-gyfer-diwedd-y>

Cynhaliodd yr ASB yng Nghymru ymgynghoriad rhwng 7 Ionawr 2019 a 4 Chwefror 2019 mewn perthynas â'r "Dull arfaethedig o weithredu diwygiadau i ddeddfwriaeth ddomestig Cymru ar gyfer hylendid a diogelwch bwyd a bwyd anifeiliaid, safonau cyfansoddiadol bwyd a labelu".

Roedd yr ymgynghoriad hwn yn ymwneud â'r diwygiadau technegol y manylwyd arnynt gan y tri Offeryn Statudol Ymadael â'r UE penodol i Gymru y mae Rheoliadau 2020 yn eu diwygio.

Pwrpas ymgynghoriad yr ASB oedd rhoi cyfle i randdeiliaid roi sylwadau ar gynigion yr ASB i wneud cywiriadau technegol i'r ddeddfwriaeth ddomestig berthnasol, ac ar ddewisiadau'r ASB ar gyfer y cywiriadau mwy sylweddol a oedd eu hangen mewn perthynas â safonau cyfansoddiad bwyd a labelu.

Mae copi o'r ymgynghoriad ar gael yma:

<https://www.food.gov.uk/cy/news-alerts/consultations/dull-arfaethedig-at-ddiwygiadau-i-ddeddfwriaeth-ddomestig-cymru-ar-gyfer-hylendid-a-diogelwch-bwyd-a-bwyd-anifeiliaid-safonau>.

## **6. Asesiad Effaith Rheoleiddiol (RIA)**

Ni chafodd asesiad effaith ei gynnal mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn gan na ragwelir unrhyw effaith ar y sectorau preifat, gwirfoddol na chyhoeddus.

Nid yw'r ddeddfwriaeth hon yn cael unrhyw effaith ar y dyletswyddau statudol (adrannau 77-79 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006) na phartneriaid statudol (adrannau 72-75 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006).

# Atodiad

## Datganiadau o dan Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018

### Rhan 1

#### Tabl Datganiadau o dan Ddeddf 2018

Mae'r tabl hwn yn nodi'r datganiadau a allai fod yn ofynnol gan Weinidogion Cymru o dan Ddeddf 2018. Mae'r tabl hefyd yn nodi'r datganiadau hynny a allai fod yn ofynnol gan Weinidogion y Goron o dan Ddeddf 2018, y mae Gweinidogion Cymru wedi ymrwymo i'w darparu hefyd pan fo angen. Gellir gweld y datganiadau gofynnol yn Rhan 2 o'r atodiad hwn.

Datganiad	Ble nodir y gofyniad	I bwy y mae'n berthnasol	Yr hyn sydd ei angen
Sifftio	Paragraffau 3(7) a 4(3), Atodlen 7  Rheol Sefydlog 27.1A	Gweinidogion Cymru sy'n arfer pwerau yn Rhan 1 o Atodlen 2 i wneud Offeryn Statudol Negyddol  Mae paragraff 3(7) yn berthnasol i Weinidogion y Goron, ond mae Gweinidogion Cymru wedi ymrwymo i wneud yr un datganiad	Datganiad i egluro pam y dylai'r offeryn fod yn ddarostyngedig i'r weithdrefn negyddol ac, os yw'n berthnasol, pam eu bod yn anghytuno ag argymhelliad y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad (LJC) (fel pwyllgor sifftio)
Priodoldeb	Is-baragraff (2) o baragraff 28, Atodlen 7	Yn berthnasol i Weinidogion y Goron sy'n arfer pwerau yn adrannau 8(1), 9 a 23(1) neu'n arfer pwerau ar y cyd yn Atodlen 2. Mae Gweinidogion Cymru wedi ymrwymo i wneud yr un datganiad wrth arfer pwerau yn Atodlen 2	Datganiad yn nodi nad yw'r Offeryn Statudol yn gwneud mwy nag sy'n briodol.
Rhesymau Da	Is-baragraff (3) o baragraff 28, Atodlen 7	Yn berthnasol i Weinidogion y Goron sy'n arfer pwerau yn	Datganiad i egluro'r rhesymau da dros lunio'r offeryn a bod yr hyn sy'n cael ei wneud yn

		adrannau 8(1), 9 a 23(1) neu'n arfer pwerau ar y cyd yn Atodlen 2. Mae Gweinidogion Cymru wedi ymrwymo i wneud yr un datganiad wrth arfer pwerau yn Atodlen 2	ffordd resymol o weithredu.
Cydraddoldebau	Is-baragraffau (4) a (5) o baragraff 28, Atodlen 7	Yn berthnasol i Weinidogion y Goron sy'n arfer pwerau yn adrannau 8(1), 9 a 23(1) neu'n arfer pwerau ar y cyd yn Atodlen 2. Mae Gweinidogion Cymru wedi ymrwymo i wneud yr un datganiad wrth arfer pwerau yn Atodlen 2	Datganiad i egluro pa ddiwygiadau, diddymadau neu ddirymadau, os o gwbl, sy'n cael eu gwneud i Ddeddfau Cydraddoldeb 2006 a 2010, ac i ddeddfwriaeth a luniwyd oddi tanynt.  Datganiad yn nodi bod y Gweinidog wedi rhoi sylw dyledus i'r angen i ddileu gwahaniaethu ac ymddygiad arall a waherddir o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010.
Esboniadau	Is-baragraff (6) o baragraff 28, Atodlen 7	Yn berthnasol i Weinidogion y Goron sy'n arfer pwerau yn adrannau 8(1), 9 a 23(1) neu'n arfer pwerau ar y cyd yn Atodlen 2. Mae Gweinidogion Cymru wedi ymrwymo i wneud yr un datganiad wrth arfer pwerau yn Atodlen 2	Datganiad i egluro'r offeryn, nodi'r gyfraith berthnasol cyn y diwrnod ymadael, egluro effaith yr offeryn ar gyfraith yr UE a ddargedwir a rhoi gwybodaeth am bwrpas yr offeryn, er enghraifft p'un a fwriedir mân newidiadau neu newidiadau technegol yn unig i gyfraith yr UE a ddargedwir.
Troseddau	Is-baragraffau (3) a (7) o baragraff 28, Atodlen 7	Yn berthnasol i Weinidogion y Goron sy'n arfer pwerau yn adrannau 8(1), 9 a 23(1) neu'n arfer pwerau ar y cyd yn Atodlen 2. Mae Gweinidogion Cymru wedi ymrwymo i wneud yr un datganiad wrth arfer pwerau yn Atodlen 2	Datganiad yn nodi'r 'rhesymau da' dros greu trosedd, a'r gosb sydd ynghlwm.
Is-ddirprwyo	Paragraff 30,	Yn berthnasol i	Datganiad i egluro pam ei bod



	Atodlen 7	<p>Weinidogion y Goron sy'n arfer pwerau yn adrannau 8(1), 9 a pharagraff 1 o Atodlen 4 i greu pŵer deddfwriaethol na all Gweinidog y Goron nac Awdurdod Datganoledig ei arfer.</p> <p>Mae Gweinidogion Cymru wedi ymrwymo i wneud yr un datganiad wrth arfer pwerau yn Atodlen 2 neu baragraff 1 o Atodlen 4 i greu pŵer deddfwriaethol na all Gweinidog y Goron nac Awdurdod Datganoledig ei arfer</p>	yn briodol greu pŵer is-ddirprwyedig o'r fath.
Brys	Is-baragraff (2) ac (8) o baragraff 7, Atodlen 7	Gweinidogion Cymru sy'n arfer pwerau yn Rhan 1 o Atodlen 2 ond yn defnyddio'r weithdrefn frys ym mharagraff 7 o Atodlen 7	Datganiad yn nodi bod Gweinidogion Cymru o'r farn bod angen llunio'r Offeryn Statudol gan ddefnyddio'r weithdrefn frys a'r rhesymau dros y farn honno.

## Rhan 2

### Datganiadau sy'n ofynnol wrth ddefnyddio pwerau galluogi o dan Ddeddf 2018 yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael)

#### 1. Datganiad(au) sifftio

Ddim yn berthnasol/ddim yn ofynnol.

#### 2. Datganiad priodoldeb

Mae'r Gweinidog Iechyd Meddwl, Lles a'r Gymraeg, Eluned Morgan, wedi gwneud y datganiad canlynol ynghylch defnyddio pwerau deddfwriaethol yn Neddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018:

"Yn fy marn i, nid yw Rheoliadau Hylendid a Diogelwch Bwyd a Bwyd Anifeiliaid (Diwygiadau Amrywiol a Darpariaeth Arbed) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2020 yn gwneud mwy nag sy'n briodol."

Mae hyn yn wir oherwydd bod yr Offeryn yn bennaf yn cywiro diffygion technegol sy'n deillio o ymadawiad y DU o'r UE ac yn sicrhau bod yr NIP yn cael ei gymhwyso'n iawn.

#### 3. Rhesymau da

Mae'r Gweinidog Iechyd Meddwl, Lles a'r Gymraeg, Eluned Morgan, wedi gwneud y datganiad canlynol ynghylch defnyddio pwerau deddfwriaethol yn Neddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018:

"Yn fy marn i mae yna resymau da dros y darpariaethau yn yr offeryn hwn, ac rydw i wedi dod i'r casgliad eu bod nhw'n ffordd resymol o weithredu."

Y rhain yw y byddai methu â llunio'r deddfwriaeth hon yn arwain at deddfwriaeth Cymru sy'n ymwneud â diogelwch a hylendid bwyd anifeiliaid a bwyd yn methu â gweithredu'n effeithiol ar ôl diwrnod cwblhau'r CG.

#### 4. Cydraddoldebau

Mae'r Gweinidog Iechyd Meddwl, Lles a'r Gymraeg, Eluned Morgan, wedi gwneud y datganiad a ganlyn

"Nid yw'r Offeryn yn diwygio, yn diddymu nac yn dirymu darpariaeth neu ddarpariaethau yn Neddf Cydraddoldeb 2006 na Deddf Cydraddoldeb 2010 nac is-ddeddfwriaeth a wneir o dan y Deddfau hynny."

Mae'r Gweinidog Iechyd Meddwl, Lles a'r Gymraeg, Eluned Morgan, wedi gwneud y datganiad a ganlyn ynghylch defnyddio pwerau deddfwriaethol yn Neddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018:

“Mewn perthynas â'r offeryn [drafft], rydw i, Eluned Morgan wedi rhoi sylw dyledus i'r angen i ddileu gwahaniaethu, aflonyddu, erledigaeth ac unrhyw ymddygiad arall a waherddir gan neu o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010”.

## **5. Esboniadau**

Gwnaed y datganiad esboniadau ym mharagraff 4 (Pwrpas ac effaith arfaethedig y deddfwriaeth) prif gorff y memorandwm esboniadol hwn.

## **6. Troseddau**

Ddim yn berthnasol/ddim yn ofynnol.

## **7. Is-ddirprwyo deddfwriaethol**

Ddim yn berthnasol/ddim yn ofynnol.

## **8. Brys**

Ddim yn berthnasol/ddim yn ofynnol.

## SL(5)675 – Gorchymyn Senedd Cymru (Cynrychiolaeth y Bobl) (Diwygio) 2020

### Cefndir a Diben

Mae Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cynrychiolaeth y Bobl) 2007 ("Gorchymyn 2007") yn nodi'r rheolau manwl ar gyfer cynnal etholiadau i Senedd Cymru.

Mae'r Gorchymyn hwn yn diwygio Gorchymyn 2007 i adlewyrchu newidiadau polisi a deddfwriaethol sydd wedi digwydd ers etholiad cyffredinol y Senedd yn 2016 i baratoi at etholiad cyffredinol y Senedd yn 2021.

Yn benodol, mae'r Gorchymyn hwn:

- yn gweithredu newidiadau sy'n codi o ganlyniad i'r newid enw, estyn yr etholfraint a'r meini prawf anghymhwysu a gyflwynwyd gan Ddeddf Senedd ac Etholiadau (Cymru) 2020,
- yn rhoi'r opsiwn i ymgeiswyr beidio â chyhoeddi eu cyfeiriad cartref yn etholiadau'r Senedd,
- yn gwneud newidiadau i'r modd y gwneir taliad i swyddogion canlyniadau ar gyfer gwasanaethau a roddwyd.

### Gweithdrefn

Cadarnhaol drafft.

### Materion technegol: craffu

Nodwyd y pwyntiau a ganlyn i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn:

#### **1. Rheol Sefydlog 21.2(vi) – ei bod yn ymddangos bod gwaith drafftio'r offeryn neu'r drafft yn ddiffygiol neu ei fod yn methu â bodloni gofynion statudol.**

Mae'r diffiniad a fewnosodir gan erthygl 3(3) yn cyfeirio at "*the Senedd Cymru*" [*ychwanegwyd y pwyslais*]. Mae'n ymddangos bod cynnwys y fannod bendant yn anghywir, gan fod Deddf Llywodraeth Cymru 2006 yn cyfeirio at "Senedd Cymru" drwyddi draw, heb "the" cyn hynny.

#### **2. Rheol Sefydlog 21.2(vi) – ei bod yn ymddangos bod gwaith drafftio'r offeryn neu'r drafft yn ddiffygiol neu ei fod yn methu â bodloni gofynion statudol.**

Mae erthyglau 43(b) a 44(2)(a)(ii) yn cyfeirio at adran 16 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006. Yn y ddau achos, nodir pennawd adran 16 fel "(disqualification from being Senedd member)" ond mae'r pennawd, mewn gwirionedd, yn nodi "(disqualification from being a Member of



the Senedd)". Gwneir yr un gwall hefyd yn y paragraff cyntaf ar dudalen 3 o'r Nodyn Esboniadol.

### **3. Rheol Sefydlog 21.2(vi) – ei bod yn ymddangos bod gwaith drafftio'r offeryn neu'r drafft yn ddiffygiol neu ei fod yn methu â bodloni gofynion statudol.**

Mae erthygl 53(9) yn addasu erthygl 23(8) o Orchymyn 2007 drwy roi "Welsh Ministers" yn lle "Assembly" ym mhob lle y mae'n digwydd. Fodd bynnag, mae'r achos cyntaf o "Assembly" ym mharagraff (8) yn ymwneud ag etholiadau'r Cynulliad.

Effaith y ddarpariaeth fel y'i drafftwyd yw bod rhan o eiriad paragraff (8) yn darllen "*a returning officer's charges at an Welsh Ministers election [sic]*".

### **4. Rheol Sefydlog 21.2(vii) – ei bod yn ymddangos bod anghysondebau rhwng ystyr testun Cymraeg a thestun Saesneg yr offeryn neu'r drafft.**

Yn y fersiwn Gymraeg o'r Gorchymyn, mae erthygl 3 wedi ei rhifo'n anghywir, ac felly mae'n anghyson â'r rhifo yn erthygl 3 o'r fersiwn Saesneg.

## **Rhinweddau: craffu**

Nodwyd y pwyntiau a ganlyn i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn:

- (a) Yn y troednodyn olaf ar ôl “pleidleisio.” mewnosoder “Pan fydd enw’r blaid gofrestredig yn cael ei roi ac nad yw’r enw yn

cynnwys “Cymru” neu “Welsh”, yna caniateir ychwanegu “Cymru” neu “Welsh” at enw’r blaid gofrestredig

**60.** Mae ffurflen CJ (ffurflen tystysgrif y cyfeirir ati yn rheol 8(1)) wedi ei diwygio fel a ganlyn.

- (a) Yn y troednodyn cyntaf ar ôl “honno.” mewnosoder “Lle bo enw’r blaid gofrestredig yn cael ei roi ac na fo’r enw yn cynnwys “Cymru” neu “Welsh”, yna caniateir ychwanegu “Cymru” neu “Welsh” at enw’r blaid gofrestredig”.

## RHAN 9

### Diwygiadau eraill

#### **Diwygio erthygl 2(1) (dehongli)**

**61.**—(1) Mae erthygl 2(1) (dehongli) wedi ei diwygio fel a ganlyn.

(2) Hepgorer y term “the 2007 Assembly general election” a’i ddiffiniad.

(3) Yn lle’r diffiniad o “Presiding Officer of the Assembly” rhodder—

““Presiding Officer of Senedd Cymru” is to be construed in accordance with section 25 of the 2006 Act;”.

#### **Diwygio erthygl 137 (dehongli Rhan 4)**

**62.** Yn erthygl 137 (dehongli Rhan 4), hepgorer paragraff (2).

#### **Diwygio erthygl 149 (darpariaeth arbed a throsiannol o ran anghymwysterau mewn cysylltiad ag etholiadau Senedd Cymru)**

**63.** Hepgorer erthygl 149.

#### **Diwygio Atodlen 5 (rheolau etholiadau Senedd Cymru)**

**64.**—(1) Mae Atodlen 5 (rheolau etholiadau Senedd Cymru) wedi ei diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn rheol 14 (penderfyniadau o ran dilysrwydd papurau enwebu)—

- (a) ym mharagraff (4)(c), yn lle “section 5(5) of the 1998 Act” rhodder “section 7(5) of the 2006 Act”;

(b) hepgorer paragraff (11).

(3) Yn rheol 23 (etholiad i’w gynnal drwy bleidlais)—



- (a) ym mharagraff (1), yn lle “section 4(4) of the 1998 Act” rhodder “section 6(4) of the 2006 Act”;
- (b) ym mharagraff (2), yn lle “sections 4(5) and (6) and 5 to 7 of the 1998 Act” rhodder “sections 6(5) and 7 to 9 of the 2006 Act”;
- (c) hepgorer paragraff (3).

(4) Yn rheol 62 (datgan canlyniad mewn etholiad etholaethol), hepgorer paragraff (5).

(5) Yn rheol 65 (dychwelyd neu fforffedu ernes)—

- (a) ym mharagraff (8)—
  - (i) yn is-baragraff (i), yn lle “section 4(7) or section 8(7) of the 1998 Act” rhodder “sections 7(1) and 10(9) of the 2006 Act”;
  - (ii) yn is-baragraff (ii), yn lle “section 5(5) or, as the case may be section 5(6) of the 1998 Act” rhodder “section 7(5) or, as the case may be section 7(6) of the 2006 Act”;
- (b) hepgorer paragraff (9).

(6) Yn rheol 78 (swyddi gwag: ethol aelodau rhanbarthau etholiadol yn ffurfiol)—

- (a) ym mharagraff (11), hepgorer “, in respect of a vacancy occurring before the 2007 Assembly general election, section 9(7)(b) of the 1998 Act and in respect of vacancies occurring after that election,”;
- (b) hepgorer paragraff (12).

(7) Ym mharagraff (7) o reol 79 (ethol aelodau o'r Senedd yn ffurfiol a chofnodi etholiadau etc)—

- (a) yn is-baragraff (a), yn lle'r geiriau o “, section 8(6) of the 1998 Act” hyd at y diwedd rhodder “section 10(7) of the 2006 Act; and”;
- (b) yn is-baragraff (b), yn lle'r geiriau o “, section 9(7)(a) of the 1998 Act” hyd at y diwedd rhodder “section 11(7)(a) of the 2006 Act.”

### **Diwygio Atodlen 9 (addasu Rheolau Deisebau Etholiadol 1960)**

**65.**—(1) Mae Atodlen 9 (addasu Rheolau Deisebau Etholiadol 1960) wedi ei diwygio fel a ganlyn.

(2) Ym mharagraff 3 (rheol 2(3) o Reolau 1960 (swyddog rhagnodedig)), hepgorer “under Part 1 of the Government of Wales Act 1998 or, as the case may be,”.

(3) Ym mharagraff 4 (rheol 4(1) o Reolau 1960 (ffurf deiseb)), yn lle is-baragraff (2)(b) rhodder—

- “(b) “the Clerk of the Crown” shall be construed as a reference to the Clerk; and”.

(4) Ym mharagraff 8—

- (a) yn is-baragraff (a)—
  - (i) hepgorer paragraff (i);
  - (ii) ym mharagraff (ii), yn lle “any subsequent” rhodder “an”;
  - (iii) hepgorer paragraff (iii);
  - (iv) ym mharagraff (iv), yn lle “any subsequent Assembly” rhodder “a Senedd Cymru”;
- (b) yn is-baragraff (b), yn lle’r geiriau o “[*or, in the case of a return under section 9 of the Government of Wales Act 1998*]” hyd at “[section 11 of the Government of Wales Act 2006]” rhodder “[*or, in the case of a return under section 11 of the Government of Wales Act 2006, claims to have had a right to be returned under section 11 of the Government of Wales Act 2006*]”;
- (c) yn is-baragraff (c)—
  - (i) hepgorer “\* section 9(6) of the Government of Wales Act 1998”;
  - (ii) hepgorer “(\**delete as appropriate*)”;
- (d) yn is-baragraff (e)(ii)—
  - (i) hepgorer “\* section 9 of the Government of Wales Act 1998”;
  - (ii) hepgorer “(\**delete as appropriate*)”.

*Enw*

Y Prif Weinidog, un o Weinidogion Cymru  
Dyddiad

Ffurflen a fewnosodir

FFURFLEN CZ – Rheol 4 (4B) a 6 (4B) o Atodlen 5

Etholiadau Senedd Cymru Ffurflen cyfeiriad cartref

Enw'r etholaeth		Dyddiad yr etholiad	
-----------------	--	---------------------	--

- Rhaid i chi gwebhau Rhan 1
- Cwebhewch Ran 2 dim ond os nad ydych yn dymuno i'ch cyfeiriad cartref gael ei gyhoeddi.

**Rhan 1: I'w cwebhau gan bob ymgeisydd**

Enw llawn yr ymgeisydd	
Cyfeiriad cartref (yn llawn)	
Cod post	
Diwedd Rhan 1.	

Os ydych yn cwebhau Rhan 1 yn unig danfonwch y ffurflen hon gyda'r papur enwebu at y Swyddog Canlyniadau gyda'r papur enwebu perthnasol.

**Rhan 2: Dim ond i'w cwebhau os nad ydych yn dymuno i'ch cyfeiriad cartref gael ei gyhoeddi**

Os ydych yn gofyn i'ch cyfeiriad cartref beidio â chael ei gyhoeddi yna ni fydd eich cyfeiriad yn ymddangos ar y datganiad o bersonau a enwebwyd nac ar y papur pleidleisio

Os ydych yn dewis pedio â chyhoeddi eich cyfeiriad cartref, bydd yr etholaeth y mae eich cyfeiriad cartref ynddi (neu'r ardal, os yw y tu allan i'r DU) yn ymddangos ar y datganiad o bersonau a enwebwyd a'r papurau pleidleisio

**Datganiad:** Yr wyf yn ei geneud yn ofynnol i'm cyfeiriad cartref beidio â chael ei gyhoeddi.

Yr etholaeth y mae fy nghyfeiriad cartref ynddi:	(rhoch enw etholaeth Senedd Cymru) Nieu
Mae fy nghyfeiriad cartref y tu allan i'r DU. Mae fy nghyfeiriad cartref yn:	(rhoch enw'r wlad) Llofnod yr ymgeisydd sy'n cwebhau Rhan 2
Llofnod yr ymgeisydd:	
Dyddiad:	

Danfonwch at y Swyddog Canlyniadau gyda'r papur enwebu perthnasol.

**Memorandwm Esboniadol** ar gyfer Gorchymyn Senedd Cymru  
(Cynrychiolaeth y Bobl) (Diwygio) 2020

Lluniwyd y Memorandwm Esboniadol hwn gan Swyddfa'r Prif Weinidog ac fe'i gosodir gerbron Senedd Cymru ar y cyd â'r is-ddeddfwriaeth uchod ac yn unol â Rheol Sefydlog 27.1

**Datganiad y Gweinidog/Dirprwy Weinidog**

Yn fy marn i, mae'r Memorandwm Esboniadol hwn yn rhoi darlun teg a rhesymol o effaith ddisgwyliedig Gorchymyn Senedd Cymru (Cynrychiolaeth y Bobl) (Diwygio) 2020

Mark Drakeford AS  
Prif Weinidog Cymru  
24 Tachwedd 2020

## **RHAN 1**

### **Disgrifiad**

1. Cyn pob etholiad yn y Senedd, caiff Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cynrychiolaeth y Bobl) 2007,<sup>1</sup> sy'n nodi'r modd y caiff yr etholiad a'r ymgyrch etholiadol eu cynnal ac sy'n cynnwys darpariaeth ar gyfer her gyfreithiol, ei adolygu a'i ddiwygio i ystyried unrhyw newidiadau polisi neu ddeddfwriaethol ers yr etholiad diwethaf.
2. Mae'r Gorchymyn Senedd Cymru (Cynrychiolaeth y Bobl) (Diwygio) 2020 drafft yn amlinellu diwygiadau i Orchymyn 2007 yn barod ar gyfer etholiad cyffredinol y Senedd yn 2021.

### **Materion o ddiddordeb arbennig i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**

3. Mae Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cynrychiolaeth y Bobl) 2007 wedi'i ddiwygio'n flaenorol gan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cynrychiolaeth y Bobl) (Diwygio) 2010, Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cynrychiolaeth y Bobl) (Llofnodion Newydd i Bleidleiswyr Absennol) 2013 ac yn fwyaf diweddar ddwywaith yn 2016 gan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cynrychiolaeth y Bobl) (Diwygio) 2016 a Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cynrychiolaeth y Bobl) (Diwygio) (Rhif 2) 2016. Felly, dyma fydd y pumed set o ddiwygiadau i Orchymyn 2007.
4. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i sicrhau bod y gyfraith yng Nghymru yn hygyrch, yn dryloyw ac yn hawdd ei defnyddio. Rydym yn cydnabod bod angen diweddarau a chydgrynhai cyfraith etholiadol. Nid yw Gorchymyn 2007 yn ddwyieithog ar hyn o bryd ychwaith (er bod rhai o'r ffurflenni yn yr Atodlenni iddo yn ddwyieithog). Bwriadwn adolygu Gorchymyn 2007 ymhellach ar ôl yr etholiadau gyda'r nod o'i gydgyrnhai mewn pryd ar gyfer etholiadau 2026.

### **Y cefndir deddfwriaethol**

5. Bydd y diwygiadau arfaethedig i Orchymyn 2007 yn cael eu gwneud o dan adran 13 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.<sup>2</sup>
6. Mae Gorchymynion a diwygiadau blaenorol wedi cael eu gwneud gan Ysgrifennydd Gwladol Cymru. Yn dilyn deddfu Ddeddf Cymru 2017 mae'r pŵer i wneud darpariaeth ar gyfer cynnal etholiadau'r Senedd wedi cael ei drosglwyddo i Weinidogion Cymru i raddau helaeth.

---

<sup>1</sup> Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cynrychiolaeth y Bobl) 2007  
<https://www.legislation.gov.uk/cy/uksi/2007/236/contents/made>

<sup>2</sup> Adran 13 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006  
<https://www.legislation.gov.uk/cy/ukpga/2006/32/section/13/2018-04-01>

7. Gwnaed y Gorchymyn Ymddygiad yn wreiddiol o dan adran 11 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998 (a ragflaenai adran 13 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006) ond o ganlyniad i baragraff 8 i Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 caiff ei drin fel pe bai wedi ei wneud o dan adran 13 o'r Ddeddf honno.

#### *Adran 13*

8. Mae adran 13 bellach yn darparu bod "*the Welsh Ministers may by order make provision that would be within the legislative competence of the Senedd, if included in an Act of the Senedd, as to:*
  - (a) *the conduct of elections of Members of the Senedd,*
  - (b) *the questioning of an election of Members of the Senedd and the consequences of irregularities, and*
  - (c) *the return of a Member of the Senedd otherwise than at an election.*
9. Bydd Gorchymyn Senedd Cymru (Cynrychiolaeth y Bobl) (Diwygio) 2020 yn cael ei wneud o dan y weithdrefn gadarnhaol ddrafft.

#### **Diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael**

10. Mae Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cynrychiolaeth y Bobl) 2007 yn nodi'r rheolau manwl ar gyfer cynnal etholiadau i Senedd Cymru. Mae'n nodi'r ffordd y mae'r etholiad a'r ymgyrch etholiadol yn cael eu cynnal, ac mae'n cynnwys darpariaethau ar gyfer her gyfreithiol i etholiad. Mae hefyd yn cynnwys darpariaethau sy'n ymwneud â chasglu a chadw dynodwyr personol ar gyfer pleidleiswyr drwy'r post neu bleidleiswyr drwy ddirprwy a gofynion mewn perthynas ag ymgeisio am gael bod yn bleidleisiwr absennol ac ymdrin â cheisiadau o'r fath.
11. Adolygir Gorchymyn 2007 ac mae wedi cael ei ddiwygio, yn gyffredinol, cyn pob etholiad cyffredinol i'r Senedd. Fel arfer, caiff diwygiadau i'r Gorchymyn eu gwneud i adlewyrchu unrhyw newidiadau polisi neu ddeddfwriaethol perthnasol sydd wedi digwydd ers yr etholiad blaenorol. Maent hefyd yn gwneud unrhyw ddiweddariadau technegol a/neu fân-ddiweddariadau perthnasol megis diwygiadau i derfynau penodol ar wariant ymgeiswyr.
12. Mae llawer o'r diwygiadau i Orchymyn 2007 a nodir yng Ngorchymyn Senedd Cymru (Cynrychiolaeth y Bobl) (Diwygio) 2020 yn dechnegol eu natur ac mae'n ofynnol iddynt adlewyrchu penderfyniadau polisi a newidiadau deddfwriaethol sydd eisoes wedi bod yn destun ystyriaeth o sylwedd. Yn benodol, mae'r rhan fwyaf yn codi o ganlyniad i newidiadau i'r etholfraint a'r trefniadau anghymhwysu a wnaed gan Ddeddf Senedd ac Etholiadau (Cymru) 2020,<sup>3</sup> yn benodol ymestyn yr etholfraint i bleidleiswyr

---

<sup>3</sup> Deddf Senedd ac Etholiadau (Cymru) 2020

<https://www.legislation.gov.uk/cy/anaw/2020/1/contents/enacted/welsh>

16 a 17 oed ac i ddinasyddion tramor cymwys, a rhai diwygiadau canlyniadol sy'n deillio o'r darpariaethau anghymhwys ac enwi.

13. Mae diwygiadau eraill yn fwy sylweddol ac maent yn adlewyrchu newidiadau a wnaed mewn ardaloedd eraill yn y Deyrnas Unedig i ganiatáu i ymgeiswyr ddewis peidio â chyhoeddi eu cyfeiriad cartref mewn etholiad, ynghyd â'r mater o dalu swyddogion canlyniadau am wasanaethau a roddwyd, yn ogystal â diweddariadau cyffredinol eraill sy'n adlewyrchu newidiadau ers i'r Gorchymyn Diwygio diwethaf gael ei wneud.
14. Diben Gorchymyn Senedd Cymru (Cynrychiolaeth y Bobl) (Diwygio) 2020, a'r effaith y bwriedir iddo ei chael, felly, yw diwygio Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cynrychiolaeth y Bobl) 2007 i adlewyrchu'r newidiadau polisi neu ddeddfwriaethol perthnasol sydd wedi digwydd ers etholiad cyffredinol y Senedd yn 2016 er mwyn paratoi ar gyfer etholiad cyffredinol y Senedd yn 2021.

## Ymgynghori

15. Ar 15 Mehefin 2020, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ymgynghoriad 12 wythnos ar y Gorchymyn Senedd Cymru (Cynrychiolaeth y Bobl) (Diwygio) 2020 drafft. Ceisiodd yr ymgynghoriad farn ynghylch a oedd unrhyw agweddau eraill ar Orchymyn 2007 yr oedd angen eu diweddaru neu eu diwygio yn ogystal â sylwadau ar y diwygiadau arfaethedig eu hunain. Diben yr ymgynghoriad oedd sicrhau bod y materion perthnasol wedi'u nodi a bod y diwygiadau a ddeilliai o hynny yn glir ac yn ddichonadwy.
16. Gofynnwyd am farn randdeiliaid am y darpariaethau yn y Gorchymyn drafft mewn perthynas â'r materion a ganlyn:
  - Newid enw'r Senedd (i adlewyrchu Rhan 2 o Ddeddf Senedd ac Etholiadau (Cymru) 2020)
  - Ymestyn etholfraint y Senedd i bobl ifanc 16 a 17 oed a darpariaethau cysylltiedig (i adlewyrchu Rhan 3 o Ddeddf Senedd ac Etholiadau (Cymru) 2020)
  - Ymestyn etholfraint y Senedd i ddinasyddion tramor cymwys (i adlewyrchu Rhan 3 o Ddeddf Senedd ac Etholiadau (Cymru) 2020)
  - Anghymhwys (i adlewyrchu Rhan 4 o Ddeddf Senedd ac Etholiadau (Cymru) 2020)
  - Cyhoeddi cyfeiriadau Ymgeiswyr
  - Taliadau gan Swyddogion Canlyniadau ac iddynt
  - Darpariaeth er mwyn i godau a wneir gan Weinidogion Cymru gael eu cymhwyso i etholiadau'r Senedd, yn hytrach na chodau'r DU a wneir gan yr Ysgrifennydd Gwladol

Daeth y newidiadau deddfwriaethol sy'n ymwneud â newid enw'r Senedd, yr etholfraint a'r trefniadau mewn perthynas ag anghymhwys i effaith yn Neddf Senedd ac Etholiadau (Cymru) 2020. Mae Gorchymyn Senedd Cymru (Cynrychiolaeth y Bobl) (Diwygio) 2020 yn ymgorffori'r diwygiadau gofynnol hyn o ganlyniad i Ddeddf 2020 yng Ngorchymyn Cynulliad

Cenedlaethol Cymru (Cynrychiolaeth y Bobl) 2007. Ceisiodd yr ymgynghoriad farn am yr angen i newid y darpariaethau yng Ngorchymyn 2007, fel y cyflwynwyd gan Ddeddf 2020. Nid oedd yr ymgynghoriad yn cynnwys ymgynghori ar rinweddau polisiau yr ymgynghorwyd a dadleuwyd yn eu cylch eisoes.

17. Tynnwyd sylw hefyd yn y ddogfen ymgynghori at faterion a oedd yn cael eu hystyried:

- Darpariaeth i sicrhau bod y rheolau yn y Gorchymyn ar gyfer cofnodion pleidleiswyr absennol a'r rheolau ar gyfer diogelu gwybodaeth am y rheini sydd wedi cyrraedd 14 a 15 oed yn Neddf Senedd ac Etholiadau (Cymru) 2020 yn gweithredu'n effeithiol gyda'i gilydd.
- Darpariaeth i bleidiau gwleidyddol ddefnyddio'r term "Cymru" neu "Welsh" ar bapurau cofrestru a phleidleisio i sicrhau y gellir gwahaniaethu rhwng canghennau datganoledig o bleidiau gwleidyddol y DU gyfan ac er mwyn osgoi dryswch i bleidleiswyr.

18. Roedd y ddogfen ymgynghori hefyd yn nodi cynigion i osod Gorchymyn cyfunol ar wahân ar gyfer etholiadau Llywodraeth Leol a'r Senedd mewn perthynas ag eithrio treuliau sy'n ymwneud ag anabledd a chyfieithu er mwyn sicrhau y ceir dull cyson ar draws etholiadau datganoledig Cymru. Cafodd Gorchymyn Cynrychiolaeth y Bobl (Eithrio Treuliau Etholiad) (Cymru) (Diwygio) 2020 ei osod ar 19 Hydref 2020.

19. Daeth yr ymgynghoriad i ben ar 8 Medi 2020. Yn ogystal â bod ar gael i'r cyhoedd ei weld ar wefan Llywodraeth Cymru, cysylltwyd yn uniongyrchol â nifer wedi'i dargedu o randdeiliaid â buddiant uniongyrchol yn y cynigion drwy e-bost ar y diwrnod y cyhoeddwyd yr ymgynghoriad i godi ymwybyddiaeth o'r ymgynghoriad a chaniatáu cyn gymaint o amser â phosibl iddynt ymateb.

20. Ymgynghorwyd â'r Comisiwn Etholiadol drwy gydol y broses o lunio Gorchymyn drafft 2020. Mae hyn yn unol ag Adran 7 o Ddeddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000 sy'n ei gwneud yn ofynnol i ymgynghori â'r Comisiwn Etholiadol cyn y gellir gwneud Gorchymyn o dan adran 13 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.

21. Ymgynghorwyd hefyd â Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth yn unol ag Erthygl 36 (4) o'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data sy'n ei gwneud yn ofynnol i ymgynghori â Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth wrth ddatblygu cynigion polisi sy'n ymwneud â phrosesu data personol.

22. Derbyniwyd cyfanswm o 14 o ymatebion o sylwedd i'r ymgynghoriad.

23. Gwnaed y newidiadau a ganlyn i'r Gorchymyn ar ôl yr ymgynghoriad:

*Cyflwyno Pleidiau Gwleidyddol ar Bapurau Enwebu a Phleidleisio*



24. Ychwanegwyd darpariaeth i bleidiau gwleidyddol ddefnyddio'r term "Cymru" neu "Welsh" ar bapurau enwebu a phleidleisio i sicrhau y gellir gwahaniaethu rhwng canghennau datganoledig o bleidiau gwleidyddol y DU gyfan ac er mwyn osgoi dryswch i bleidleiswyr. Mater i'r ymgeisydd, ac opsiwn yn ôl disgresiwn, yw penderfynu a ddylid mabwysiadu rhagddodiad / ôl-ddodiad ai peidio. Os nad yw enw'r blaid yn Gymraeg nac yn Saesneg, gellir rhoi "Cymru" ar ôl yr enw neu "Welsh" o flaen yr enw.

#### *Taliadau i Swyddogion Canlyniadau*

25. Gwnaed darpariaeth i ddileu'r ffioedd personol a dalwyd yn flaenorol i Swyddogion Canlyniadau am wasanaethau a roddwyd ac yn hytrach caniatáu i swm gael ei dalu drwy Swyddogion Canlyniadau am wasanaethau a roddwyd ar gyfer gweinyddu etholiadol gan dimau gweinyddu etholiadol.
26. Bwriad y taliad yw cydnabod statws annibynnol yr holl weinyddwyr etholiadol a'r baich ychwanegol a roddir ar dimau yn ystod etholiadau'r Senedd a'r misoedd blaenorol a chyfrifoldebau a gyflawnir ganddynt sy'n rhagori ar y swyddogaethau prif gyngor a gontractiwyd.
27. Telir y taliad yn uniongyrchol i'r Swyddog Canlyniadau i'w ddsbarthu ymhlith y gweinyddwyr etholiadol yn ôl ei ddisgresiwn, gan ystyried y canllawiau a ddarperir gan Weinidogion Cymru.

#### *Diogelu Data*

28. Ychwanegwyd darpariaeth i'w gwneud yn ofynnol i Swyddogion Cofrestru Etholiadol gynnwys, wrth ystyried cofnodion pleidleiswyr absennol, ddarpariaethau yn adran 24 o Ddeddf Senedd ac Etholiadau (Cymru) 2020 ac erthyglau 8(9) a 12(13) yng Ngorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cynrychiolaeth y Bobl) 2007.
29. Mae dadansoddiad o'r ymatebion i'r ymgynghoriad ar gael fel rhan o ymateb Llywodraeth Cymru i'r ymgynghoriad, a gyhoeddwyd ar wefan Llywodraeth Cymru:

<https://llyw.cymru/sites/default/files/consultations/2020-11/gorchymyn-drafft-senedd-cymru-cynrychiolaeth-y-bobl-ymatebion.pdf>

#### **6. Asesiad Effaith Rheoleiddiol**

30. Mae'r Gorchymyn Senedd Cymru (Cynrychiolaeth y Bobl) (Diwygio) 2020 drafft yn gwneud diwygiadau i Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cynrychiolaeth y Bobl) 2007.
31. Mae'r diwygiadau hyn yn seiliedig yn bennaf ar bolisiau sydd eisoes wedi bod yn destun ymgynghoriad a dadl o sylwedd. Lle ystyriwyd y polisiau yn yr Asesiadau Effaith Rheoleiddiol ar gyfer Deddf Senedd ac Etholiadau (Cymru) 2020 a Bil Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru), a gan na

chafwyd unrhyw dystiolaeth wahanol neu ychwanegol, nid oeddem o'r farn bod angen cynnal yr asesiadau hynny eto.

32. Mae'r Memorandwm Esboniadol gan gynnwys yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol ar gyfer Deddf Senedd ac Etholiadau (Cymru) 2020 i'w weld drwy ddilyn y ddolen a ganlyn:

<https://senedd.cymru/laid%20documents/pri-ld12142-em-r/pri-ld12142-em-r-w.pdf>

33. Mae'r Memorandwm Esboniadol gan gynnwys yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol ar gyfer Bil Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) i'w weld drwy ddilyn y ddolen a ganlyn:

<https://senedd.wales/laid%20documents/pri-ld12877-em/pri-ld12877-em-w.pdf>

34. Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r diwygiadau i'r Gorchymyn a wnaed ar ôl yr ymgynghoriad. O ganlyniad, ystyriwyd nad oedd yn angenrheidiol cynnal asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r diwygiadau hyn.

35. Mae'r diwygiad sy'n ymwneud â'r taliadau i Swyddogion Canlyniadau a Diogelu Data yn bolisïau a ystyriwyd yn yr Asesiadau Effaith Rheoleiddiol ar gyfer Bil Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) a Deddf Senedd ac Etholiadau (Cymru) 2020 yn y drefn honno.

36. Mae'r diwygiad sy'n ymwneud â chyflwyno pleidiau gwleidyddol ar bapurau enwebu a phleidleisio yn dod o dan yr eithriad a geir yn y Cod lle mae angen diwygiadau technegol rheolaidd neu ddiwygiadau ffeithiol er mwyn diweddarau rheoliadau.

# Eitem 5.1

## **SL(5)665 – Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygu Cyffredinol a Ganiateir) (Diwygio) (Rhif 3) (Cymru) 2020**

### **Cefndir a Diben**

Mae'r Gorchymyn hwn yn diwygio Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygu Cyffredinol a Ganiateir) 1995 ("y GDCG")

Mae Erthygl 3 o'r GDCG, ac Atodlen 2 iddo, yn rhoi hawliau datblygu a ganiateir mewn cysylltiad â datblygu penodol. Pan roddir yr hawliau hyn, nid yw cais am ganiatâd cynllunio yn ofynnol.

Mae Erthygl 3 o'r Gorchymyn hwn yn diwygio Atodlen 2 i'r GDCG drwy fewnosod Rhan 6A newydd (mannau tyfu cymunedol) i ganiatáu codi, estyn, newid neu amnewid siediau storio a thai gwydr ar fannau tyfu cymunedol o 62 metr sgwâr o leiaf. Mae'r rhain yn ddarostyngedig i gyfyngiadau sydd hefyd wedi'u nodi yn y Rhan 6A newydd.

Mae Erthygl 4 o'r Gorchymyn hwn yn gweithredu Erthygl 57(1) o Gyfarwyddeb (UE) 2018/1972 Senedd a Chyngor Ewrop sy'n sefydlu Cod Cyfathrebu Electronig Ewrop (ail-lunio) (OJ Rhif L 321, 17.12.2018, t. 36) drwy ddiwygio erthygl 4 o Atodlen 2 i'r GDCG, a Rhan 24 (gweithredwyr cod cyfathrebu electronig) iddo.

Mae Erthygl 4 o'r Gorchymyn hwn hefyd yn gwneud newidiadau pellach eraill i Ran 24 o Atodlen 2, gan gynnwys (ymhlith pethau eraill) cynyddu nifer y systemau antenâu y gellir eu gosod ar rai adeiladau o dri i bedwar, a chynyddu nifer y gweithredwyr cod cyfathrebu electronig sy'n cael gweithredu systemau antenâu ar rai adeiladau a strwythurau o dri i bedwar.

Mae Erthygl 5 o'r Gorchymyn hwn yn diwygio paragraff H.4 o Ran 1 o Atodlen 2 i'r GDCG, a pharagraffau A.3(b) a B5 o Ran 25 o Atodlen 2 i'r GDCG.

### **Gweithdrefn**

Negyddol.

### **Materion technegol: craffu**

Ni nodwyd unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

### **Rhinweddau: craffu**

Ni nodwyd unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.



## Y goblygiadau yn sgil ymadael â'r Undeb Ewropeaidd

Mae'r Gorchymyn hwn yn cynnwys darpariaethau sy'n gweithredu deddfwriaeth yr UE. Bydd y Gorchymyn hwn yn rhan o gyfraith yr UE a ddargedwir ar ôl diwrnod cwblhau'r cyfnod gweithredu (h.y. diwedd y cyfnod gweithredu, ar 31 Rhagfyr 2020).

## Ymateb Llywodraeth Cymru

Nid oes angen ymateb gan Lywodraeth Cymru.

### Cynghorwyr Cyfreithiol

### Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad Rhagfyr 2020



---

OFFERYNNAU STATUDOL  
CYMRU

---

**2020 Rhif 1318 (Cy. 290)**

**CYNLLUNIO GWLAD A  
THREF, CYMRU**

**Gorchymyn Cynllunio Gwlad a  
Thref (Datblygu Cyffredinol a  
Ganiateir) (Diwygio) (Rhif 3)  
(Cymru) 2020**

**NODYN ESBONIADOL**

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Mae'r Gorchymyn hwn yn diwygio Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygu Cyffredinol a Ganiateir) 1995 ("y GDCG").

Mae erthygl 3 o'r GDCG, ac Atodlen 2 iddo, yn rhoi hawliau datblygu a ganiateir mewn cysylltiad â datblygu penodol. Pan roddir yr hawliau hynny, nid yw cais am ganiatâd cynllunio yn ofynnol.

Mae erthygl 3 o'r Gorchymyn hwn yn diwygio Atodlen 2 i'r GDCG drwy fewnosod Rhan 6A newydd (mannau tyfu cymunedol) er mwyn caniatáu codi, estyn, addasu neu ailosod cytiau storio a thai gwydr ar fannau tyfu cymunedol o 62 o fetrau sgwâr o leiaf. Mae'r datblygu a ganiateir yn ddarostyngedig i gyfyngiadau sydd hefyd wedi eu nodi yn y Rhan 6A newydd.

Mae erthygl 4(1), (2), (3), (5)(b) i (f), (7) ac (8) o'r Gorchymyn hwn yn gweithredu Erthygl 57(1) o Gyfarwyddeb (EU) 2018/1972 Senedd Ewrop a'r Cyngor sy'n sefydlu'r Cod Cyfathrebiadau Electronig Ewropeaidd (ail-lunio) (OJ Rhif L 321, 17.12.2018, t. 36) drwy ddiwygio erthygl 4 o'r GDCG, a Rhan 24 (gweithredwyr cod cyfathrebiadau electronig) o Atodlen 2 iddo.

Mae'r diwygiadau i Ran 24 o Atodlen 2 i'r GDCG yn—

- (a) lleihau'r cyfyngiadau ar ddatblygu sy'n cynnwys gosod, addasu neu ailosod pob system cell fach, a

- (b) dileu cyfyngiadau ar ddatblygu sy'n cynnwys gosod, addasu neu ailosod systemau cell fach Rheoliad 2020/1070 y tu allan i dir a warchodir neu Safleoedd Treftadaeth y Byd.

Y prif newidiadau yw—

- (a) hepgor y diffiniadau o “small antenna” a “small cell antenna” (erthygl 4(7)(a)),
- (b) mewnosod diffiniad newydd o “small cell system” yn lle'r diffiniad blaenorol o “small cell antenna” (erthygl 4(7)(b)),
- (c) mewnosod diffiniad o “Regulation 2020/1070 small cell system” sef system cell fach y mae Rheoliad Gweithredu'r Comisiwn (EU) 2020/1070 (OJ Rhif L 234, 21.7.2020, t. 11) yn gymwys iddi ac sy'n bodloni'r amodau a'r gofynion a nodir yn y Rheoliad hwnnw (erthygl 4(7)(b)),
- (d) darparu bod cyfeiriadau at Reoliad Gweithredu'r Comisiwn (EU) 2020/1070 yn newidiadwy (erthygl 4(8)),
- (e) estyn hawliau datblygu a ganiateir mewn perthynas â datblygu sy'n cynnwys gosod, addasu neu ailosod system cell fach neu system cell fach Rheoliad 2020/1070 (erthygl 4(5)(d) i (f)), ac
- (f) eithrio systemau cell fach a systemau cell fach Rheoliad 2020/1070 o gyfrifiadau nifer y systemau antena y caniateir eu gosod ar adeiladau a strwythurau penodol a nifer y gweithredwyr cod cyfathrebiadau electronig a gaiff weithredu systemau antena ar adeiladau a strwythurau o'r fath (erthygl 4(5)(b) ac (c)).

Mae'r Gorchymyn hwn hefyd yn diwygio erthygl 4 o'r GDCG fel na chaiff awdurdod cynllunio lleol na Gweinidogion Cymru ddyroddi cyfarwyddyd yn cyfyngu ar gwmpas hawliau datblygu a ganiateir i'r graddau y mae'r datblygiad yn cynnwys gosod, addasu neu ailosod system cell fach Rheoliad 2020/1070 (erthygl 4(1), (2) a (3)).

Mae erthygl 4(5)(a), (b) ac (c) a (6) o'r Gorchymyn hwn yn gwneud y newidiadau pellach a ganlyn i Ran 24 o Atodlen 2—

- (a) mân newidiadau drafftio (erthygl 4(5)(a)),
- (b) cynyddu nifer y systemau antena y caniateir eu gosod ar adeiladau a strwythurau penodol o dri i bedwar (erthygl 4(5)(b) ac (c)),
- (c) cynyddu nifer y gweithredwyr cod cyfathrebiadau electronig a gaiff weithredu systemau antena ar adeiladau a strwythurau penodol o dri i bedwar (erthygl 4(5)(b) ac (c)), a

- (d) dileu cyfeiriad at Argymhelliad gan Gyngor yr UE a newid cyfeiriad at antena cell fach (erthygl 4(6)).

Mae erthygl 5 o'r Gorchymyn hwn yn diwygio paragraff H.4 o Ran 1 o Atodlen 2 i'r GDCG a pharagraffau A.3(b) a B.5 o Ran 25 o Atodlen 2 i'r GDCG er mwyn—

- (a) rhoi “small cell systems” yn lle “small antenna”, a
- (b) eithrio systemau cell fach Rheoliad 2020/1070, a ganiateir gan y paragraff A.1(q) newydd o Ran 24 o Atodlen 2 i'r GDCG, o gyfrifiad nifer yr antenau a ganiateir gan baragraff H.1(a) o Ran 1 o Atodlen 2 i'r GDCG a chan baragraffau A.1(d) a B.1(d) o Ran 25 o'r Atodlen honno.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Aseidiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Gorchymyn hwn. O ganlyniad, lluniwyd asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Gorchymyn hwn. Gellir cael copi oddi wrth: Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ.

---

OFFERYNNAU STATUDOL  
CYMRU

---

**2020 Rhif 1318 (Cy. 290)**

**CYNLLUNIO GWLAD A  
THREF, CYMRU**

Gorchymyn Cynllunio Gwlad a  
Thref (Datblygu Cyffredinol a  
Ganiateir) (Diwygio) (Rhif 3)  
(Cymru) 2020

*Gwnaed* 19 Tachwedd 2020

*Gosodwyd* gerbron *Senedd*  
*Cymru* 20 Tachwedd 2020

*Yn dod i rym* 21 Rhagfyr 2020

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddir gan adrannau 59, 60(1) a (3), 61(1) a 333(4B) a (7) o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990(1) ac a freiniwyd bellach ynddynt hwy(2) ac, mewn perthynas ag erthygl 4(8), gan

---

(1) 1990 p. 8. Mewnosodwyd adran 59(4) gan adran 55 o Ddeddf Cynllunio (Cymru) 2015 (dccc 4) ("Deddf 2015"), a pharagraff 5 o Atodlen 7 iddi. Amnewidiwyd adran 333(4B) gan adran 55 o Ddeddf 2015 a pharagraff 6(3) o Atodlen 7 iddi. Mae diwygiadau eraill nad ydynt yn berthnasol i'r offeryn hwn.

(2) Trosglwyddwyd swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol o dan adrannau 59, 60(1), 61(1) a (3) a 333(7), i'r graddau y maent yn arferadwy o ran Cymru, i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan erthygl 2 o Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672) ac Atodlen 1 iddo: gweler y cofnod yn Atodlen 1 ar gyfer Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 fel y'i hamnewidiwyd gan erthygl 4 o Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 2000 (O.S. 2000/253) ac Atodlen 3 iddo. Yn rhinwedd adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32), a pharagraffau 30 a 32 o Atodlen 11 iddi, trosglwyddwyd swyddogaethau Cynulliad Cenedlaethol Cymru i Weinidogion Cymru.



baragraff 1A o Atodlen 2 i Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972(1).

Mae'r Gorchymyn hwn yn gwneud darpariaeth at ddiben a grybwyllir yn adran 2(2) o Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972 ac mae'n ymddangos i Weinidogion Cymru ei bod yn hwylus i'r cyfeiriadau yn y Gorchymyn hwn at Reoliad Gweithredu'r Comisiwn (EU) 2020/1070(2) ar bennu priodweddau pwyntiau mynediad di-wifr ardal fach yn unol â pharagraff 2 o Erthygl 57 o Gyfarwyddeb EU 2018/1972 Senedd Ewrop a'r Cyngor sy'n sefydlu'r Cod Cyfathrebiadau Electronig Ewropeaidd(3), gael eu dehongli fel cyfeiriadau at yr offeryn hwnnw fel y'i diwygir o bryd i'w gilydd.

### Enwi, cychwyn a chymhwysu

1.—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygu Cyffredinol a Ganiateir) (Diwygio) (Rhif 3) (Cymru) 2020 a daw i rym ar 21 Rhagfyr 2020.

(2) Mae'r Gorchymyn hwn yn gymwys o ran Cymru.

### Diwygio Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygu Cyffredinol a Ganiateir) 1995

2. Mae Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygu Cyffredinol a Ganiateir) 1995(4) wedi ei ddiwygio fel a nodir yn erthyglau 3 i 5.

### Mannau tyfu cymunedol

3. Ar ôl Rhan 6 o Atodlen 2 (adeiladau a gweithrediadau amaethyddol) mewnosoder—

- 
- (1) Diddymwyd Deddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972 ("Deddf 1972") gan adran 1 o Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018 (p. 16) ("Deddf 2018") gan gael effaith o'r diwrnod ymadael. Mae "exit day" wedi ei ddiffinio yn adran 20 o Ddeddf 2018 fel 31 Ionawr 2020 am 11pm. Er gwaethaf y diddymiad hwnnw mae Deddf 1972 yn parhau i gael effaith gydag addasiadau hyd ddiwrnod cwblhau'r cyfnod gweithredu, yn rhinwedd adran 1A o Ddeddf 2018. Mewnosodwyd adran 1A gan adran 1 o Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Y Cytundeb Ymadael) 2020 (p. 1) ("Deddf 2020"). Mae "IP completion day" wedi ei ddiffinio yn adran 1A fel 31 Rhagfyr 2020 am 11pm (yr ystyr a roddir yn adran 39 o Ddeddf 2020). Mewnosodwyd paragraff 1A o Atodlen 2 i Ddeddf 1972 gan adran 28 o Ddeddf Diwygio Deddfwriaethol a Rheoleiddiol 2006 (p. 51) ac fe'i diwygiwyd gan adran 3(3) o Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Diwygio) 2008 (p. 7), a Rhan 1 o'r Atodlen iddi, ac O.S. 2007/1388.
- (2) OJ Rhif L 234, 21.7.2020, t. 11.
- (3) OJ Rhif L 321, 17.12.2018, t. 36.
- (4) O.S. 1995/418. Diwygiwyd erthygl 4 gan O.S. 1996/528, O.S. 2006/124 (Cy. 17), O.S. 2006/1386 (Cy. 136) ac O.S. 2013/1776 (Cy. 177). Amnewidiwyd Rhan 24 gan O.S. 2019/330 (Cy. 80). Mae offerynnau diwygio eraill ond nid yw'r un ohonynt yn berthnasol.

## **“PART 6A**

### **Community Growing Spaces**

#### **Class A**

##### **A. Permitted development**

**Development consisting of the erection, extension, alteration or replacement of storage sheds and greenhouses on community growing spaces.**

##### **A.1 Development not permitted**

Development is not permitted by Class A if—

- (a) the development would be carried out on a community growing space of less than 62 square metres in area;
- (b) on a community growing space of less than 125 square metres in area, it would result in the presence of more than either—
  - (i) one storage shed; or
  - (ii) one greenhouse;
- (c) on a community growing space of 125 square metres or more in area, it would result in the presence of more than one storage shed and one greenhouse;
- (d) the ground area of the storage shed or greenhouse would exceed 6 square metres when measured externally;
- (e) any part of the storage shed or greenhouse would exceed 2.2 metres in height;
- (f) the development would be on article 1(5) land;
- (g) the development would be on land within a World Heritage Site;
- (h) the development would be within the curtilage of a listed building; or
- (i) the development would be within—
  - (i) 8 metres of a non-tidal main river (or within 8 metres of any flood defence structure or culvert on that river); or
  - (ii) within 16 metres of a tidal main river (or within 16 metres of any flood defence structure or culvert on that river).

##### **A.2 Interpretation of Class A**

For the purposes of Class A—

“community growing space” means—

- (a) an allotment including an allotment garden within the meaning of the Allotments Act 1922(1); or
- (b) any other land used or intended for use—
  - (i) by one or more communities,
  - (ii) wholly or mainly for the cultivation of vegetables, fruit, herbs or flowers, and
  - (iii) otherwise than with a view to making a profit;

“culvert” means a covered channel or pipe which prevents the obstruction of a main river or drainage path by an artificial construction;

“flood defence structure” means any permanent works constructed, operated or maintained by the Natural Resources Body for Wales, for the purposes of managing flood risk;

“greenhouse” means a structure such as a glasshouse or polytunnel in which vegetables, fruit, herbs or flowers are cultivated under cover in an enclosed space, but does not include a structure in which livestock are kept;

“main river” has the meaning given in section 113(1) of the Water Resources Act 1991(2);

“non-tidal main river” means any part of a main river that is not a tidal main river;

“normal tidal limit” means the normal tidal limit as marked on the Ordnance Maps (1:25,000 scale);

“tidal main river” means that part of a main river downstream of the normal tidal limit.”

#### **Datblygu gan weithredwyr cod cyfathrebiadau electronig**

4.—(1) Yn erthygl 4(3)—

- (a) ar ôl is-baragraff (aa) mewnosoder—

“(aaa) development permitted by Part 24 which consists of the installation, alteration or replacement of a Regulation

---

(1) 1922 p. 51.

(2) 1991 p. 57. Diwygiwyd y diffiniad o “main river” yn adran 113(1) gan adran 59(1) a (3) o Ddeddf Dŵr 2014 (p. 21). Mae diwygiadau eraill i adran 113(1) ond nid yw'r un ohonynt yn berthnasol i'r Gorchymyn hwn.

2020/1070 small cell system;”;

(b) yn is-baragraff (c), ar ôl “provides” mewnosoder “but this is subject to paragraph (3A)”.

(2) Ar ôl erthygl 4(3) mewnosoder—

“(3A) A direction under paragraph (1) or (2) may not affect the carrying out of development consisting of the installation, alteration or replacement of a Regulation 2020/1070 small cell system.”

(3) Yn erthygl 4(6), yn y lle priodol mewnosoder—

““Regulation 2020/1070 small cell system” has the same meaning as in Part 24 of Schedule 2;”.

(4) Mae Rhan 24 o Atodlen 2 wedi ei diwygio fel a nodir ym mharagraffau (5) i (8).

(5) Ym mharagraff A.1—

(a) yn is-baragraff (h), yn lle “paragraphs” rhodder “sub-paragraphs” ac yn lle “paragraph” rhodder “sub-paragraph”;

(b) yn is-baragraff (j)—

(i) ym mharagraff (i), yn lle “small cell antennas” rhodder “Regulation 2020/1070 small cell systems or small cell systems”;

(ii) yn lle paragraff (iii) rhodder—

“(iii) in the case of antennas other than dish antennas, Regulation 2020/1070 small cell systems or small cell systems, the development would result in the presence on the building or structure of—

(aa) more than four antenna systems; or

(bb) any antenna system operated by more than four electronic communications code operators; or”;

(c) yn lle is-baragraff (k)(ii) rhodder—

“(ii) in the case of antennas other than dish antennas, Regulation 2020/1070 small cell systems or small cell systems, the development would result in the presence on the building or structure of—

(aa) more than five antenna systems; or

- (bb) any antenna system operated by more than four electronic communications code operators; or”;
- (d) yn lle is-baragraff (l) rhodder—
  - “(l) in the case of development on any protected land it would consist of—
    - (i) the installation or alteration of an antenna other than a Regulation 2020/1070 small cell system or a small cell system, or of any apparatus which includes or is intended for the support of such an antenna; or
    - (ii) the replacement of an antenna or such apparatus by an antenna other than a Regulation 2020/1070 small cell system or a small cell system, or apparatus which differs from that which is being replaced,unless the development is carried out in an emergency or is development described in the introductory words to sub-paragraph (m) and which is allowed by the paragraphs which follow those introductory words;”;
- (e) yn is-baragraff (m)(ii), ar ôl “dish antennas” mewnosoder “Regulation 2020/1070 small cell systems or small cell systems,”;
- (f) yn lle is-baragraffau (q) i (t) rhodder—
  - “(q) in the case of the installation, alteration or replacement on a dwellinghouse or within the curtilage of a dwellinghouse of any electronic communications apparatus, that apparatus—
    - (i) is not a Regulation 2020/1070 small cell system or a small cell system;
    - (ii) being a Regulation 2020/1070 small cell system or a small cell system, is or would be on any protected land or within a World Heritage Site, unless the development is carried out in an emergency or is development which is allowed by sub-paragraph (r);
    - (iii) being a small cell system, would result in the presence on that dwellinghouse or within the curtilage of that dwellinghouse of more than two small cell systems; or

- (iv) being a small cell system, is to be located on a roof or on a chimney so that the highest part of the antenna would exceed in height the highest part of that roof or chimney respectively;
- (r) in the case of the installation, alteration or replacement on protected land or within a World Heritage Site of a Regulation 2020/1070 small cell system or a small cell system on a dwellinghouse or within the curtilage of a dwellinghouse, the antenna—
  - (i) is to be located—
    - (aa) on a chimney;
    - (bb) on a building which exceeds 15 metres in height;
    - (cc) on a wall or roof slope which fronts a highway; or
    - (dd) on a roof, other than a roof slope which fronts a highway, so that the highest part of the antenna would exceed in height the highest part of that roof;
  - (ii) is or would be on protected land (other than a conservation area<sup>(1)</sup>) and would result in the presence on that dwellinghouse or within the curtilage of that dwellinghouse of more than either—
    - (aa) two Regulation 2020/1070 small cell systems;
    - (bb) two small cell systems; or
    - (cc) one Regulation 2020/1070 small cell system and one small cell system; or
  - (iii) is or would be in a conservation area or within a World Heritage site and would result in the presence on that dwellinghouse or within the curtilage of that dwellinghouse of more than one Regulation 2020/1070 small cell system or one small cell system;
- (s) in the case of the installation, alteration or replacement of a Regulation 2020/1070 small cell system or a small cell system on a building or other

---

(1) Gweler adran 336(1) o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 am y diffiniad o “conservation area”.

structure, which is not a dwellinghouse or within the curtilage of a dwellinghouse, in a conservation area or World Heritage Site—

- (i) unless the development is carried out in an emergency;
- (ii) the installation of a Regulation 2020/1070 small cell system or a small cell system would result in the presence on the building or other structure of more than either—
  - (aa) two Regulation 2020/1070 small cell systems;
  - (bb) two small cell systems; or
  - (cc) one Regulation 2020/1070 small cell system and one small cell system; or
- (iii) the replacement or alteration of a Regulation 2020/1070 small cell system or a small cell system would result in the presence on the building or other structure of more than either—
  - (aa) two Regulation 2020/1070 small cell systems;
  - (bb) two small cell systems;
  - (cc) one Regulation 2020/1070 small cell system and one small cell system; or
  - (dd) if greater, the number of Regulation 2020 small cell systems or small cell systems on the building or other structure before alteration or replacement of the antenna.”

(6) Ym mharagraff A.3(4)(c)—

- (a) yn lle “small cell antennas” rhodder “Regulation 2020/1070 small cell systems or small cell systems”, a
- (b) hepgorer y geiriau o “as expressed in” hyd at y diwedd.

(7) Ym mharagraff A.4(1)—

- (a) hepgorer y diffiniadau o “small antenna” a “small cell antenna”;
- (b) yn y lle priodol mewnosoder—  
““Commission Regulation 2020/1070” means Commission Implementing Regulation (EU) 2020/1070 on specifying the characteristics of small-area wireless

access points pursuant to Article 57 paragraph 2 of the Directive;”;

““the Directive” means Directive (EU) 2018/1972 of the European Parliament and Council establishing the European Electronic Communications Code (recast);”;

““Regulation 2020/1070 small cell system” means a small cell system—

- (a) to which Commission Regulation 2020/1070 applies;
- (b) which complies with the requirements of the European Standard laid down at point B of the Annex to Commission Regulation 2020/1070; and
- (c) meets the conditions set out in Point A of the Annex to Commission Regulation 2020/1070;”;

““small cell system” means an antenna which may be referred to as a femtocell, picocell, metrocell or microcell antenna, together with any ancillary apparatus, which—

- (a) operates on a point to multi point or area basis in connection with an electronic communications service;
- (b) does not, in any two dimensional measurement, have a surface area exceeding 5000 square centimetres; and
- (c) does not have a volume exceeding 50,000 cubic centimetres;

but does not include a Regulation 2020/1070 small cell system and any calculation for the purposes of paragraph (b) or (c) includes any power supply unit or casing, but excludes any mounting, fixing, bracket or other support structure;”.

(8) Ar ôl paragraff A.4(2) mewnoder—

“(3) Any reference in this Order to Commission Regulation 2020/1070 is a reference to that Regulation as amended from time to time.”

**Diwygiadau i Ran 1 (datblygu o fewn cwrtil tŷ annedd) a Rhan 25 (datblygiad telathrebu arall) o Atodlen 2**

5.—(1) Yn Rhan 1 o Atodlen 2, ym mharagraff H.4—

- (a) yn lle “small antenna” rhodder “small cell system”;
- (b) ar y diwedd mewnoder “, but excludes Regulation 2020/1070 small cell systems to



the extent that they are permitted by paragraph A.1(q) of Part 24”.

(2) Yn Rhan 25 o Atodlen 2—

(a) ym mharagraff A.3(b)—

- (i) yn lle “small antenna” rhodder “small cell system”;
- (ii) ar y diwedd mewnosoder “, but excludes Regulation 2010/1070 small cell systems to the extent that they are permitted by paragraph A.1(q) of Part 24”;

(b) ym mharagraff B.5—

- (i) yn lle “small antenna” rhodder “small cell system”;
- (ii) ar y diwedd mewnosoder “, but excludes Regulation 2010/1070 small cell systems to the extent that they are permitted by paragraph A.1(q) of Part 24”.

*Julie James*

Y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol, un o  
Weinidogion Cymru  
19 Tachwedd 2020

## **Memorandwm Esboniadol ar gyfer Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygu Cyffredinol a Ganiateir) (Diwygio) (Rhif 3) (Cymru) 2020**

Lluniwyd y Memorandwm Esboniadol hwn gan y Gyfarwyddiaeth Gynllunio ac fe'i gosodir gerbron Senedd Cymru ar y cyd â'r is-ddeddfwriaeth uchod ac yn unol â Rheol Sefydlog 27.1.

### **Datganiad y Gweinidog**

Yn fy marn i, mae'r Memorandwm Esboniadol hwn yn rhoi darlun teg a rhesymol o effaith ddisgwyliedig Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygu Cyffredinol a Ganiateir) (Diwygio) (Rhif 3) (Cymru) 2020. Rwy'n fodlon bod y manteision yn cyfiawnhau'r costau tebygol.

Julie James AS  
Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol

20 Tachwedd 2020

## RHAN 1

### 1. Disgrifiad

- 1.1 Mae Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygu Cyffredinol a Ganiateir) 1995 (y "GDCG"), fel y'i diwygiwyd, yn caniatáu i fân waith datblygu gael ei wneud, o fewn paramedrau penodol, heb fod angen cyflwyno cais cynllunio. Gelwir hyn yn "ddatblygiad a ganiateir".
- 1.2 Mae Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygu Cyffredinol a Ganiateir) (Diwygio) (Rhif 3) (Cymru) 2020 ("y Gorchymyn Diwygio") yn diwygio Atodlen 2 i'r GDCG drwy fewnosod Rhan 6A newydd (mannau tyfu i gymunedau) i ganiatáu gwaith i godi, estyn, disodli neu newid siediau storio a thai gwydr mewn mannau tyfu i gymunedau sydd o leiaf 62 metr sgwâr o faint. Mae'r datblygu a ganiateir yn ddarostyngedig i gyfyngiadau sydd hefyd wedi eu nodi yn y Rhan 6A newydd.
- 1.3 Mae'r Gorchymyn Diwygio hefyd yn diwygio erthygl 4, a Rhan 24 (datblygu gan weithredwyr cod cyfathrebu electronig) o Atodlen 2 i'r GDCG i weithredu Erthygl 57(1) o Gyfarwyddeb yr UE 2018/1972 Senedd Ewrop a'r Cyngor gan sefydlu Cod Cyfathrebu Electronig Ewropeaidd (ail-luniad) fel y maent yn ymwneud â'r system gynllunio drwy:
  - 1.3.1 lleihau'r cyfyngiadau ar waith datblygu sy'n cynnwys gosod, newid neu ddisodli pob system cell fach;
  - 1.3.2 dileu'r cyfyngiadau ar waith datblygu sy'n cynnwys gosod, newid neu ddisodli systemau cell fach Rheoliad 2020/1070 y tu allan i dir gwarchoddedig neu Safleoedd Treftadaeth y Byd. Systemau cell fach y mae Rheoliad Gweithredu'r Comisiwn (yr UE) 2020/1070 yn gymwys iddynt ac sy'n bodloni'r amodau a'r gofynion a nodir yn y Rheoliad hwnnw yw systemau cell fach Rheoliad 2020/1070;
  - 1.3.3 gwneud newidiadau i erthygl 4 o'r GDCG fel na all awdurdod cynllunio lleol na Gweinidogion Cymru roi cyfarwyddyd sy'n cyfyngu ar gwmpas hawliau datblygu a ganiateir i'r graddau y mae'r gwaith datblygu yn cynnwys gosod, newid neu ddisodli system cell fach Rheoliad 2020/1070.
- 1.4 Mae'r Gorchymyn Diwygio yn gwneud diwygiadau eraill i Ran 24 o Atodlen 2 i'r GDCG, gan gynnwys :
  - 1.4.1 cynyddu nifer y systemau antenau y gellir eu gosod ar adeiladau ac adeileddau penodol o dri i bedwar;
  - 1.4.2 cynyddu nifer y gweithredwyr cod cyfathrebu electronig a all weithredu systemau antenau ar adeiladau ac adeileddau penodol o dri i bedwar;
  - 1.4.3 eithrio systemau cell fach a systemau cell fach Rheoliad 2020/1070 o'r cyfrifiad o nifer y systemau antenau y gellir eu gosod a nifer y gweithredwyr cod cyfathrebu electronig a all weithredu, ar adeiladau ac adeileddau penodol;
  - 1.4.4 gwneud mân newidiadau drafftio.

## **2. Materion o ddiddordeb arbennig i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**

2.1 Dim.

## **3. Cefndir deddfwriaethol**

- 3.1 Mae'r pwerau i wneud y Gorchymyn Diwygio yn adrannau 59, 60, 61 a 333 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990. Mae'r adrannau hyn yn rhoi pŵer i'r Ysgrifennydd Gwladol roi (neu'n galluogi awdurdodau cynllunio lleol i roi) caniatâd cynllunio ar gyfer categorïau o ddatblygu a nodir mewn gorchymyn datblygu. Gwneir y GDCG o dan y pwerau hyn.
- 3.2 Trosglwyddwyd swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol i Gynulliad Cenedlaethol Cymru drwy erthygl 2 o Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672). Trosglwyddwyd swyddogaethau Cynulliad Cenedlaethol Cymru i Weinidogion Cymru yn rhinwedd adran 162 a pharagraffau 30 a 32 o Atodlen 11 i, Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006. Felly, caiff Gweinidogion Cymru arfer y pwerau hyn bellach.
- 3.3 Mae Adran 333(58) o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 yn darparu mai'r weithdrefn ar gyfer offeryn statudol sy'n cynnwys gorchymyn datblygu yw'r weithdrefn penderfyniad negyddol.
- 3.4 Gwneir Erthygl 4(7) o'r Gorchymyn Diwygio drwy arfer pwerau ym mharagraff 1A o Atodlen 2 i Ddeddf Cymunedau Ewropeaidd 1972 ("Deddf 1972"). Mae Paragraff 1A o Atodlen 2 i Ddeddf 1972 yn darparu, lle mae is-ddeddfwriaeth yn gwneud darpariaeth at ddiben a nodir yn adran 2(2) o Ddeddf 1972, fod y ddeddfwriaeth yn cynnwys cyfeiriad at un o offerynnau'r UE, a'i bod yn ymddangos i'r person sy'n gwneud y ddeddfwriaeth bod angen i'r cyfeiriad gael ei ddehongli fel cyfeiriad at yr offeryn hwnnw fel y'i diwygiwyd o bryd i'w gilydd, y gall yr is-ddeddfwriaeth wneud darpariaeth benodol i'r perwyl hwnnw.
- 3.5 Cafodd Deddf 1972 ei diddymu gan adran 1 o Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018 ("Deddf 2018") yn weithredol o'r diwrnod ymadael. Caiff "diwrnod ymadael" ei ddiffinio yn adran 20 o Ddeddf 2018 fel 31 Ionawr 2020 am 11pm. Er y diddymiad hwnnw bydd Deddf 1972 yn parhau i fod yn weithredol gydag addasiadau hyd at ddiwrnod cwblhau'r cyfnod gweithredu yn rhinwedd adran 1A o Ddeddf 2018 a gafodd ei mewnosod gan adran 1 o Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Cytundeb Ymadael) 2020 ("Deddf 2020"). Caiff "diwrnod cwblhau'r cyfnod gweithredu" ei ddiffinio yn adran 1A fel 31 Rhagfyr 2020 am 11pm (yr ystyr a roddir yn adran 39 o Ddeddf 2020).
- 3.6 Mae'r Gorchymyn Diwygio yn gwneud darpariaeth ar gyfer diben a nodir yn adran 2(2) o Ddeddf 1972 h.y. gweithredu un o Rwymedigaethau'r Undeb Ewropeaidd.

#### **4. Diben ac effaith fwriadedig y ddeddfwriaeth**

##### Mannau Tyfu i Gymunedau

- 4.1 Mae adeileddau fel siediau a thai gwydr fel arfer wedi'u lleoli ar randiroedd ac mewn mannau tyfu eraill i gymunedau. Mae angen siediau i storio offer a ddefnyddir wrth weithio ar y tir ac i gysgodi rhag y tywydd, ac mae tai gwydr yn bwysig i sicrhau'r amodau gorau posibl sy'n angenrheidiol ar gyfer twf cynhyrchiol.
- 4.2 Ar hyn o bryd, nid oes unrhyw hawliau datblygu a ganiateir ar gyfer datblygu ar dir a ddefnyddir fel mannau tyfu i gymunedau. Felly, mae angen cael caniatâd cynllunio ar gyfer gwaith datblygu. Pan gaiff ceisiadau o'r fath eu cyflwyno i awdurdodau cynllunio lleol, yn aml maent yn fach o ran maint ac nid ydynt yn ddadleuol.
- 4.3 Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn nodi rhwymedigaeth glir i gyrff cyhoeddus alluogi newid cadarnhaol sy'n arwain at Gymru fwy cydnerth, diogel ac iach. Mae'r ffrwythau a llysiâu ffres, sy'n aml yn organig, a gaiff eu tyfu ar safleoedd tyfu i gymunedau yn cyfrannu at ddarparu cyflenwad bwyd mwy cynaliadwy a diogel a fydd, yn ei dro, yn gweithio tuag at greu Cymru sy'n iachach, yn hapusach ac yn fwy cynaliadwy.
- 4.4 Diben y darpariaethau yn y Gorchymyn Diwygio hwn yw rhoi hawliau datblygu a ganiateir i godi, estyn, disodli neu newid siediau storio a thai gwydr mewn mannau tyfu i gymunedau, er mwyn cefnogi prosesau tyfu newydd i gymunedau yng Nghymru.
- 4.5 Bydd rhoi'r rhyddid i dyfwyr cymunedol wneud gwaith datblygu heb fod angen cael caniatâd cynllunio yn annog mwy o ddefnydd o'r tir, gan gyfrannu at gynhyrchu bwyd cynaliadwy a chynnyrch arall.
- 4.6 Bydd yr hawliau hyn yn ddarostyngedig i gyfyngiadau penodol, fel uchafswm maint a lleoliad, sydd wedi'u cynllunio i leihau effeithiau amwynder ar yr amgylchedd ehangach, i warchod cyrsiau dŵr/amddiffynfeydd rhag llifogydd ac i sicrhau rheolaeth dros waith datblygu mewn ardaloedd gwarchoddedig.

##### Gwaith datblygu gan weithredwyr cod cyfathrebu electronig

- 4.7 Mae cyflwyno rhwydwaith telathrebu symudol dibynadwy a chyflym i bob rhan o Gymru yn hanfodol er mwyn cyflawni nodau cysylltedd digidol yng Nghymru, yn cynnwys ardaloedd na chânt eu gwasanaethu gan y farchnad ar hyn o bryd. Hefyd, ym mis Hydref 2017, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru Gynllun Gweithredu Cymru ar Ffonau Symudol. Nododd y Cynllun nifer o gamau gweithredu sy'n ofynnol i gyflawni amcanion cenedlaethol ar gyfer cysylltedd digidol, yn cynnwys adolygu hawliau datblygu a ganiateir, ac adolygu polisïau telathrebu ym Mholisi Cynllunio Cymru.

- 4.8 Mae gan y System Gynllunio rôl bwysig i'w chwarae o ran cefnogi a gwella cysylltedd digidol, drwy bolisiau cenedlaethol a lleol a thrwy hawliau datblygu a ganiateir.
- 4.9 Nodir hawliau datblygu a ganiateir i weithredwyr cod cyfathrebu electronig yng Nghymru yn Rhan 24 o Atodlen 2 i'r GDCG. Yn sgil adolygiad Llywodraeth Cymru o hawliau datblygu a ganiateir, cafwyd cyfle i ystyried a oedd y darpariaethau cyfredol yn addas at y diben ac yn gallu cyflawni'r amcanion a nodir yn y strategaeth genedlaethol.
- 4.10 Mae'r Gorchymyn Diwygio yn diwygio Rhan 24 o'r GDCG i hepgor y diffiniad o "antennau bach" ac "antennau cell fach" a mewnosod diffiniad newydd o "system cell fach". Mae'r diffiniad o "system cell fach" yn seiliedig ar yr hen ddiffiniad o "antennau cell fach" gyda diwygiad i gynnwys cyfarpar atodol er mwyn egluro graddau'r hawliau datblygu a ganiateir. Mae'r diffiniad o "system cell fach" yn cynnwys yr hyn a ddiffiniwyd yn flaenorol fel "antennau bach". Nid ystyrir bod angen y ddau ddiffiniad hyn mwyach ac y gallent arwain at ddryswch.
- 4.11 Mewn perthynas â'r newidiadau hyn, mae'r Gorchymyn Diwygio yn rhoi hawliau datblygu a ganiateir ar gyfer systemau cell fach. Mae hyn yn ddarostyngedig i gyfyngiadau ac amodau a gyflwynwyd er mwyn helpu i warchod adeiladau ac ardaloedd o werth naturiol a hanesyddol. Yn benodol, mae nifer y systemau yn gyfyngedig mewn ardaloedd cadwraeth, yn Safleoedd Treftadaeth y Byd ac ar anheddau er mwyn sicrhau nad yw gormod o gyfarpar o'r fath yn effeithio'n andwyol ar ymddangosiad adeilad. O ran gwaith datblygu ar Dir Gwarchoddedig (sy'n cynnwys tir o fewn parc cenedlaethol, ardal o harddwch naturiol eithriadol ac ardal gadwraeth neu dir o fewn SoDdGA) cyflwynir proses Cymeradwyaeth Ymlaen Llaw er mwyn sicrhau y gall awdurdod cynllunio lleol benderfynu o hyd a yw lleoliad a dyluniad gosodiad yn briodol.
- 4.12 Yn ogystal â'r newidiadau uchod, mae'r Gorchymyn Diwygio hefyd yn cynyddu nifer y systemau antenau (heblaw am "antennau dysgl", "systemau cell fach Rheoliad 2020/1070" neu "systemau cell fach") y gellir eu gosod ar adeiladau ac adeileddau penodol o dri i bedwar. Mae hefyd yn cynyddu nifer y gweithredwyr cod cyfathrebu electronig a all weithredu systemau antenau (heblaw am "antennau dysgl", "systemau cell fach Rheoliad 2020/1070" neu "systemau cell fach") ar adeiladau ac adeileddau penodol o dri i bedwar.
- 4.13 Diben y darpariaethau hyn yw cynyddu hyblygrwydd y drefn ar gyfer hawliau datblygu a ganiateir ar gyfer gweithredwyr cod cyfathrebu electronig er mwyn sicrhau y gellir cyflwyno cysylltedd symudol pellach ledled Cymru. Mae'r newidiadau ym mharagraff 4.11 hefyd yn gweithredu paragraff 1 o erthygl 57(1) o Gyfarwyddeb yr UE 2018/1972 am eu bod yn lleihau'r cyfyngiadau ar hawliau datblygu a ganiateir mewn perthynas â gosod, newid neu ddisodli systemau cell fach. Ystyrir bod y diffiniad o

system cell fach yn cwmpasu'r diffiniad o Bwynt Mynediad Di-wifr Ardal Fach (SAWAP) at ddibenion gweithredu Cyfarwyddeb yr UE.

- 4.14 Mae'r newidiadau a wnaed gan y Gorchymyn Diwygio hefyd yn gweithredu paragraff 2 o Erthygl 57(1) o Gyfarwyddeb yr UE 2018/1972 drwy roi mwy o hawliau datblygu a ganiateir mewn cysylltiad â gwaith datblygu sy'n cynnwys gosod, newid neu ddisodli systemau cell fach Rheoliad 2020/1070 heblaw am waith datblygu penodol ar Dir Gwarchodedig neu mewn Safle Treftadaeth y Byd. Mae Erthygl 4 o'r GDCG hefyd yn cael ei diwygio er mwyn sicrhau na all Cyfarwyddebau Erthygl 4 gael eu gwneud gan awdurdodau cynllunio sydd am ddiwygio'r darpariaethau datblygu a ganiateir hyn i'w gwneud yn ofynnol i gael caniatâd cynllunio ar gyfer y mathau hyn o systemau cell fach. Ystyrir y byddai dileu hawliau datblygu a ganiateir ar gyfer systemau cell fach Rheoliad 2020/1070 yn anghyson â pharagraff (2) o Erthygl 57(1) o Gyfarwyddeb yr UE.

## 5. Ymgynghori

### Mannau Tyfu i Gymunedau

- 5.1 Cyhoeddwyd y ddogfen ymgynghori ar hawliau datblygu a ganiateir ar gyfer deiliaid rhandiroedd ar 22 Tachwedd 2019 ac roedd modd cyflwyno ymatebion tan 28 Chwefror 2020. Roedd yn ceisio barn ar gynigion i ddiwygio'r GDCG drwy gyflwyno hawliau datblygu a ganiateir newydd ar gyfer codi adeileddau ar randiroedd.
- 5.2 Cafwyd cyfanswm o 63 o ymatebion i'r ymgynghoriad. Roedd yr ymatebwyr yn cynrychioli nifer o grwpiau gwahanol â diddordeb, ac roedd ychydig o dan hanner y rhain yn aelodau unigol o'r cyhoedd.
- 5.3 Roedd y rhanddeiliaid yn cytuno â'r cynigion yn yr ymgynghoriad ar y cyfan. Mae'r darpariaethau a nodir yn y Gorchymyn Diwygio yn bwrw ymlaen â'r cynigion hyn, fel y'u diwygiwyd i ystyried adborth a gafwyd drwy'r ymgynghoriad. Mae hyn yn cynnwys cyflwyno'r gallu i wneud gwaith datblygu ar leiniau llai o faint ar ffurf sied neu dŷ gwydr a sicrhau bod yr hawliau datblygu a ganiateir yn gymwys i fathau modern o safleoedd tyfu i gymunedau ac na chânt eu cyfyngu i randiroedd traddodiadol a reoleiddir. Rhoddir eglurder hefyd mewn perthynas â statws cynllunio twnelau polythen, y dylid eu hystyried fel tai gwydr at ddiben hawliau datblygu a ganiateir a gyflwynir gan y Gorchymyn Diwygio hwn.
- 5.4 Mae crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru - <https://llyw.cymru/hawliau-datblygu-ganiateir-ar-gyfer-deiliaid-rhandiroedd>.

## Gwaith datblygu gan weithredwyr cod cyfathrebu electronig

- 5.5 Cynhaliwyd ymgynghoriad rhwng 31 Mai 2018 a 298 Medi 2018 ar set eang o gynigion ynghylch cydgrynhoi a diwygio Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Dosbarthiadau Defnydd) 1987 a'r GDCG. Cafwyd cyfanswm o 148 o ymatebion. Ymgynghorwyd ar newidiadau i Ran 24, Darpariaethau Datblygu gan Weithredwyr Cod Cyfathrebu Electronig (Cymru) yn ymwneud ag uchder a lled mastiau a ddeddfwyd drwy Orchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygu Cyffredinol a Ganiateir) (Diwygio) (Cymru) 2019 a ddaeth i rym ar 1 Ebrill 2019.
- 5.6 Yn yr un ymgynghoriad, gwnaethom ofyn am safbwyntiau ar raddau hawliau datblygu a ganiateir ar y defnydd o 'antennau bach' a 'system cell fach'; Ar ôl ystyriaeth bellach, nid ystyriwyd bod angen cadw'r ddau ddiffiniad ar wahân am eu bod yn ailadrodd i raddau. Ystyriwyd bod y term 'system cell fach' yn derm mwy cywir a chwmpasog. Er hyn, nid yw'r cyfarpar a gaiff ei gwmpasu gan y diffiniad hwn, ac felly bwriad y polisi, wedi newid.
- 5.7 Yng nghyd-destun Cyfarwyddeb yr UE 2018/1972 sy'n nodi na ddylid cyfyngu'n ormodol ar y defnydd o SAWAPs, rydym yn ystyried ei bod yn berthnasol gweithredu ein cynigion ar gyfer systemau cell fach. Ystyrir bod gan systemau cell fach a SAWAPs yr un nodweddion at ddibenion gweithredu Cyfarwyddeb yr UE. Yn yr ymgynghoriad, cafwyd cytundeb ar y cyfan â'n cynigion i lacio'r cyfyngiadau ar systemau cell fach gan roi darpariaethau ar waith i warchod y safleoedd mwyaf sensitif ac adeiladau o werth hanesyddol a naturiol.
- 5.8 Ni fwriwyd ymlaen â holl gynigion ymgynghoriad 2018 yn eu cyfanrwydd. Nododd yr ymatebion fod Ardaloedd Cadwraeth yn faes ychwanegol penodol y mae angen rhoi ystyriaeth arbennig iddo fel is-set 'ardaloedd gwarchodedig' oherwydd yr effaith bosibl y gallai nifer mawr o systemau cell fach ar adeilad ei chael ar gymeriad sensitif yr ardaloedd hyn.
- 5.9 Yn ei ymateb, nododd Cadw hefyd nad oedd y cynigion yn ein hymgynghoriad yn mynd i'r afael â Safleoedd Treftadaeth y Byd ac y dylid ystyried eu gwarchod ochr yn ochr ag Ardaloedd Cadwraeth. O ystyried pwysigrwydd statws Safleoedd Treftadaeth y Byd yn genedlaethol ac yn fyd-eang, ystyrir y dylid cydnabod hyn fel bod adeiladau neu adeileddau o fewn y cyfryw safleoedd yn cael eu gwarchod i'r un graddau ag Ardaloedd Cadwraeth.
- 5.10 Mae crynodeb o ymatebion yr ymgynghoriad i gwestiynau perthnasol yr ymgynghoriad mewn perthynas â systemau cell fach ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru - <https://llyw.cymru/cyfuno-ac-adolygu-is-ddeddfwriaeth>.



## **RHAN 2 - ASESIAD EFFAITH RHEOLEIDIOL**

### **Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygu Cyffredinol a Ganiateir) (Diwygio) (Rhif. 3) (Cymru) 2020**

#### **1. Hawliau Datblygu a Ganiateir ar gyfer mannau tyfu i gymunedau**

##### **Opsiynau**

##### 1.1 Ystyrir yr opsiynau canlynol:

Opsiwn 1: Gwneud dim – Bydd caniatâd cynllunio yn dal i fod yn ofynnol ar gyfer pob gwaith datblygu ar randiroedd ac mewn mannau tyfu eraill i gymunedau.

Opsiwn 2: Llunio'r ddeddfwriaeth – Rhoi hawliau datblygu a ganiateir ar gyfer codi, estyn, newid neu ddisodli siediau storio a thai gwydr mewn mannau tyfu i gymunedau.

##### 1.2 Opsiwn 2 yw'r opsiwn a ffeirir oherwydd y bydd yn rhoi mwy o ryddid i dyfwyr cymunedol ac yn cael gwared ar geisiadau cynllunio bach, nad ydynt yn ddadleuol, o'r system, gan ryddhau adnoddau awdurdodau cynllunio lleol.

##### **Dadansoddiad o Gostau a Manteision**

##### 1.3 Ymysg y sectorau y mae'r cynigion fwyaf tebygol o effeithio arnynt mae:

- Tyfwyr cymunedol - Y rhai sy'n defnyddio, neu a fyddai o bosibl yn defnyddio, mannau tyfu i gymunedau, fel rhandiroedd, ac a fyddai'n cael budd o hawliau datblygu a ganiateir.
- Awdurdodau Cynllunio Lleol (ACLI) – Mae 25 o Awdurdodau Cynllunio Lleol yng Nghymru sy'n penderfynu ar geisiadau ar gyfer caniatâd cynllunio. Mae 22 o'r rhain yn awdurdodau unedol, a'r awdurdodau parciau cenedlaethol, sy'n darparu eu swyddogaeth cynllunio tref eu hunain, sy'n cyfrif am y tri arall.
- Y cyhoedd – Y rhai a all fod â diddordeb mewn datblygu tir yn eu hardal.

##### 1.4 Cynhaliwyd y dadansoddiad costau a manteision canlynol ar gyfer pob un o'r sectorau uchod:

#### **Dadansoddiad Costau ar gyfer Opsiwn 1: Gwneud dim**

##### Tyfwyr cymunedol

##### 1.5 Dyma'r opsiwn sylfaenol ac fel y cyfryw, ni fydd unrhyw gostau ychwanegol yn gysylltiedig â'r opsiwn hwn. Byddai angen cael caniatâd

cynllunio o hyd i godi siediau a thai gwydr mewn mannau tyfu i gymunedau.

- 1.6 £85.00 yw'r ffi gynllunio ar gyfer cais cynllunio ar hyn o bryd. Bydd costau cysylltiedig ar gyfer paratoi'r wybodaeth ategol angenrheidiol, fel cynlluniau. Amcangyfrifodd astudiaeth feincnodi a gynhaliwyd yn Lloegr<sup>1</sup> bod cyfanswm cost cyflwyno gwaith datblygu deiliad cartref, o faint tebyg, yn amrywio o £150 i £2,900. O ystyried maint y gwaith datblygu, mae'n debygol y byddai'r costau cysylltiedig ar gyfer tyfwyr cymunedol ar ben isaf yr ystod hon. Gall nifer o amrywiadau effeithio ar y costau hyn, yn cynnwys defnyddio asiant a'r arbedion y gellir eu gwneud drwy gyflwyno ceisiadau drwy Ceisiadau Cynllunio Cymru (mae hyn yn cyfyngu ar y costau argraffu). Mae Llywodraeth Cymru o'r farn bod y costau a nodir yn yr astudiaeth hon yn cynrychioli a) y costau y mae'n debygol y bydd pobl yn eu talu yng Nghymru a b) y costau y mae'n debygol y bydd tyfwyr cymunedol yn eu talu ar gyfer cais am waith datblygu o'r maint hwn.
- 1.7 Gall yr angen am ganiatâd cynllunio, a'r costau dan sylw, olygu y bydd pobl yn penderfynu peidio cymryd rhandiroedd a mannau tyfu eraill i gymunedau, yn arbennig os bydd angen sied storio a/neu dŷ gwydr arnynt ar gyfer y defnydd y maent yn bwriadu ei wneud o'r tir.

#### Awdurdodau Cynllunio Lleol

- 1.8 Bydd ACLlau yn parhau i ddilysu, prosesu a phenderfynu ar geisiadau ar gyfer caniatâd cynllunio. Bydd angen rhoi cyhoedddusrwydd i bob cais a chynnal ymweliad â safle. Penderfynir ar y cais yn unol â chynllun dirprwyo perthnasol yr ACLI a all olygu bod y pwyllgor cynllunio'n penderfynu ar y cais. Bwriedir i'r ffi gynllunio dalu costau'r ACLI.

#### Y cyhoedd

- 1.9 Dim costau uniongyrchol nac anuniongyrchol.

### **Dadansoddiad o Fanteision ar gyfer Opsiwn 1 – Gwneud dim**

#### Tyfwyr Cymunedol

- 1.10 Ni fydd unrhyw fanteision uniongyrchol nac anuniongyrchol i dyfwyr cymunedol. Bydd y gofyniad presennol i gael caniatâd cynllunio ar gyfer codi siediau a thai gwydr yn parhau.

#### Awdurdodau Cynllunio Lleol

- 1.11 Bydd ACLlau yn cadw'r ffioedd ceisiadau cynllunio sy'n gysylltiedig ag unrhyw geisiadau a wneir.

---

<sup>1</sup> Meincnodi'r costau i ymgeiswyr sy'n cyflwyno cais cynllunio.  
<https://webarchive.nationalarchives.gov.uk/20090903233426/http://www.communities.gov.uk/documents/planningandbuilding/pdf/benchmarkingcostsapplication.pdf>

## Y cyhoedd

- 1.12 Bydd y rhai sydd â diddordeb yn y gwaith datblygu arfaethedig yn dal i allu cymryd rhan yn y broses o wneud cais cynllunio drwy gyflwyno sylwadau i'r ACLI drwy gydol y cyfnod cyhoeddusrwydd statudol. Caiff sylwadau a gyflwynir yn ystod y broses hon eu hystyried gan yr ACLI fel rhan o'r broses o wneud penderfyniadau.

## **Opsiwn 2 – Llunio'r ddeddfwriaeth**

### **Disgrifiad**

- 1.13 Byddai Opsiwn 2 yn arwain at lunio deddfwriaeth sy'n cyflwyno hawliau datblygu a ganiateir ar dir a ddefnyddir ar gyfer mannau tyfu i gymunedau ar gyfer codi, estyn, newid a disodli adeileddau, yn benodol siediau a thai gwyr, yn ddarostyngedig i gyfyngiadau.

### **Dadansoddiad Costau ar gyfer Opsiwn 2: Llunio'r ddeddfwriaeth**

#### Tyfwyr cymunedol

- 1.14 Mae'r cynigion yn ddadroleiddiol ac, fel y cyfryw, disgwylir iddynt arwain at arbed costau. I bob pwrpas, byddai'r ffioedd sy'n gysylltiedig â chyflwyno cais cynllunio, a nodir ym mharagraff 1.6, yn cael eu harbed drwy roi caniatâd cynllunio yn awtomatig drwy'r GDCG.

#### Awdurdodau Cynllunio Lleol

- 1.15 Bydd gostyngiad mewn incwm o ffioedd ceisiadau cynllunio, fodd bynnag, caiff hyn ei wrthbwysu gan y ffaith na fydd yr ACLI yn gorfod talu costau i brosesu'r ceisiadau hynny. Mewn llawer o amgylchiadau, nid yw'r ffi gwneud cais yn talu cost penderfynu ar gais cynllunio.
- 1.16 Ymhellach, er nad yw data perfformiad a gesglir gan awdurdodau cynllunio lleol fel rhan o'r arolwg chwarterol ar reoli gwaith datblygu yn gwahaniaethu rhwng ceisiadau a wnaed ar randiroedd (neu fannau tyfu eraill i gymunedau), mae tystiolaeth anecdotaidd yn awgrymu bod nifer y ceisiadau a gyflwynir yn isel. Felly nid ystyrir bod colli incwm o ffioedd cynllunio yn cael effaith nodedig ar incwm o ffioedd yr ACLI yn gyffredinol.

## Y cyhoedd

- 1.17 Dim costau uniongyrchol nac anuniongyrchol.

## **Dadansoddiad o Fanteision ar gyfer Opsiwn 2**

### Tyfwyr cymunedol

- 1.18 Bydd y rhai sydd am godi adeiledd ar eu man tyfu yn gwneud arbedion ar ffioedd ceisiadau cynllunio (£85.00 ar hyn o bryd) a chostau gweinyddu cysylltiedig a delir am baratoi a chyflwyno cais cynllunio, fel yr amlinellir ym mharagraff 1.6.

### Awdurdodau Lleol

- 1.19 Gall y gostyngiad yn nifer y mân geisiadau nad ydynt yn ddadleuol y bydd angen penderfynu arnynt yn galluogi ACLlau i ailddyrranu adnoddau staff gwerthfawr i geisiadau cynllunio eraill a all fod ag effeithiau mwy cymhleth a sylweddol.

### Y cyhoedd

- 1.20 Dim manteision uniongyrchol nac anuniongyrchol.

## **2. Gwaith datblygu gan weithredwyr cod cyfathrebu electronig**

- 2.1 Ystyrir yr opsiynau canlynol:

**Opsiwn 1: Gwneud dim** – Nid yw'r ddeddfwriaeth yn newid ac mae'r hawliau datblygu a ganiateir cyfredol yn gymwys.

**Opsiwn 2: Llunio'r ddeddfwriaeth** – Rhoi hawliau datblygu a ganiateir ar gyfer systemau cell fach (yn ddarostyngedig i gyfyngiadau) a chael gwared ar gyfyngiadau hawliau datblygu a ganiateir ar gyfer systemau cell fach Rheoliad 2070/1070 y tu allan i dir gwarchoddedig neu Safleoedd Treftadaeth y Byd. Cael gwared ar y gallu i awdurdodau cynllunio a Gweinidogion Cymru wneud newidiadau i hawliau datblygu a ganiateir drwy gyfarwyddbau Erthygl 4.

## **Dadansoddiad o Gostau a Manteision**

- 2.2 Ymysg y sectorau y mae'r cynigion fwyaf tebygol o effeithio arnynt mae:
- Gweithredwyr seilwaith symudol sydd am osod cyfarpar telathrebu symudol newydd neu fwy o faint.
  - ACLlau sy'n penderfynu ar geisiadau ar gyfer caniatâd cynllunio.
  - Y cyhoedd a fydd yn cael budd o bosibl o fwy o gysylltedd symudol ond y gall gwaith datblygu llai cyfyngol / heb gyfyngiadau ar systemau cell fach yn eu cymunedau.
- 2.3 Cynhaliwyd y dadansoddiad costau a manteision canlynol ar gyfer pob un o'r sectorau uchod:

## **Dadansoddiad Costau ar gyfer Opsiwn 1: Gwneud dim**

### Busnes

- 2.4 Bydd y gofyniad i gael caniatâd cynllunio ar gyfer systemau cell fach yn parhau, gan arwain at gostau parhaus i'r diwydiant symudol er mwyn cyflwyno eu rhwydweithiau. Mae hyn yn cynnwys ffioedd ceisiadau cynllunio a'r costau cysylltiedig ar gyfer paratoi'r wybodaeth ategol angenrheidiol, fel cynlluniau.
- 2.5 Gall y gofyniad i gael caniatâd cynllunio hefyd atal rhai gweithredwyr rhag gosod systemau cell fach, ar draul cymunedau yn y cyffiniau na fyddant yn cael budd o fwy o gysylltedd symudol.

### Awdurdodau Cynllunio Lleol

- 2.6 Bydd ACLlau yn parhau i ddilysu, prosesu a phenderfynu ar geisiadau ar gyfer caniatâd cynllunio ar gyfer systemau cell fach a chyfarpar telathrebu yn gyffredinol. Bydd angen rhoi cyhoedddusrwydd i bob cais a chynnal ymweliad â safle. Penderfynir ar y cais yn unol â chynllun dirprwyo perthnasol yr ACLI a all olygu bod y pwyllgor cynllunio'n penderfynu ar y cais. Bwriedir i'r ffi gynllunio dalu costau'r ACLI.

### Y cyhoedd

- 2.7 Ni fydd unrhyw gostau uniongyrchol i'r cyhoedd.

## **Dadansoddiad o Fanteision ar gyfer Opsiwn 1 – Gwneud dim**

### Busnesau

- 2.8 Ni fydd unrhyw fanteision uniongyrchol nac anuniongyrchol i fusnesau; bydd hyn yn golygu bod y sefyllfa bresennol yn parhau.

### Awdurdodau Cynllunio Lleol

- 2.9 Bydd ACLlau yn cadw'r ffi sy'n gysylltiedig â cheisiadau cynllunio ar gyfer systemau cell fach y mae angen cael caniatâd cynllunio ar eu cyfer a bydd ganddynt fwy o reolaeth dros y gwaith datblygu.

### Y cyhoedd

- 2.10 Bydd y cyhoedd yn cymryd mwy o ran drwy'r gallu i roi sylwadau'n uniongyrchol ar egwyddor caniatâd cynllunio ar gyfer y systemau cell fach hynny nad oes angen ceisiadau cynllunio ar eu cyfer ar hyn o bryd.

## **Dadansoddiad Costau ar gyfer Opsiwn 2: Llunio'r ddeddfwriaeth**

### Busnesau

- 2.11 Ni fydd unrhyw gostau uniongyrchol nac anuniongyrchol ychwanegol i fusnesau. Mae'r ddeddfwriaeth arfaethedig yn ddadroleiddiol a disgwylir iddi arbed costau i fusnesau.

### Awdurdodau Cynllunio Lleol

- 2.12 Bydd gostyngiad mewn incwm o ffioedd ceisiadau cynllunio, fodd bynnag, caiff hyn ei wrthbwysu gan y ffaith na fydd yr ACLI yn gorfod talu costau wrth ymdrin â'r ceisiadau hyn. Mewn llawer o amgylchiadau, nid yw'r ffi gwneud cais yn talu cost penderfynu ar gais cynllunio.

### Y cyhoedd

- 2.13 Ni fydd unrhyw gostau uniongyrchol nac anuniongyrchol ychwanegol i'r cyhoedd. Bydd llai o gyfle i herio cyfarpar newydd neu fwy o faint mewn egwyddor, fodd bynnag, bydd y gallu i wneud sylwadau ar faterion lleoliad a dyluniad yn parhau drwy'r broses gymeradwyo flaenorol mewn ardaloedd gwarchoddedig.

## **Dadansoddiad o Fanteision ar gyfer Opsiwn 2**

### Busnes

- 2.14 Ni fydd angen i gwmnïau gweithredu symudol wneud cais i gael caniatâd cynllunio ar gyfer ystod fwy o systemau cell fach mewn sefyllfaoedd gwahanol. Bydd cyfyngu ar drafodaethau mewn ardaloedd gwarchoddedig mewn perthynas â lleoliad a dyluniad yn golygu na fydd angen trafod egwyddor y gwaith datblygu. Bydd mwy o gysylltedd symudol hefyd yn ei gwneud yn haws i fusnesau gael mynediad i rwydweithiau cyfathrebu.
- 2.15 Gallai symud o'r gofyniad i gael caniatâd cynllunio llawn i hawliau datblygu a ganiateir leihau'r amser a gymerir i fynd drwy'r prosesau cynllunio angenrheidiol oherwydd y rhoddir caniatâd ymhen 8 wythnos. Bydd hyn yn lleihau'r lefelau ansicrwydd yn y diwydiant.

### Awdurdodau Cynllunio Lleol

- 2.16 Bydd y gostyngiad yn nifer y ceisiadau cynllunio y bydd angen penderfynu arnynt yn galluogi ACLlau i ailddyrranu adnoddau staff gwerthfawr i geisiadau cynllunio eraill a all fod ag effeithiau mwy cymhleth a sylweddol. Gall ACLlau weld cynnydd yn nifer y cwynion amgylcheddol oherwydd yr effaith ar amwynder.

## Y cyhoedd

- 2.17 Bydd y cyhoedd yn cael budd o gynnydd posibl mewn cysyllted symudol a'r manteision economaidd a chymdeithasol ehangach a ddaw yn sgil mwy o gysylltedd.

### **3. Crynodeb a'r Opsiwn a Ffefrir**

#### Mannau tyfu i gymunedau

- 3.1 Opsiwn 2 yw'r opsiwn a ffefrir gan y bydd yn cael gwared ar fân geisiadau nad ydynt yn ddadleuol o'r system gynllunio ac mae'n debygol y bydd yn annog pobl i ddefnyddio ac ehangu manau tyfu i gymunedau, a chynhyrchu cynnyrch cynaliadwy yn sgil hynny.

#### Gwaith datblygu gan weithredwyr cod cyfathrebu electronig

- 3.2 Opsiwn 2 yw'r opsiwn a ffefrir gan y bydd yn arwain at gyfundrefn fwy hwylusol ar gyfer gosod seilwaith telathrebu.

### **4. Asesu'r Gystadleuaeth**

- 4.1 Mae prawf hidlo'r gystadleuaeth wedi'i gymhwysu i'r diwygiadau arfaethedig. Ni ddisgwylir i'r cynigion effeithio ar y lefelau cystadleuaeth yng Nghymru na chystadleurwydd busnesau yng Nghymru.

### **5. Adolygiad ôl-weithredu**

- 5.1 Cynhelir cyfarfodydd rheolaidd rhwng Llywodraeth Cymru ac ACLlau. Mae hyn yn galluogi trafodaeth ar unrhyw faterion neu bryderon ynghylch y trefniadau a gyflwynir gan yr is-ddeddfwriaeth newydd.
- 5.2 Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn croesawu unrhyw adborth gan y cyhoedd a rhanddeiliaid eraill a gaiff ei ystyried wrth ddatblygu polisiau yn y dyfodol.

## SL(5)666 – Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 20) 2020

### Cefndir a Diben

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) 2020 ("y Rheoliadau Teithio Rhyngwladol") er mwyn ychwanegu Bonaire, Sint Eustatius a Saba, Cymanwlad Ynysoedd Gogledd Mariana, Dinas Jerwsalem, Gweriniaeth Namibia, Gweriniaeth Rwanda, Israel, Sri Lanka, Uruguay ac Ynysoedd y Wryf yr Unol Daleithiau at y rhestr o wledydd a thiriogaethau esempt yn y Rheoliadau Teithio Rhyngwladol ac i wneud darpariaethau trosiannol. Ni fydd yn ofynnol i deithwyr o'r gwledydd, y tiriogaethau a'r rhannau o wledydd hyn ynysu wrth gyrraedd Cymru.

Mae'r Rheoliadau hyn hefyd yn:-

- diwygio rheoliad 4 o'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol (gofyniad i ddarparu gwybodaeth am deithwr) sy'n ei gwneud yn ofynnol bod gwybodaeth am deithiwr yn cael ei darparu wrth gyrraedd Cymru, neu cyn cyrraedd Cymru;
- diwygio Atodlen 2 (pobl esempt) i'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol, gan gynnwys:
  - yr eithriad o ran cynrychiolwyr mewn cynadleddau rhyngwladol neu gynadleddau'r DU, er mwyn egluro bod y cyfeiriad at gynadleddau at y cynadleddau hynny a gaiff eu cynnal yn y DU;
  - yr eithriad o ran gweision i'r Goron a chontractwyr y llywodraeth;
  - i ychwanegu eithriad newydd ar gyfer gweithwyr telathrebu tanfor; a
- gwneud diwygiadau amrywiol i'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol, gan gynnwys cywiriad i destun Cymraeg y Rheoliadau hynny i unioni pwynt technegol a godwyd gan y Pwyllgor yn ei adroddiad ar Reoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol a Chyfyngiadau) (Diwygio) (Rhif. 2) (Cymru) 2020.

Daeth y Rheoliadau hyn i rym am 4.00 am ar 21 Tachwedd 2020.

### Gweithdrefn

Negyddol.

Gwnaed y Rheoliadau hyn gan Weinidogion Cymru cyn iddynt gael eu gosod gerbron y Senedd. Caiff y Senedd ddirymu'r Rheoliadau hyn o fewn 40 diwrnod (ac eithrio unrhyw ddiwrnodau pan fo'r Senedd: (i) wedi'i diddymu, neu (ii) ar doriad am fwy na phedwar diwrnod) i'r dyddiad y cawsant eu gosod gerbron y Senedd.





## Materion technegol: craffu

Nodwyd y pwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arno o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

### **1. Rheol Sefydlog 21.2(vi) - ei bod yn ymddangos bod y gwaith drafftio yn ddiffygiol neu ei fod yn methu â bodloni gofynion statudol**

Mae Atodlen 2 (pobl esempt) i'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol yn eithrio rhai categorïau o weithwyr rhag gorfod darparu gwybodaeth am deithiwr a rhag gorfod ynysu.

Mae Rheoliad 6(5) o'r Rheoliadau hyn yn mewnosod categori newydd o bobl esempt fel paragraff 39 o Atodlen 2 i'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol, sef:

*"Person -*

*(a) sy'n ymwneud â gosod, cynnal a chadw neu atgyweirio seilwaith telathrebu ffibr optig tanfor,*

*(b) y mae ei rôl yn cefnogi yn uniongyrchol y gwaith o osod, cynnal a chadw neu atgyweirio seilwaith telathrebu ffeibr optig tanfor,*

*pan fo wedi teithio i'r Deyrnas Unedig yng nghwrs ei waith."*

Mae'r Memorandwm Esboniadol i'r Rheoliadau hyn yn nodi y *"Gwneir y diwygiadau ychwanegol i'r esemptiadau ar sail sector ... gan ychwanegu esemptiad newydd ar gyfer gweithwyr telathrebu tanfor"*.

Mae Rheoliad 9(2)(b) o'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol yn darparu nad yw rheoliad 7 a rheoliad 8 o'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol, sy'n cynnwys y gofynion i hunan-ynysu, yn gymwys i berson a ddisgrifir ym mharagraff 2 i baragraff 38 o Atodlen 2. Er mwyn rhoi effaith i baragraff 39 sydd newydd ei fewnosod, mae'n ymddangos bod angen diwygio rheoliad 9(2) o'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol i gynnwys cyfeiriad at baragraff 39.

Gofynnir am ymateb Llywodraeth Cymru.

## Rhinweddau: craffu

Mae'r 6 phwynt a ganlyn wedi'u nodi i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

### **1. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd**

Rydym yn nodi cyfiawnhad Llywodraeth Cymru dros unrhyw ymyrraeth bosibl â hawliau dynol. Yn benodol, nodwn esboniad y Llywodraeth a gynhwysir yn y Memorandwm Esboniadol:

*"Mae'r cyngor sydd bellach wedi dod i law oddi wrth y Gydganolfan Biddiogelwch yn dangos bod y risg i iechyd y cyhoedd yn sgil mynychder a lledaeniad y coronafeirws*



*wedi lleihau yn Bonaire, Sint Eustatius a Saba, Israel, Dinas Jerwsalem, Namibia, Ynysoedd Gogledd Mariana, Rwanda, Sri Lanka, Uruguay ac Ynysoedd y Wryf yr Unol Daleithiau."*

Ymhellach, yn y Memorandwm Esboniadol i'r Rheoliadau hyn mae Llywodraeth Cymru yn nodi:

*Nid yw'r diwygiadau yn y Rheoliadau hyn yn newid y ffaith fod hawliau unigol o dan Ddeddf Hawliau Dynol 1998 a Siarter Hawliau Sylfaenol Ewrop yn gysylltiedig â'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol; mae'r Llywodraeth o'r farn eu bod yn gymesur a hefyd yn gyfiawn at ddiben atal lledaeniad haint a/neu y caniateir ymyriad ar y sail ei fod yn anelu at gyflawni nod dilys, sef diogelu iechyd y cyhoedd."*

## **2. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd**

Nodwn na fu unrhyw ymgynghori ffurfiol ar y Rheoliadau hyn. Yn benodol, nodwn y paragraffau a ganlyn yn y Memorandwm Esboniadol:

*"Oherwydd y bygythiad difrifol ac uniongyrchol sy'n deillio o'r coronafeirws a'r angen am ymateb iechyd y cyhoedd brys, ni chynhaliwyd unrhyw ymgynghoriad cyhoeddus mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn."*

Mewn llythyr at y Llywydd oddi wrth Rebecca Evans AS, y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd dyddiedig 20 Tachwedd 2020, eglurir hefyd:

*"Oherwydd natur frys y Rheoliadau, ni chynhaliwyd ymgynghoriad."*

## **3. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd**

Nodwn y torrir y rheol 21 diwrnod (h.y. y rheol y dylai 21 diwrnod fynd heibio rhwng y dyddiad y gosodir offeryn penderfyniad negyddol gerbron y Senedd a'r dyddiad y daw'r offeryn i rym), a'r esboniad am dorri'r rheol a roddodd Rebecca Evans AS, y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd, mewn llythyr at y Llywydd, dyddiedig 20 Tachwedd 2020.

Yn benodol, nodwn y canlynol yn y llythyr:

*"Mae peidio â chadw at y confensiwn 21 diwrnod yn galluogi'r Rheoliadau hyn i ddod i rym cyn gynted â phosibl, ac o ystyried newid yn y dystiolaeth ynghylch risg mewn cysylltiad â'r clefyd hwn, ystyrir bod hyn yn angenrheidiol ac yn gyfiawn yn yr achos hwn."*

## **4. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd**

Wrth ystyried y Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 18) 2020 a Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol)



(Cymru) (Diwygio) (Rhif 19) 2020, adroddodd y Pwyllgor am y diffyg asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb ar gyfer y Rheoliadau hynny a'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol.

Nodwn fod Llywodraeth Cymru wedi ymateb i'r adroddiadau mewn perthynas â Rheoliadau Rhif 18 a Rhif 19 ar 24 Tachwedd 2020. Yn benodol, nodwn y canlynol:

*"Mae Rheoliadau wedi eu gwneud i ymateb i argyfwng iechyd y cyhoedd, felly ni fu'n bosibl llunio a chyhoeddi Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb ochr yn ochr â hwy. Caiff Asesiad Effaith Integredig o'r gofynion i ynysu ar gyfer teithio rhyngwladol ei gyhoeddi maes o law."*

### **5. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd**

Mae Rheoliad 6(2) o'r Rheoliadau hyn yn amnewid paragraff 13 o Atodlen 2 i'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol, sy'n esemptio categorïau penodol o weithwyr rhag gorfod ynysu wrth ddychwelyd i Gymru.

Cyn eu diwygio gan y Rheoliadau hyn, roedd y Rheoliadau Teithio Rhyngwladol yn diffinio "gwaith hanfodol y Llywodraeth" fel "gwaith sydd wedi'i ddynodi felly gan Weinidogion Cymru neu'r Adran neu'r cyflogwr perthnasol". Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio'r diffiniad hwnnw fel nad oes cyfeiriad at Weinidogion Cymru, ac felly dim ond "yr Adran berthnasol" sy'n gwneud dynodiadau. Nid yw'r Memorandwm Esboniadol yn egluro pam nad yw'r pŵer i ddynodi gwaith hanfodol y Llywodraeth bellach yn ofyniad ar Weinidogion Cymru.

Gofynnir am ymateb Llywodraeth Cymru.

### **6. Rheol Sefydlog 21.3(v) - nad yw'n gwireddu ei amcanion polisi yn berffaith**

Yn ôl y Memorandwm Esboniadol:

*"Gwneir y diwygiadau ychwanegol canlynol i'r esemptiadau ar sail sector o'r gofynion i ddarparu gwybodaeth am deithwyr a hunanynysu: .... diwygio'r esemptiad ar gyfer gweision i'r Goron a chontractwyr llywodraeth i ehangu ei gwmpas a'i wneud yn gymwys i'w dibynyddion."*

Nid yw'n glir sut mae'r Rheoliadau hyn yn darparu naill ai i'r esemptiad fod yn ehangach ei gwmpas, a sut maent yn cynnwys dibynyddion gweision i'r Goron a chontractwyr llywodraeth.

Gofynnir am ymateb Llywodraeth Cymru.

## **Y goblygiadau yn sgîl ymadael â'r Undeb Ewropeaidd**

Dim.



## Ymateb Llywodraeth Cymru

O ystyried yr amgylchiadau presennol o ran y coronafeirws, mae angen ymateb gan Lywodraeth Cymru cyn gynted ag sy'n rhesymol ymarferol.

## Trafodaeth y Pwyllgor

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn yn ei gyfarfod ar 30 Tachwedd 2020 ac mae'n cyflwyno adroddiad i'r Senedd yn unol â'r pwyntiau adrodd uchod.



## **Ymateb y Llywodraeth: Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 20) 2020**

### **Pwynt Craffu Technegol 1:**

Mae Llywodraeth Cymru yn derbyn y pwynt craffu technegol a godir ac yn cadarnhau bod rheoliad 9(2)(b) wedi ei ddiwygio gan Reoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 21) 2020, a osodwyd ar 27 Tachwedd 2020, i gynnwys paragraff 39 o Atodlen 2.

### **Pwynt Craffu ar Rinweddau 5:**

Mae Llywodraeth Cymru yn cadarnhau bod paragraff 13 o Atodlen 2 i'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol wedi ei ddiwygio gan Reoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 21) 2020, a osodwyd ar 27 Tachwedd 2020, i bennu y caiff Gweinidogion Cymru hefyd ddynodi bod gwaith yn "gwaith llywodraeth hanfodol" at ddibenion yr esemptiad rhag y gofyniad i ynysu sydd wedi ei gynnwys yn y paragraff hwnnw.

### **Pwynt Craffu ar Rinweddau 6:**

Mae paragraff 13 o Atodlen 2 i'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol, a amnewidiwyd gan reoliad 6(2) o'r Rheoliadau hyn, yn ehangu'r esemptiad i fod yn gymwys nid yn unig i weision i'r Goron a chontractwyr llywodraeth, ond i "unrhyw berson" yr ardstiwyd ei fod yn bodloni'r disgrifiadau yn is-baragraffau (a) i (c).

Mae is-baragraffau (a) a (b) bellach yn cyfeirio at "busnes hanfodol y wladwriaeth", ac o'r herwydd yn cwmpasu ystod ehangach o waith, tra bo'r ddarpariaeth flaenorol yn gyfyngedig i'r rhai "sy'n cynnal trafodaethau dwyochrog ac amlochrog".

Mae geiriad paragraff 13(1)(c) wedi ei ddrafftio'n fwy eang i gynnwys yn ogystal eraill y mae'n angenrheidiol iddynt ddychwelyd i'r Deyrnas Unedig i hwyluso gweithrediad yr amrywiol benodiadau swyddogol. Gall hyn gynnwys dibynyddion.



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

---

## **DATGANIAD YSGRIFENEDIG GAN LYWODRAETH CYMRU**

---

**TEITL** Rheoliadau Hadau (Diwygio etc.) (Ymadael â'r UE) 2020

**DYDDIAD** 20 Tachwedd 2020

**GAN** Rebecca Evans AS, Y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd

**OS a osodwyd yn Senedd y DU, sy'n diwygio is-ddeddfwriaeth mewn maes datganoledig**

**Rheoliadau Hadau (Diwygio etc.) (Ymadael â'r UE) 2020**

Mae Rheoliadau 2020 yn diwygio'r ddeddfwriaeth a ganlyn:

- Rheoliadau Hadau (Rhestrau Cenedlaethol o Amrywogaethau) (Ffioedd) 1994
- Rheoliadau Hadau (Rhestrau Cenedlaethol o Amrywogaethau) 2001
- Rheoliadau Marchnata Hadau a Deunyddiau Lluosogi Planhigion (Diwygio etc.) (Ymadael â'r UE) 2019

**Unrhyw effaith y gall yr offeryn statudol ei chael ar gymhwysedd deddfwriaethol Senedd Cymru a/neu gymhwysedd gweithredol Gweinidogion Cymru**

Nid yw Rheoliadau 2020 yn effeithio ar gymhwysedd deddfwriaethol Senedd Cymru na chymhwysedd gweithredol Gweinidogion Cymru.

### **Diben y diwygiadau**

Mae Rheoliadau 2020 yn sicrhau bod gan y DU lyfr statud ymarferol ar ddiwedd y Cyfnod Gweithredu. Mae nhw'n arfer y pŵer yn Adran 8C(1) o Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018 i roi Protocol Iwerddon/Gogledd Iwerddon y Cytundeb Ymadael ar waith. Maen nhw'n diwygio Rheoliadau Hadau (Rhestrau Cenedlaethol o Amrywogaethau) 2001 fel eu bod yn gymwys i Brydain Fawr yn unig ac yn creu rhestr o amrywogaethau ar gyfer Prydain Fawr. Maen nhw'n diwygio Rheoliadau Marchnata Hadau a Deunyddiau Lluosogi Planhigion (Diwygio etc.) (Ymadael â'r UE) 2019 i alinio'u diwygiadau o ran eu hymarferoldeb â'r Protocol ac yn gwneud diwygiadau canlyniadol i Rheoliadau Hadau (Rhestrau Cenedlaethol o Amrywogaethau) (Ffioedd) 1994

Mae Rheoliadau 2020 a'u Memorandwm Esboniadol, sy'n gosod manylion tarddiad, diben ac effaith y diwygiadau, ar gael yma: <https://www.legislation.gov.uk/uksi/2020/1294/made>

### **Pam y cafodd cydsyniad ei roi**

Mae cydsyniad wedi'i roi i Lywodraeth y DU wneud y cywiriadau hyn mewn cysylltiad â Cymru ac ar ei rhan er sicrhau effeithlonrwydd a hwylustod ac oherwydd natur dechnegol y diwygiadau. Mae'r diwygiadau wedi'u hystyried yn llawn; nid yw'r diwygiadau'n newid polisi. Gwnaed hyn yn unol â'r egwyddorion ar gyfer cywiro y cytunwyd arnynt gan Is-bwyllgor y Cabinet ar y Cyfnod Pontio Ewropeaidd ym mis Mai.

**GWEINIDOGION Y DU SY'N GWEITHREDU MEWN MEYSYDD  
DATGANOLEDIG**

**206 - Rheoliadau Hadau (Diwygio etc.) (Ymadael â'r UE) 2020**

*Dyddiad gosod yn Senedd y DU: 17 Tachwedd 2020*

**Sifftio**

A fydd angen eu sifftio yn Senedd y DU?	Bydd
Gweithdrefn:	Gwneud Negyddol
Dyddiad trafod gan Bwyllgor Offerynnau Statudol Ewropeaidd Tŷ'r Cyffredin	Amherthnasol
Dyddiad trafod gan Bwyllgor Craffu ar Is-ddeddfwriaeth Tŷ'r Arglwyddi	Amherthnasol
Dyddiad y daw'r cyfnod sifftio i ben yn Senedd y DU	Amherthnasol
Memorandwm Cydsyniad Offeryn Statudol (SICM) o dan Reol Sefydlog 30A (oherwydd eu bod yn diwygio deddfwriaeth sylfaenol)	Dim angen

**Gweithdrefn graffu**

Canlyniad y broses sifftio	Amherthnasol
Gweithdrefn	Gwneud Negyddol
Dyddiad trafod gan y Cydbwyllgor ar Offerynnau Statudol	Anhysbys
Dyddiad trafod gan Bwyllgor Offerynnau Statudol Tŷ'r Cyffredin	Anhysbys
Dyddiad trafod gan Bwyllgor Craffu ar Is-ddeddfwriaeth Tŷ'r Arglwyddi	Anhysbys

**Cefndir**

Bwriedir i'r Rheoliadau hyn gael eu gwneud gan Lywodraeth y DU yn unol ag Adran 8C(1) o Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018.

**Crynodeb**

Diben y Rheoliadau hyn yw sicrhau bod gan y DU lyfr statud ymarferol ar ddiwedd y Cyfnod Gweithredu. Maen nhw'n arfer y pŵer yn Adran 8C(1) o Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018 i roi Protocol Iwerddon/Gogledd Iwerddon y Cytundeb Ymadael ar waith. Maen nhw'n diwygio Rheoliadau Hadau (Rhestrau Cenedlaethol o Amrywogaethau) 2001 fel eu bod yn gymwys i Brydain Fawr yn unig ac yn creu rhestr o amrywogaethau ar gyfer Prydain Fawr Maen nhw'n diwygio Rheoliadau Marchnata Hadau a Deunyddiau Lluosogi Planhigion (Diwygio etc.) (Ymadael â'r UE) 2019 i alinio'u diwygiadau o ran eu hymarferoldeb â'r Protocol ac yn gwneud diwygiadau canlyniadol i Reoliadau Hadau (Rhestrau Cenedlaethol o Amrywogaethau) (Ffioedd) 1994.



**Datganiad gan Lywodraeth Cymru**

Mae'r Cynghorwyr Cyfreithiol yn cytuno â'r datganiad a osodwyd gan Lywodraeth Cymru dyddiedig 20 Tachwedd 2020 ynghylch effaith y Rheoliadau hyn.

**Cytundeb Rhynglywodraethol ar Fil yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael)**

Mae'r crynodeb uchod a chynnwys y Memorandwm Esboniadol i'r Rheoliadau hyn yn cadarnhau eu heffaith.

Nid yw'r Cynghorwyr Cyfreithiol o'r farn bod unrhyw faterion arwyddocaol yn codi o dan baragraff 8 o'r Memorandwm ar Fil yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) a Sefydlu Fframweithiau Cyffredin mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn.



Ein cyf/Our ref qA1411587

Mick Antoniw AS  
Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad  
Senedd Cymru  
Bae Caerdydd  
CF99 1SN

27 Tachwedd 2020

Annwyl Mick

Ysgrifennaf atoch ynglŷn â Gorchymyn Cynrychiolaeth y Bobl (Eithrio Treuliau Etholiad) (Cymru) (Diwygio) 2020. Bwriadwyd gwneud y Gorchymyn hwn yn dilyn y weithdrefn gadarnhaol ac fe'i cymeradwywyd yn y Cyfarfod Llawn ddydd Mawrth 17 Tachwedd 2020.

Ni chafodd y Gorchymyn ei wneud yn ôl y disgwyl ar 18 Tachwedd cyn y dyddiad y bwriadwyd iddo ddod i rym, sef 19 Tachwedd. Yn hytrach, cafodd y Gorchymyn ei wneud am 15:19 ar 19 Tachwedd, gan olygu bod y Gorchymyn yn cael ychydig iawn o effaith ôl-weithredol, oherwydd iddo ddod i rym ar ddechrau 19 Tachwedd.

Diben y Gorchymyn yw eithrio treuliau sy'n ymwneud â chyfieithu a threuliau sy'n gysylltiedig ag anabledau o'r terfyn uchaf statudol ar gyfer gwariant ar etholiadau, er mwyn sicrhau tegwch i bob ymgeisydd mewn etholiad. Bydd hyn yn sicrhau tegwch i unigolion sydd ag anabledau ac yn eu galluogi i ymgeisio mewn etholiad.

O ystyried bod y pleidleisiau hynny a gafodd eu gohirio yn y gorffennol oherwydd y coronafeirws wedi cael eu hail-drefnu i gael eu cynnal o 1 Chwefror ymlaen, roedd yn bwysig bod y Gorchymyn yn cael ei wneud, hyd yn oed gydag ychydig iawn o effaith ôl-weithredol, er mwyn sicrhau bod ymgeiswyr yn deall pa dreuliau fydd yn cyfrif tuag at y terfyn treuliau. Drwy wneud y Gorchymyn yn awr, fel y cymeradwywyd gan y Senedd, gellir cyhoeddi Canllawiau gan y Comisiwn Etholiadol mewn modd amserol. Byddai llunio a gosod Gorchymyn newydd i'r Cyfarfod Llawn ei ystyried wedi achosi oedi, tan ddiwedd mis Rhagfyr, cyn y gellid bod wedi cyhoeddi canllawiau o'r fath. O ganlyniad, byddai unigolion

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:  
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay  
Caerdydd • Cardiff  
CF99 1SN

[Gohebiaeth.Julie.James@llyw.cymru](mailto:Gohebiaeth.Julie.James@llyw.cymru)  
[Correspondence.Julie.James@gov.Wales](mailto:Correspondence.Julie.James@gov.Wales)

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

ag anableddau wedi dewis peidio ag ymgeisio pe na fyddent yn gallu gweld yn union pa dreuliau y gall fod rhaid iddynt eu hysgwyddo.

Yn gywir



**Julie James AS/MS**

Y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol

Minister for Housing and Local Government

**Jeremy Miles AS/MS**  
Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Pontio Ewropeaidd  
Counsel General and Minister for European Transition



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

Mick Antoniw AS  
Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad  
Senedd Cymru  
Bae Caerdydd  
CF99 1SN

1 Rhagfyr 2020

Annwyl Mick,

Rwy'n ysgrifennu i'ch hysbysu, yn unol â'r cytundeb ar gysylltiadau rhyngsefydliadol, y bydd cyfarfod nesaf Cyd-bwyllgor y Gweinidogion (Negodiadau'r UE) yn cael ei gynnal ddydd Iau 03 Rhagfyr, a hynny'n rhithiol unwaith eto. Bydd y cyfarfod yn trafod y berthynas rhwng y DU a'r UE yn y Dyfodol, gan gynnwys Cyd-bwyllgor a Phwyllgorau Arbenigol y Cytundeb Ymadael. Bydd diweddariad hefyd ar y materion pontio gan gynnwys Parodrwydd y DU, Protocol Gogledd Iwerddon a'r amserlen ddeddfwriaethol. Bydd trafodaethau hefyd ar y rhaglen Fframweithiau Cyffredin ac ar Fil Marchnad Fewnol y DU. Byddwn hefyd yn ystyried gwaith y cydadolygiad o gysylltiadau rhynglywodraethol hyd yma.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at Gadeirydd y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol.

**Jeremy Miles AS/MS**  
Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Pontio Ewropeaidd  
Counsel General and Minister for European Transition

Bae Caerdydd • Cardiff Bay  
Caerdydd • Cardiff  
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:  
0300 0604400  
[PSCGBM@gov.wales](mailto:PSCGBM@gov.wales)/[YPCCGB@llyw.cymru](mailto:YPCCGB@llyw.cymru)

